Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad ar y Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru)

Tachwedd 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDCC**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDCC@senedd.cymru**
X: **@SeneddDCC**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad ar y Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru)

Tachwedd 2025

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021.
Ceir ei gylch gwaith yn **www.senedd.cymru/SeneddDCC**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Adam Price AS**
Plaid Cymru

---

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod gwaith craffu ar y Bil.



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys


**Casgliadau ac argymhellion ........ 7**

**1. Cyflwyniad ........ 9**

Cefndir ........ 10

Bil Cynllunio (Cymru) ........ 13

Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) ........ 14

Cylch gwaith y Pwyllgor a'i ddull craffu ........ 14

**2. Arsylwadau cyffredinol ........ 17**

Cymhwysedd deddfwriaethol ........ 17

Manteision disgwyliedig y cydgrynhoi ........ 18

Y dull o gydgrynhoi ........ 22

Goblygiadau ariannol ........ 27

Asesiadau effaith ........ 31

Ein barn ni ........ 33

**3. A yw cwmpas y cydgrynhoi yn briodol? ........ 36**

Gosod y cwmpas ........ 36

Cynnwys ac eithrio deddfwriaeth ........ 39

Eithrio darpariaeth yn y Rheoliadau Cynefinoedd ........ 39

Cynnwys darpariaeth ar dir o dan falltod ........ 43

Y posibilrwydd o gynnwys darpariaeth ym Mil Cynllunio a Seilwaith Llywodraeth y DU ........ 44

Ein barn ni ........ 46

**4. A yw'r Biliau yn cydgrynhoi deddfwriaeth yn gywir, neu'n newid ei heffaith gyfreithiol yn sylweddol, i'r graddau a ganiateir gan Reol Sefydlog 26C.2 yn unig? ........ 48**

Newidiadau i strwythur, iaith neu fformat y gyfraith bresennol ... 49

Newidiadau i fformat y gyfraith bresennol ... 49

Newidiadau i derminoleg ... 49

Newidiadau at ddiben egluro cymhwysiad neu effaith cyfraith bresennol 55

Ymgorffori cyfraith gyffredin ... 55

Adran 319 – Yr hawl i ddigollediad am effeithiau penderfyniadau a gorchmynion cynllunio penodol ... 56

Adran 408 – Dehongli ... 57

Atodlen 5 – Amod sy'n cyfyngu ar hyd caniatâd mwynau ... 58

Dileu neu hepgor darpariaethau yr ystyrir eu bod wedi darfod, wedi'u disbyddu neu os nad oes iddynt bellach unrhyw ddefnydd neu les ymarferol ... 59

Adran 137 – Adfer costau cydymffurfio â hysbysiad gorfodi; ac adran 258 – Adfer costau plannu coed ... 60

Mân newidiadau i'r gyfraith bresennol at ddiben sicrhau cydgrynhoi boddhaol ... 62

Cywiro anomaleddau ... 62

Adran 105 – Digollediad am wrthod caniatâd cynllunio a roddwyd yn flaenorol drwy orchymyn neu am ei roi yn amodol ... 62

Adran 116 – Pwerau i fynd ar dir at ddibenion gorfodi ... 64

Adran 186 – Casglu a thalu'r ardoll seilwaith cymunedol, ac adran 187 – Gorfodi: cyffredinol ... 65

Newidiadau i'r gyfraith a argymhellir gan Gomisiwn y Gyfraith ... 67

Newidiadau i weithdrefnau is-ddeddfwriaeth, symud darpariaethau rhwng is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth sylfaenol, a phwerau gwneud rheoliadau newydd a roddir i Weinidogion Cymru ... 68

Newidiadau i weithdrefnau is-ddeddfwriaeth ... 69

Symud darpariaethau rhwng is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth sylfaenol ... 69

Darparu pwerau gwneud rheoliadau newydd i Weinidogion Cymru ... 70

Ein barn ni ... 71

**5. A yw'r Biliau'n cydgrynhoi'r gyfraith yn glir ac yn gyson? ........ 73**

Cyffredinol ........ 73

Adran 1 – Cyflwyniad ........ 73

Adran 7 – Yr awdurdod cynllunio ar gyfer ardal ........ 74

Adran 11 – Datblygu cynaliadwy; ac adran 51 – Dyletswydd datblygu cynaliadwy ........ 79

Adran 19 – Dyletswydd i lunio cynllun datblygu lleol ........ 81

Adran 86 – Cyfuno ceisiadau am ganiatâd cynllunio â cheisiadau eraill ........ 84

Ein barn ni ........ 85

**6. Gweithredu a gwerthuso llwyddiant ........ 87**

Gweithredu ........ 87

Is-ddeddfwriaeth ........ 92

Cod cynllunio ........ 98

Gwerthuso llwyddiant ........ 104

Ein barn ni ........ 105

**Atodiad 1 : Dogfennau sydd wedi'u hatodi i'r Memorandwm Esboniadol i'r Biliau ........ 108**

**Atodiad 2 : Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ........ 109**

**Atodiad 3 : Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig ........ 110**

**Atodiad 4 : Gohebiaeth a gyfnewidiwyd gyda'r Cwnsler Cyffredinol ........ 111**

# Casgliadau ac argymhellion

**Argymhelliad 1.** Yn ystod y ddadl ar Ystyriaeth Gychwynnol y Biliau, dylai'r Cwnsler Cyffredinol ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cydsyniad a'r ymgynghoriad gofynnol sy'n angenrheidiol i ddod â'r Bil Cynllunio (Cymru) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. ........ Tudalen 33

**Argymhelliad 2.** Yn ystod y ddadl ar Ystyriaeth Gychwynnol y Biliau, dylai'r Cwnsler Cyffredinol ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw welliannau y bydd angen eu gwneud i'r Bil Cynllunio (Cymru) neu'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) o ganlyniad i Fil Cynllunio a Seilwaith Llywodraeth y DU, pe bai'r Biliau'n mynd ymlaen i gyfnod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor. ........ Tudalen 47

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol gadarnhau nad yw adran 9 o'r Bil Cynllunio (Cymru) yn cynnwys unrhyw newidiadau i gyfraith bresennol ac egluro ei rheswm dros y farn honno. ........ Tudalen 85

**Argymhelliad 4.** Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan randdeiliaid, dylai'r Cwnsler Cyffredinol ystyried ymhellach a all adran 19(9) o'r Bil Cynllunio (Cymru) elwa ar eglurder ychwanegol, a dylai ysgrifennu at bob awdurdod cynllunio i adrodd ar ei hystyriaeth. ........ Tudalen 86

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) barhau fel Biliau Cydgrynhoi. ........ Tudalen 86

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol nodi map trywydd ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth o dan y Bil Cynllunio (Cymru), a thynnu sylw at y cyfleoedd sydd ar gael i randdeiliaid lywio'r gwaith o ddatblygu is-ddeddfwriaeth. ........ Tudalen 106

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol egluro rôl ddisgwyliedig yr Archifau Cenedlaethol mewn perthynas â chreu a chynnal codau cyfraith Cymru. ........ Tudalen 107

**Casgliad 1.** Rydym yn fodlon bod cwmpas y cydgrynhoi yn briodol. ........ Tudalen 47

**Casgliad 2.** Rydym yn fodlon bod y deddfiadau perthnasol wedi'u cynnwys yn y cydgrynhoi. ........ Tudalen 47

**Casgliad 3.** Rydym yn ystyried bod y Biliau'n cydgrynhoi'r deddfiadau yn gywir neu'n newid eu heffaith gyfreithiol o ran sylwedd i'r graddau a ganiateir gan Reol Sefydlog 26C.2 yn unig. ........ Tudalen 72

**Casgliad 4.** Rydym yn ystyried bod y Biliau yn cydgrynhoi'r gyfraith yn glir ac yn gyson..........Tudalen 85

# 1. Cyflwyniad

## Ar 15 Medi 2025, cyflwynodd Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni (y Cwnsler Cyffredinol) y Bil Cynllunio (Cymru)[1] (y Bil Cynllunio) a’r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru)[2] (y Bil Darpariaethau Canlyniadol) (gyda’i gilydd, y Biliau), a Memorandwm Esboniadol cysylltiedig[3] i’r Senedd.

**1.** Cyflwynwyd y Biliau fel Biliau Cydgrynhoi.[4]

**2.** Ochr yn ochr â’r Biliau a’r Memorandwm Esboniadol, gosododd y Cwnsler Cyffredinol hefyd: Nodiadau Esboniadol ar gyfer pob Bil; tablau sy’n dangos tarddiad y darpariaethau, a thrawsleoliadau’r darpariaethau presennol wedi’u hail-ddatgan, ym mhob Bil; esboniadau o’r newidiadau a wnaed i’r darpariaethau presennol ym mhob Bil (y cyfeirir atynt fel Nodiadau’r Drafftwyr); a gohebiaeth gan Gomisiwn y Gyfraith.[5]

**3.** Atgyfeiriodd Pwyllgor Busnes y Senedd y Biliau i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad (y Pwyllgor), gan bennu 28 Tachwedd 2025 fel y dyddiad ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y Biliau yn yr Ystyriaeth Gychwynnol[6].[7]

---

[1] Bil Cynllunio (Cymru), fel y’i cyflwynwyd
[2] Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru), fel y’i cyflwynwyd
[3] Memorandwm Esboniadol i’r Biliau adeg eu cyflwyno
[4] Mae Rheol Sefydlog 26C yn nodi bod Bil Cydgrynhoi yn Fil a gyflwynwyd gan aelod o’r llywodraeth at ddibenion cydgrynhoi deddfwriaeth sylfaenol bresennol, is-ddeddfwriaeth a’r gyfraith gyffredin. Mae Rheol Sefydlog 26C.2 yn nodi’r cyfyngiadau ar Fil Cydgrynhoi.
[5] Mae dolenni i’r dogfennau hyn ar gael yn Atodiad 1.
[6] Fel y nodir yn Rheol Sefydlog 26C.15 i 26C.65, fel arfer mae proses pedwar cyfnod ar gyfer ystyried Bil Cydgrynhoi, sef: Ystyriaeth Gychwynnol, Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, Ystyriaeth Fanwl y Senedd, a’r Cyfnod Terfynol.
[7] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Bil Cynllunio (Cymru), Medi 2025; Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru), Medi 2025

## Cefndir

**4.** Ym mis Ionawr 2011, argymhellodd Pwyllgor Cynaliadwyedd y Cynulliad Cenedlaethol fel ydoedd ar y pryd, y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i gydgrynhoi cyfraith cynllunio yng Nghymru, gan nodi:

> *"… er bod cyfrifoldeb am y system cynllunio defnydd tir wedi ei ddatganoli gan mwyaf i Weinidogion Cymru, bod hynny wedi'i seilio i raddau helaeth o hyd ar ddeddfwriaeth sylfaenol Cynllunio Gwlad a Thref sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr … Oherwydd hyn, dros gyfnod, wrth i wahanol anghenion system cynllunio i Gymru ddatblygu, mae pethau wedi mynd yn fwyfwy cymhleth i ddefnyddwyr, i wleidyddion lleol ac i swyddogion cynllunio'u hunain, o ran deall gofynion system cynllunio Cymru."*[8]

**5.** Ym mis Gorffennaf 2011, cynhwysodd Llywodraeth Cynulliad Cymru fel yr ydoedd ar y pryd gynnig ar gyfer "Bil cynllunio a fydd yn atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth cynllunio presennol, gan ei wneud yn fwy tryloyw a hygyrch" yn ei rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer 2011 i 2016.[9] Wedi hynny, cyflwynodd Fil a ddaeth yn *Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015*[10] (Deddf 2015) ac, yn ystod ei thaith, nododd Llywodraeth Cymru y byddai – neu, y gobeithiai y byddai Llywodraeth yn y dyfodol – yn ystyried Bil cydgrynhoi maes o law ar gyfer cynllunio.[11]

**6.** Arweiniodd datblygiad Deddf 2015 gan Lywodraeth Cymru at gydweithredu â Chomisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr (Comisiwn y Gyfraith) mewn perthynas â chydgrynhoi cyfraith cynllunio[12] ac, ym mis Gorffennaf 2014, cychwynnodd Comisiwn y Gyfraith ddau brosiect a gynigiwyd iddo gan Lywodraeth Cymru:

- Ffurf a hygyrchedd y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru;

---

[8] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cynaliadwyedd (Trydydd Cynulliad), Ymchwiliad i Bolisïau Cynllunio yng Nghymru, Ionawr 2011, paragraff 29 ac argymhelliad 1
[9] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyfarfod Llawn (Pedwerydd Cynulliad), Cofnod y Trafodion 12 Gorffennaf 2011, tudalennau 101 i 102
[10] *Deddf Cynllunio (Cymru) 2015* (dccc 4)
[11] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd (Pedwerydd Cynulliad), Trawsgrifiad 27 Tachwedd 2014, paragraff 267
[12] Nododd Ymateb Interim Llywodraeth Cymru i Adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Gyfraith Cynllunio yng Nghymru, dyddiedig 9 Mai 2019, fod gwaith Llywodraeth Cymru ar Ddeddf 2015 a'r dystiolaeth ategol a ddarparwyd gan Grŵp Cynghori Annibynnol Comisiwn y Gyfraith yn tynnu sylw at faterion ynghylch cymhlethdod y fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i'r system gynllunio.

- Rheoli cynllunio a datblygu yng Nghymru.[13]

**7.** Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith adroddiad ar y cyntaf o'r prosiectau hyn ym mis Hydref 2016, a oedd yn cynnwys argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru ymgymryd â rhaglen o godeiddio cyfraith Cymru.[14] Roedd ei adroddiad hefyd yn gwahaniaethu rhwng ystyron cydgrynhoi a chodeiddio:

> *"… Cydgrynhoi yw'r broses o ddisodli darpariaethau statudol sy'n bodoli eisoes, wedi'u gwasgaru dros wahanol statudau gydag un Ddeddf neu gyfres o Ddeddfau cysylltiedig. …*
>
> *… mae codeiddio fel yr ydym ni wedi ei ragweld yn wahanol i gydgrynhoi traddodiadol yn y ffordd y mae (a) yn digwydd law yn llaw â graddau mwy o ddiwygio'r ddeddfwriaeth na'r hyn sy'n draddodiadol mewn cydgrynhoi a (b) pan fo cod ar y llyfr statud, caiff deddfwriaeth bellach o fewn ei faes pwnc (boed yn ddiwygio neu ychwanegu at y testun presennol) ei rhoi ar waith trwy ddiwygio'r cod neu ychwanegu ato ac nid mewn deddfwriaeth ar wahân a saif ar ei phen ei hun."*[15]

**8.** Rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Mawrth 2018, cynhaliodd Comisiwn y Gyfraith ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'i brosiect ar gyfraith cynllunio, er mwyn llywio'r gwaith o lunio Bil newydd i ffurfio "prif elfen" cod cynllunio i Gymru.[16] Nododd ei bapur ymgynghori fod y gyfraith sy'n llywio'r system gynllunio yn "eithriadol gymhleth"[17] a bod angen "atgyweirio'r system gyfan yn radicalaidd"[18]. Mewn perthynas â'r gyfraith cynllunio yng Nghymru, tynnodd sylw at faterion mewn perthynas â'r canlynol:

- adnabod y ddeddfwriaeth berthnasol;
- y cymhlethdod a grëwyd;

[13] Comisiwn y Gyfraith, Twelfth Programme of Law Reform, Gorffennaf 2014 [Saesneg yn unig]
[14] Comisiwn y Gyfraith, Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru, Hydref 2016, argymhelliad 1
[15] Comisiwn y Gyfraith, Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru, Hydref 2016, paragraffau 2.7 i 2.19
[16] Comisiwn y Gyfraith, Papur Ymgynghori Cyfraith Cynllunio yng Nghymru, Tachwedd 2017, paragraff 0.2
[17] Comisiwn y Gyfraith, Papur Ymgynghori Cyfraith Cynllunio yng Nghymru, Tachwedd 2017, paragraff 1.4
[18] Comisiwn y Gyfraith, Papur Ymgynghori Cyfraith Cynllunio yng Nghymru, Tachwedd 2017, paragraff 1.11

- strwythur aneglur;
- cymhwysiad aneglur deddfwriaeth Senedd y DU yng Nghymru;
- y ffaith bod y ddeddfwriaeth honno ar gael yn Saesneg yn unig.[19]

**9.** Ym mis Tachwedd 2018, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad, Cyfraith Cynllunio yng Nghymru, a oedd yn cynnwys 192 o argymhellion.[20] Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymateb interim ym mis Mai 2019, a gadarnhaodd fod gwaith wedi dechrau ar Fil i gydgrynhoi cynllunio.[21] Ym mis Mai 2020, ymatebodd Llywodraeth Cymru yn fanwl i bob un o'r argymhellion yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith.[22]

**10.** Ym mis Medi 2021, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru[23], fel sy'n ofynnol gan *Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019*[24] (Deddf 2019). Cadarnhaodd ei bwriad i gyflwyno Bil cydgrynhoi cynllunio, yn ogystal â Bil cydgrynhoi ar yr amgylchedd hanesyddol[25] (deddfwyd fel *Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023*[26] (Deddf 2023)).[27] Cyhoeddodd hefyd brosiect graddol o gydgrynhoi is-ddeddfwriaeth cynllunio gwlad a thref allweddol er mwyn ategu'r Bil cydgrynhoi cynllunio.[28] Mae fersiwn ddiwygiedig o'r rhaglen, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024, yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i greu cod o gyfraith Cymru sy'n ymwneud â chynllunio yng Nghymru yn ystod tymor presennol y Senedd.[29]

**11.** Gwnaeth *Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025* ddiddymu a diwygio rhai darpariaethau cynllunio diangen yn y ddeddfwriaeth bresennol.[30] Wrth ei gyflwyno fel Bil, nododd Llywodraeth Cymru y

---

[19] Comisiwn y Gyfraith, Papur Ymgynghori Cyfraith Cynllunio yng Nghymru, Tachwedd 2017, paragraffau 1.45 i 1.69
[20] Comisiwn y Gyfraith, Adroddiad Terfynol Cyfraith Cynllunio yng Nghymru, Tachwedd 2018
[21] Llywodraeth Cymru, Ymateb Interim i'r Adroddiad ar Gyfraith Cynllunio yng Nghymru, 9 Mai 2019
[22] Llywodraeth Cymru, Ymateb Manwl i Adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Gyfraith Cynllunio yng Nghymru, Tachwedd 2020
[23] Llywodraeth Cymru, Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026, Medi 2021
[24] *Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019* (dccc 4), adran 2
[25] Roedd gwaith Comisiwn y Gyfraith hefyd yn llywio datblygiad Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru). Gweler: Papur Ymgynghori Cyfraith Cynllunio yng Nghymru, Tachwedd 2017, paragraffau 3.87 i 3.100; a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Rhagfyr 2022, paragraffau 87 i 96.
[26] *Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023* (dsc 3)
[27] Llywodraeth Cymru, Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026, Medi 2021
[28] Llywodraeth Cymru, Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026, Medi 2021
[29] Llywodraeth Cymru, Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd ddiwygiedig 2021 i 2026, Ionawr 2024
[30] *Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025* (dsc 3), Atodlen 1

byddai'r dull hwn yn caniatáu i "rywfaint o'r gwaith o dacluso'r llyfr statud o ran cynllunio fynd rhagddo yn gynharach nag a fyddai'n digwydd fel arall, a bydd hefyd yn osgoi cynnwys darpariaethau ynghylch y diddymiadau hynny yn y Bil Cynllunio."[31]

**12.** Ym mis Rhagfyr 2024, yn hytrach na chynnwys diwygiadau canlyniadol mewn Atodlen i'r prif Fil cydgrynhoi cynllunio, nododd Llywodraeth Cymru ei bod yn paratoi "Bil darpariaethau canlyniadol" i'w gyflwyno ar yr un pryd â'r prif Fil.[32]

## Bil Cynllunio (Cymru)

**13.** Diben y Bil Cynllunio (Cymru) yw cydgrynhoi deddfwriaeth sy'n ymwneud â chynllunio yng Nghymru. Mae'r Bil hwn yn dwyn ynghyd ddeddfwriaeth a geir mewn nifer o Ddeddfau ar hyn o bryd, a'r canlynol yn bennaf:[33]

- *Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*[34] (Deddf 1990);
- *Deddf Cynllunio a Digolledu 1991*[35];
- *Deddf yr Amgylchedd 1995*[36];
- *Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004*[37] (Deddf 2004);
- *Deddf Cynllunio 2008*[38]; *a*
- Deddf 2015[39].

**14.** Mae'r Bil hefyd yn ymgorffori rhai darpariaethau sydd i'w gweld ar hyn o bryd mewn is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Deddfau sy'n cael eu cydgrynhoi, a pheth cyfraith achosion ac ymarfer sy'n bwysig er mwyn deall sut mae'r Deddfau hynny yn gweithredu.[40]

---

[31] Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau (Cymru), fel y'i cyflwynwyd, Memorandwm Esboniadol, Hydref 2024, paragraff 39
[32] Llywodraeth Cymru, Dyfodol cyfraith Cymru: adroddiad blynyddol 2023 i 2024, Rhagfyr 2024, paragraff 4
[33] Memorandwm Esboniadol, paragraff 1
[34] *Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990* (p. 8)
[35] *Deddf Cynllunio a Digolledu 1991* (p. 34)
[36] *Deddf yr Amgylchedd 1995* (p. 25)
[37] *Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004* (p. 5)
[38] *Deddf Cynllunio 2008* (p. 29)
[39] Memorandwm Esboniadol, paragraff 21
[40] Memorandwm Esboniadol, paragraff 29

**15.** Mae'r Bil yn cynnwys 410 o adrannau ac 20 o Atodlenni, ac mae iddo 15 Rhan.[41]

## Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru)

**16.** Diben y Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) yw diwygio a diddymu deddfiadau, a gwneud darpariaethau trosiannol ac arbedion, mewn cysylltiad â'r Bil Cynllunio.[42] Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan:

> *"Yn aml, ymdrinnir â darpariaethau canlyniadol a throsiannol o'r fath mewn un Atodlen neu fwy i Fil. Fodd bynnag, o ystyried bod gan y darpariaethau naill ai oes gyfyngedig yn ymarferol neu y byddant o ddiddordeb cyfyngedig iawn i'r rhan fwyaf o ddarllenwyr cyfraith cynllunio, bydd eu gosod mewn Bil ar wahân yn sicrhau nad yw'r darpariaethau o sylwedd (a'r rhai a ddefnyddir amlaf) yn y Bil Cynllunio yn cynnwys Atodlenni hirfaith o ddarpariaethau canlyniadol a throsiannol."*[43]

**17.** Mae'r Bil Darpariaethau Canlyniadol yn cynnwys chwe adran a phum Atodlen.

## Cylch gwaith y Pwyllgor a'i ddull craffu

**18.** Cylch gwaith y Pwyllgor yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheolau Sefydlog 21 a 26C. Gallwn hefyd ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad, cyfiawnder a materion allanol, o fewn cymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru neu sy'n ymwneud â'r cymhwysedd hwnnw, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

**19.** Mewn perthynas â Bil Cydgrynhoi, mae Rheol Sefydlog 26C.16 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor, yn ystod yr Ystyriaeth Gychwynnol, ystyried a ddylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi a chyflwyno adroddiad ar hynny. Yn unol â Rheol Sefydlog 26C.17, gall ystyried:

(i) a yw'n fodlon bod cwmpas y cydgrynhoi yn briodol;

(ii) a yw'n fodlon bod y deddfiadau perthnasol wedi'u cynnwys wrth gydgrynhoi;

[41] Mae adran 2 o'r Bil Cynllunio yn nodi cynnwys pob un o Rannau'r Bil.
[42] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3
[43] Memorandwm Esboniadol, paragraff 4

(iii) a yw'r Bil yn cydgrynhoi'r deddfiadau yn gywir neu a yw'n newid eu heffaith gyfreithiol o ran sylwedd i'r graddau a ganiateir gan Reol Sefydlog 26C.2 yn unig[44];

(iv) a yw'r Bil yn cydgrynhoi'r gyfraith yn glir ac yn gyson;

(v) unrhyw faterion eraill y mae'n barnu sy'n berthnasol i Reol Sefydlog 26C.

**20.** Ar 14 Gorffennaf 2025, buom yn ystyried ein dull o ymdrin â'r Ystyriaeth Gychwynnol gan gytuno i graffu ar y Biliau yn unol â Rheol Sefydlog 26C.17.[45]

**21.** Fel rhan o'n gwaith craffu, gwnaethom gymryd tystiolaeth lafar gan sawl tyst; mae atodlen o'r dystiolaeth lafar a gafwyd wedi'i chynnwys yn Atodiad 2.

**22.** Er mwyn llywio ein hystyriaeth, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus gennym rhwng 16 Medi 2025 ac 8 Hydref 2025. Mae rhestr o'r 11 ymateb a gafwyd wedi'i chynnwys yn Atodiad 3.

**23.** Gwnaethom ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol ar 23 Medi 2025 i ofyn am ragor o wybodaeth am sawl mater[46]; cawsom ymateb ar 10 Hydref 2025[47]. Cyn ymddangosiad y Cwnsler Cyffredinol gerbron y Pwyllgor ar 3 Tachwedd 2025, gwnaethom dynnu'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'w sylw.[48] O ganlyniad, ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol at y Pwyllgor ar 28 Hydref 2025 gan roi sylw i rai materion a godwyd gan y rhai a ymatebodd i ymgynghoriad y Pwyllgor.[49] Mae ein gohebiaeth â'r Cwnsler Cyffredinol ar gael yn llawn yn Atodiad 4.

**24.** Yn yr adroddiad hwn, rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar y cyngor a'r dystiolaeth a gawsom sy'n berthnasol i'n rôl wrth argymell i'r Senedd a ddylai'r Biliau fynd rhagddo fel Biliau Cydgrynhoi.

**25.** Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ein gwaith, boed hynny ar ffurf tystiolaeth lafar neu ymatebion ysgrifenedig, ac sydd wedi helpu i lywio ein hystyriaeth o'r Biliau.

---

[44] Mae Canllawiau i ategu'r drefn o weithredu Rheol Sefydlog 26C ar Filiau Cydgrynhoi y Llywydd yn rhoi rhagor o fanylion ar natur Biliau Cydgrynhoi ac i ba raddau y gallant ddiwygio, diweddaru a newid y gyfraith bresennol yn unol â Rheol Sefydlog 26C.2.
[45] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Gorffennaf 2025, Cofnodion, eitem 17
[46] Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol, 23 Medi 2025
[47] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 10 Hydref 2025
[48] Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol, 21 Hydref 2025
[49] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Hydref 2025

**26.** Yn benodol, hoffem ddiolch i'r Cwnsler Cyffredinol, Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol a Chyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru am eu cyfraniad at y broses graffu ac am eu hatebion trylwyr i'n cwestiynau.

**27.** Yn olaf, hoffem gofnodi bod cyflwyno'r Biliau yn benllanw llawer iawn o waith ar ran Llywodraeth Cymru, a hefyd gan Gomisiwn y Gyfraith. Yn hyn o beth, hoffem hefyd gydnabod cyfraniad Dr Charles Mynors – prif awdur yr adroddiad Cyfraith Cynllunio yng Nghymru Comisiwn y Gyfraith, sydd wedi'i secondio i Lywodraeth Cymru[50] – y cyfeirir at ei rôl yn aml[51] yn ystod ein hystyriaeth.

[50] Yn ystod ei hymddangosiad gerbron y Pwyllgor ar 3 Tachwedd 2025 (Cofnod y Trafodion [41]), esboniodd y Cwnsler Cyffredinol rôl Dr Mynors.
[51] Gweler: y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 29 Medi 2025, Cofnod y Trafodion [246]; y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [97]; a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [11].

# 2. Arsylwadau cyffredinol

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon y byddai'r Biliau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[52]

## Cymhwysedd deddfwriaethol

**28.** Er mwyn i Fil – os caiff ei basio fel Deddf Senedd Cymru – fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, rhaid iddo beidio â chynnwys darpariaeth sy'n methu â bodloni unrhyw un o'r profion a nodir yn adran 108A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*[53] (Deddf 2006).

**29.** Ar ôl eu cyflwyno, dywedodd y Llywydd, y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, y byddai'r rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Biliau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ond:

> *"Nid yw Adran 370 o'r Bil Cynllunio (Cymru) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol. Mae hyn oherwydd bod angen cydsyniad gan Lywodraeth y DU i'w dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol ac ni chafwyd y cydsyniad angenrheidiol hwn ar yr adeg hon.*
>
> *Nid yw Adran 105 o'r Bil Cynllunio (Cymru) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol. Mae hyn oherwydd ei fod yn tynnu pŵer oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol ac felly mae angen ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol yn unol â pharagraff 11(2) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; ni chafwyd cadarnhad bod yr ymgynghoriad hwn wedi'i gynnal."*[54]

**30.** Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol nad oedd Llywodraeth Cymru wedi derbyn ymateb ffurfiol gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'w chais am gydsyniad mewn perthynas â'r darpariaethau hyn, er bod swyddogion perthnasol yn Swyddfa Cymru wedi dweud wrthi nad oedd unrhyw bryderon polisi. Dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cymru yn "hyderus iawn" y

[52] Memorandwm Esboniadol, tudalen 5
[53] *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (p. 32)
[54] Senedd Cymru, Datganiad y Llywydd ar Gymhwysedd Deddfwriaethol: Y Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru), 15 Medi 2025

bydd y cydsyniadau angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith gan Gydsyniad Brenhinol.[55]

**31.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym mewn gohebiaeth nad oedd "unrhyw feysydd cyfreithiol yr hoffem fod wedi'u cydgrynhoi ond na allem wneud hynny, naill ai oherwydd pryderon ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol neu am resymau eraill."[56]

**32.** Un o'r profion a nodir yn adran 108A o Ddeddf 2006 yw na ddylai darpariaeth fod yn anghydnaws â hawliau'r Confensiwn (yr hawliau a ddiogelir gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol).

**33.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol mewn tystiolaeth lafar fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad hawliau dynol llawn cyn cyflwyno'r Biliau, a chadarnhaodd ei bod yn fodlon bod darpariaethau'r Biliau yn cydymffurfio'n llawn â hawliau'r Confensiwn.[57]

## Manteision disgwyliedig y cydgrynhoi

**34.** Ar gyflwyno'r Biliau, nododd y Cwnsler Cyffredinol fod y fframwaith deddfwriaethol presennol mewn perthynas â chynllunio yn:

> *"… dameidiog ac mae'n anodd llywio drwyddo. Mae'n seiliedig ar ddeddfwriaeth a basiwyd gan Senedd y DU, llawer ohoni o ddegawdau yn ôl. Gall y gwahaniaeth cynyddol rhwng y gyfraith yng Nghymru a Lloegr ei gwneud hi'n anodd nodi'r gyfraith yma. Mae'r sefyllfa hon yn cael ei gwaethygu gan welliannau o ddeddfwriaeth diwygio cynllunio a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda dim ond agweddau cyfyngedig sy'n berthnasol i Gymru. …*
>
> *Mae'n bwysig bod yr holl randdeiliaid sy'n gweithio gyda'r system yn gallu cael mynediad a deall y gyfraith sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt. Mae'r angen cynyddol am gyngor cyfreithiol i weithredu, defnyddio a chymryd rhan yn y system gynllunio yn bryder gwirioneddol. Ni ddylai pa mor effeithiol y mae'r system gynllunio yn gweithredu, neu ba mor effeithiol y*

[55] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [42]
[56] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 10 Hydref 2025, paragraff 6
[57] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [44]

> *mae cymunedau'n ymgysylltu â hi, ddibynnu ar ba un a ellir cael cyngor cyfreithiol neu ei fforddio. Mae cyflwyno'r Bil Cynllunio (Cymru) yn mynd i'r afael â'r cymhlethdodau a'r materion hyn."*[58]

**35.** Yn ogystal, nododd y Cwnsler Cyffredinol:

> *"Mae'r Bil [Cynllunio] hwn yn amlwg yn nodi moment dyngedfennol yn stori datganoli ein system gynllunio. Pe bai'r Senedd yn pasio'r Bil, bydd ein dibyniaeth ar wahanol hen Ddeddfau San Steffan ar gyfer ein cyfraith gynllunio yn dod i ben. Bydd hefyd yn golygu y bydd unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth gynllunio Cymru yn y dyfodol yn llawer haws, gyda newidiadau yn cael eu gwneud i un testun cyfunol."*[59]

**36.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi manteision ehangach disgwyliedig y ddeddfwriaeth:

> *"Mae cyfraith hygyrch yn hanfodol er mwyn sicrhau system gynllunio effeithlon, effeithiol a syml sy'n adlewyrchu anghenion penodol Cymru. Bydd symleiddio a moderneiddio deddfwriaeth gynllunio yn Ddeddf ddwyieithog sydd wedi'i chydgrynhoi yn sicrhau manteision ymarferol gwirioneddol i bob rhanddeiliad yn y system gynllunio – o'r rhai sy'n ei gweithredu a'i defnyddio i'r rhai sydd am gael mynediad at y gyfraith er mwyn cymryd rhan yn y system a fydd, yn ei dro, yn parhau i gyfrannu at lesiant Cymru a'i phobl. Yn bwysig ddigon, wrth i gyfraith cynllunio ddod yn fwy hygyrch ac yn gliriach, bydd yn gwella cyfranogiad a hyder y cyhoedd yn y system."*[60]

**37.** Dywedodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru wrthym y byddai'r Bil Cynllunio yn ein rhoi mewn sefyllfa gref iawn, ac yn unigryw i weddill y DU, o ran y ffaith y bydd darnau gwahanol o ddeddfwriaeth yn cael eu rhoi mewn un lle dros amser[61], a byddai'n symleiddio pethau'n ddirfawr i ymarferwyr[62]. Gwnaethant hefyd gyfeirio at fanteision ychwanegol:

---

[58] Y Cyfarfod Llawn, 16 Medi 2025, Cofnod y Trafodion [213] i [214]
[59] Y Cyfarfod Llawn, 16 Medi 2025, Cofnod y Trafodion [222]
[60] Memorandwm Esboniadol, paragraff 19
[61] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [91]
[62] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [93]

> *"It will open up understanding of planning legislation to the wider public … which will be beneficial in terms of transparency and trust in the planning system. But in terms of people wishing to undertake development, often they'll employ an agent or they'll certainly engage with a local planning authority—or planning authority now, I should say. And it will just simplify that process. It will reduce the amount of time their advisers need to spend working through the legislation and potentially reduce the amount of legal advisers they need to engage in the process."*[63]

**38.** Ymhelaethodd Annabel Graham Paul, sy'n cynrychioli Cymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd, ar yr anawsterau a achosir gan gyfraith cynllunio yng Nghymru ar hyn o bryd, a manteision y ddeddfwriaeth arfaethedig:

> *"… even for lawyers and experienced practitioners, we're often left in a situation where we have to sort of double, triple-check things to see where we're supposed to be looking. And so, turning to, as I say, members of the public or others, one can completely understand why it's difficult. The Town and Country Planning Act 1990 was enacted pre devolution, we've got some bits post devolution. So, we really do now need a comprehensive Act for Wales, bilingual, that is just for Wales, so everybody knows all the law for Wales is just in one place."*[64]

**39.** Nododd hefyd fel a ganlyn:

> *"… hopefully, going forward, for people who are starting out now, rather than transitioning from the older system, it should be clearer and easier for them. One of the things we [the Planning and Environment Bar Association] seek to do is to encourage the new generation of people to come forward who want to practice in planning and environmental law, particularly from diverse backgrounds and people who haven't necessarily thought of that area of law as one they would be interested in. So, the more it's in the spotlight and the more it looks like it's*

[63] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [102]
[64] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [159]

> *exciting and new, I think that can only be a sort of good thing for the profession."*[65]

**40.** Dywedodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru:

> *"… the Bills provide a clearer and more accessible framework for planning the law in Wales, and that they align with modern legislative drafting standards. The principle of consolidation and codification is greatly welcomed. We think that it will help practitioners to identify relevant sections of legislation much more easily. It's also very helpful in identifying which elements of legislation are Wales specific. Many of us are dealing with agents who work in both England and Wales, and having to advise on which bits of legislation in a complex system are Wales-only at the moment.*
>
> *We very much welcome the fact that it's a bilingual Bill for a bilingual country …".*[66]

**41.** Wrth fynegi ei chefnogaeth i'r Biliau, dywedodd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU (UKELA):

> *"UKELA considers that the Bills are likely to improve many cross-sectoral aspects of environmental law such as improving access to information, public participation and access to justice. Moreover, the Bills improve how environmental duties are integrated within planning decisions by clarifying, codifying and updating references."*[67]

**42.** Mewn ymateb i'n hymgynghoriad, nododd yr unigolion a'r sefydliadau canlynol eu cefnogaeth eang i'r Biliau hefyd: Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Tai Hanesyddol Cymru, Charles Felgate o Geldards LLP, Cymorth Cynllunio Cymru, Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA) Cymru, Cymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd, a Sara Hanrahan o Blake Morgan LLP.[68]

---

[65] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [174]
[66] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [6] a [7]
[67] PCB09 UKELA, paragraff 18 [Saesneg yn unig]
[68] Gweler Atodiad 3 am ddolenni i'r ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad y Pwyllgor.

## Y dull o gydgrynhoi

**43.** Yn ei llythyr dyddiedig 10 Hydref 2025, esboniodd y Cwnsler Cyffredinol ddull Llywodraeth Cymru o gydgrynhoi deddfwriaeth cyn datganoli:

> *"Mae'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth a gydgrynhoir yn y Bil Cynllunio (Cymru) ('y Bil Cynllunio') yn rhagflaenu datganoli, a'r ffaith nad yw ei thestun yn adlewyrchu datganoli yn llwyr yw un o'r rhesymau pam mae cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth yn ddymunol. Fel yr esbonnir yn y cyflwyniad i Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil Cynllunio … mae'r Bil wedi'i ddrafftio i adlewyrchu'r ffordd y mae Deddfau Llywodraeth Cymru a gorchmynion trosglwyddo swyddogaethau a wnaed oddi tanynt (yn ogystal â newidiadau amrywiol eraill yn y gyfraith) wedi effeithio ar ddeddfwriaeth gynllunio bresennol)."*[69]

**44.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol hefyd, mewn ymateb i'n cwestiwn ar y mater:

> *"… nid ydym o'r farn bod yr heriau sy'n gysylltiedig â 'gwahanu' Cymru oddi wrth Loegr sydd wedi codi yn y prosiect hwn yn unigryw i gyfraith gynllunio. Pan fo'r darpariaethau sy'n cael eu cydgrynhoi yn gymwys i Loegr yn ogystal â Chymru, bu'n rhaid inni ystyried yn ofalus i ba raddau y maent yn berthnasol i Gymru a sut maent yn gymwys mewn perthynas â Chymru, a bu'n rhaid inni sicrhau bod y darpariaethau newydd i Gymru a'r diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth bresennol yn mabwysiadu dull gweithredu cyson nad yw'n creu bylchau nac achosion o orgyffwrdd nad oes eu heisiau. Cododd y materion hyn hefyd wrth gydgrynhoi deddfwriaeth ynglŷn â'r amgylchedd hanesyddol ac rydym yn disgwyl iddynt godi mewn ymarferion cydgrynhoi yn y dyfodol."*[70]

**45.** Gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol, mewn tystiolaeth lafar, nodi sut yr oedd Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'r ymarfer cydgrynhoi. Oherwydd natur dechnegol iawn y Bil, gofynnodd i'w swyddogion esbonio'r dull a ddefnyddiwyd.[71]

---

[69] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 10 Hydref 2025, paragraff 1
[70] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 10 Hydref 2025, paragraff 2
[71] Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [55]

Dywedodd Dr James George, Uwch-gwnsler Deddfwriaethol yn Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol, ac arweinydd y tîm drafftio ar y Bil, wrthym:

> *"Obviously, in this particular case, the Law Commission's report has been an important part of the background to what we've been doing, but it's only part of it, so it has informed what we've done, but it's not been all that we've done.*
>
> *On all consolidation projects, we as legislative counsel start by considering the potential scope of a new consolidated Act, and trying to assess what can be brought together in it, and we discuss that with policy officials in the relevant area, and the lawyers who deal with that area, who use their experience to advise on what makes sense as a coherent piece of law. So, based on those discussions, we form a view on what is in, and then we, as the drafters, go through all the legislation that we've decided is in, looking at it from the drafting point of view of how we can bring it more in line with modern drafting practice, improve the structure, and consider whether there are things that we don't need any more or odd things that might need to be fixed, and so on. We look at whether there are any improvements that are needed, and are those going to be within the scope of consolidation.*
>
> *Sometimes that has involved further consultation with the Law Commission, as you heard from Professor Young. Policy officials obviously look at everything we do. The lawyers in the planning law team in the Welsh Government's legal services department look at everything, to make sure they're happy that we're not changing anything by accident. And we also, as the drafters, work very closely with the Welsh language terminologists and legislative translators to make sure that everything expresses the effect of the existing law as well as we can, in both languages. Obviously that's an iterative process that can affect both texts as those discussions go on."*[72]

[72] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [57] i [59]

**46.** Esboniodd Dion Thomas, Pennaeth Deddfwriaeth a Pherfformiad yng Nghyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru, ac arweinydd polisi ar gyfer y Bil, y broses o safbwynt polisi:

> *"… we get the questions through from the drafters around the legislation, and we will consider the questions that arise … A lot of the evidence, obviously, has come from the Law Commission report. That's a good basis, but then if there are areas during the drafting process that we, perhaps, aren't sure about, then we've taken the opportunity to check with relevant stakeholders on those.*
>
> *So, for example, internally, we will have discussed with various departments. … So, you've got PEDW, which is Planning and Environment Decisions Wales. They deal with the planning appeals for the Welsh Ministers. So, the appeal provisions we've been able to check with them. We've discussed with highway colleagues in relation to the highway provisions, where they undertake functions on behalf of the Welsh Ministers in that respect.*
>
> *And then, externally, we have also undertaken that exercise. In particular on the minerals and waste side of things, we've gone to local authority practitioners, to identify what we think and to see whether they agree with that approach."*[73]

**47.** Esboniodd Claire Fife, Pennaeth Swyddfa'r Codau Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru, a rheolwr rhaglen Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, y dull o baratoi'r dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Biliau:

> *"… it's a small group then that starts pulling together the explanatory notes or the tables of origins, destinations, and eventually it all comes together. But it's quite something to watch, really. I'm not a part of planning, but seeing this expertise come together and this checking constantly that we're holding tight to the Standing Orders, it's quite something.*

[73] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [62] i [64]

*And then, ultimately, we're ready then to take it to the Counsel General and make sure the Counsel General is content."*[74]

**48.** Ychwanegodd y Cwnsler Cyffredinol ei sylwadau:

*"And I suppose the colloquial thing is, you've got to check that you're not enshrining custom and practice that's grown up, but actually isn't based on the base law. … So, what this team is doing is checking that just because something is a custom and practice, it is actually in the law, based in the law, and that we're restating the law as it is. And the custom and practice might be something you want to do later, or actually it might not be something you want to do later. So, it's quite an iterative process of, 'Well, we do it like this, why do we do it like this?' You go back to the base material and so on. So, it's a very exhaustive and clever and intense process. I would not in any way pretend to have the level of knowledge that the people who have been involved in this legislation have, and will be invaluable to us going forward in terms of any reforms we want to do as well."*[75]

**49.** Er, yng nghyd-destun cydgrynhoi is-ddeddfwriaeth, rhoddodd Annabel Graham Paul air o rybudd am y risgiau o or-symleiddio deddfwriaeth, gan roi enghraifft:

*"… when the coalition Government created the national planning policy framework, which was a piece of policy that was intended to simplify all of the different planning practice guidances and planning policy statements that have been around for quite a long time and had got quite voluminous, but were quite well understood, they created this one policy document and said, 'Right, we have a one-stop shop, and it's all very simple'. And it did make changes as well; it wasn't just consolidation. But that NPPF has triggered a lot of litigation in the higher courts in terms of its interpretation. So, the danger can be that oversimplification creates scope for interpretation. So, I think that would be the only warning when you're dealing*

[74] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [65]
[75] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [66]

*with something like secondary legislation, where there's a lot going on there, that if we seek to make it too simple, you can almost open yourself up for different people to take different views and, potentially, courts to have to intervene in terms of interpretation. But if it can be consolidated so that it's not too stripped bare and is actually consolidated and made more accessible, then I'm sure that would be a positive thing in the same way as the Act."*[76]

**50.** Nododd hefyd:

*"… But there is, I suppose, a risk and scope that a court could say, 'Well, why did they change that? They must have meant something different.' So, that's the risk. But I think that, if you make it clear that it's to modernise and it's not intended to mean anything different, then you remove that or at least minimise that risk."*[77]

**51.** Mae Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru yn cydnabod ac yn ailadrodd y pwyntiau a godwyd gan Annabel Graham Paul mewn perthynas â'r risg o or-symleiddio wrth gydgrynhoi yr is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan y Biliau.[78]

**52.** Wrth ymateb i'r pwyntiau hyn, nododd y Cwnsler Cyffredinol fod rhywbeth a allai ymddangos yn syml fod yn fwy cymhleth, ac y gall fod ateb syml i bethau eraill a allai ymddangos yn gymhleth iawn, a gwahoddodd Dr James George i esbonio dull Llywodraeth Cymru yn hyn o beth.[79] Dywedodd:

*"Certainly, the issue you mentioned is definitely one that we have considered, that we've been quite anxious about all the way through the process. I think I would describe the approach we've taken as being positive, but careful. So, we've looked very carefully at the existing legislation to try and understand how things work. We've tried to identify cases where we could improve how it's presented, or if we've seen things that don't seem to be needed, we've considered whether we could just leave them out. But it has also been very much at the front of*

[76] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [201]
[77] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [203]
[78] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [50]
[79] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [68]

*our minds that this is a consolidation exercise and we're not trying to change the effect of the law. So, whenever we have changed any wording, we've thought very hard about whether that could make any difference to the legal effect. Obviously, because it's a consolidation Bill, we don't want to stray beyond what's allowed by the Standing Order, we don't want to make some inadvertent policy reforms or cause any problems, we don't want to reopen issues that have previously been settled and create risks that people might start arguing about them again.*

*So, I think I would say that the risk of new litigation is one of the reasons why we've been careful, but it's part of a bigger set of reasons that all point in that direction. And I would say the 'we' I'm talking about is all of us—the policy officials and the lawyers—".*[80]

## Goblygiadau ariannol

**53.** O dan Reol Sefydlog 26C.9(vii), rhaid i'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â Bil Cydgrynhoi gadarnhau nad yw darpariaethau'r Bil yn arwain at unrhyw wariant sylweddol ychwanegol sy'n daladwy o Gronfa Gyfunol Cymru, a phan fo hynny'n arwain at wariant ychwanegol, y dylai nodi'r amcangyfrifon gorau ar gyfer hyn.

**54.** Yn hyn o beth, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad yw darpariaethau'r Biliau yn arwain at wariant sylweddol ychwanegol sy'n daladwy o Gronfa Gyfunol Cymru, nac yn codi gwariant ar y Gronfa.[81]

**55.** Mae'n nodi, fodd bynnag, bod "costau pontio bach" yn gysylltiedig â rhoi'r Bil Cynllunio ar waith[82], os caiff ei ddeddfu, sy'n deillio'n bennaf o gostau cyfle amser a dreulir yn cynhyrchu canllawiau, diweddaru gwefannau a chynnal gweminarau a chyfarfodydd.[83] Rhagwelir y bydd y costau pontio hyn fel a ganlyn:

*"... oddeutu £74,100 i Lywodraeth Cymru, £45,300 i awdurdodau cynllunio, a £127,800 i ddiwydiannau preifat.*

[80] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [69] a [70]
[81] Memorandwm Esboniadol, paragraffau 58 a 59
[82] Memorandwm Esboniadol, paragraff 60
[83] Memorandwm Esboniadol, paragraff 63

> *Dyna gyfanswm o oddeutu £247,200 a fydd yn cael ei wasgaru ar draws y cyfnod gweithredu (2026-2027)."*[84]

**56.** Ar 29 Medi 2025, gofynnodd y Pwyllgor Cyllid am ragor o wybodaeth gan y Cwnsler Cyffredinol er mwyn cynorthwyo ei waith craffu ar oblygiadau ariannol y Biliau.[85] Ymatebodd y Cwnsler Cyffredinol ar 10 Hydref 2025[86], a nododd y Pwyllgor Cyllid yr ymateb yn ei gyfarfod ar 16 Hydref 2025[87].

**57.** Yn ei llythyr dyddiedig 10 Hydref 2025, nododd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

- y fethodoleg a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru i amcangyfrif y costau trosiannol sy'n gysylltiedig â rhoi'r Bil Cynllunio ar waith;
- esboniodd fod yr amcangyfrifon costau wedi'u llywio gan "waith ymgysylltu wedi'i dargedu a mewnwelediadau sector-benodol";
- datganodd ei bod yn hyderus bod yr amcangyfrifon costau a nodwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru yn "gadarn ac yn adlewyrchu'r defnydd disgwyliedig o adnoddau"; a
- nododd fod y manteision a'r arbedion disgwyliedig sy'n ymwneud â chydgrynhoi a chodeiddio'n fwy cyffredinol yn cael eu hystyried fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol i Fil Deddfwriaeth (Cymru)[88] (a ddaeth yn Ddeddf 2019 yn ddiweddarach).[89]

**58.** Dywedodd RTPI Cymru wrthym ei bod yn ymddangos bod amcangyfrif Llywodraeth Cymru yn y Memorandwm Esboniadol o'r amser sydd ei angen ar awdurdodau cynllunio i ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth yn danamcangyfrif, gan ddweud:

> *"... a lot of the work will come in some of the template documents—so, things like statutory consultation letters, site notices, press notices, decision notices, where the legislation sets out what they say. So, there'll be lots of references in those to the current legislation that have to be updated. ... However,*

[84] Memorandwm Esboniadol, paragraffau 60 i 81
[85] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Cwnsler Cyffredinol, 29 Medi 2025
[86] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 10 Hydref 2025
[87] Y Pwyllgor Cyllid, 16 Hydref 2025
[88] Bil Deddfwriaeth (Cymru), Memorandwm Esboniadol, a ddiwygiwyd ar ôl Cyfnod 2, Mehefin 2019, Rhan 4 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol
[89] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 10 Hydref 2025

*because they are largely on a statutory template, if guidance was provided once centrally, for example, by the Welsh Government … about exactly which sections need to be tweaked and where they’re mapped to … That will cut down the time.”*[90]

**59.** Nododd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru fod yr amcangyfrif mewn perthynas ag awdurdodau cynllunio yn briodol, ond ei fod yn debygol o fod yn danamcangyfrif. Aethant ymlaen i ddweud:

*“… it wouldn’t necessarily be a planning officer making changes. We would have IT requirements, supporters amending the websites, if there was an issue on there. We also may need to contact our database providers to change templates. These things can take time. … We think there probably have been a few documents that haven’t necessarily been considered, for example, tree preservation order letters, enforcement, appeal notices, templates for delegated officers, supplementary planning guidance, the LDP itself, potentially, and annual monitoring reports.”*[91]

**60.** Nododd RTPI Cymru hefyd, er y byddai gweminar tair awr ar gyfer awdurdodau cynllunio – fel yr awgrymwyd yn y Memorandwm Esboniadol – yn cael ei groesawu’n fawr, y byddai angen darpariaeth fwy helaeth.[92]

**61.** Bu Annabel Graham Paul yn pwyso a mesur yr amcangyfrifon a gafwyd yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer yr amser sydd ei angen i gwmnïau cyfreithiol preifat ymgyfarwyddo â’r Biliau[93], ar ôl eu deddfu:

*“… I think it’s a bit of a tricky one to estimate, because it obviously depends to what extent you want to familiarise yourself with the Bill. If you are a high-street firm that has an occasional planning case that passes your desk, but it’s not the mainstay of your practice and you need to know, broadly, what the Bill is about but would then go and seek more detailed advice on any particular matter, then I would say three hours probably sounds about right. I think, for somebody like myself*

[90] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [140]
[91] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [40]
[92] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [151]
[93] Memorandwm Esboniadol, paragraff 75

> *and our members, whose entire practice is in planning and environmental law, we would probably, hopefully, spend a little bit longer than that. But, ultimately, frankly, I think that's our problem rather than a problem for the Senedd, because you're there to create the legislation and we're there to respond to that. So, whilst I completely see that training costs for the Government and for planning authorities are very important, I think in terms of private firms, really, that's down to us to ensure that our continuing professional development is up to date."*[94]

**62.** Fodd bynnag, cododd Charles Felgate o Geldards LLP bryderon am gywirdeb yr amcangyfrifon hyn:

> *"I do agree with the published impact statements that there will be a direct cost associated with this Bill as lawyers will need to familiarise themselves with it in order correctly inform their work for their clients. This is anticipated to be undertaken as part of existing internal briefing and updates which would take a junior officer around 3 hours to prepare the briefing with support from the guidance to be published by the Welsh Government. However, it is not accurate to suggest that there are no ongoing costs beyond that and it is an oversimplification of a system that takes many years of experience to grapple with. By way of example I am very familiar with the TCPA and its taken almost 25 years of practice to know where to find things but I still have to look them up and finding things is not always quick. I will be almost constantly trying to find the equivalent of the old section in the Bill assuming it is enacted – and there are time costs associated with that. Generally speaking these will be handed on to clients, but that is not always the case. I do not suggest this is a reason not to proceed – but it is a reality that ought to be factored into any decision to proceed with the Bill."*[95]

**63.** Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan Charles Felgate, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

[94] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [192]
[95] PCB03 Charles Felgate, Geldards LLP, tudalen 4 [Saesneg yn unig]

> *"… when I was still a practising lawyer somebody changed all the civil procedure rules and all the terminology, and most of us spent a lot of time standing in courts, going, 'Disclosure, discovery, whatever it's called, you know, that thing where we exchange papers—what's it called now?' So, you just have to get used to it. When I started practising law most of it was in Latin. I don't remember anybody saying that as a result of it going into English we all had to take a year off to learn the new terminology. So, I'm not trying to minimise it: of course you have to do that, and of course it is extra work for people to cross-check that they've got the right reference to the right sub-clause or whatever it is. Of course they have to do that, but you would expect them to be able to pretty rapidly do that, given that the law itself hasn't changed."*[96]

**64.** Ychwanegodd hefyd:

> *"… some of them [private law firms] will see it as an opportunity, as part of continuing professional development. There are many private practice law firms—I worked for one myself—that make a fair amount of their income from teaching other lawyers how to adapt to changes in the law. … Some of these law firms will rapidly get themselves up to speed and then give seminars for other law firms and, indeed, for local authority practitioners and others on what the cross-references are, they'll produce charts of it …".*[97]

## Asesiadau effaith

**65.** Mae Rheol Sefydlog 26C.9(viii) yn ei gwneud yn ofynnol i Femorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â Bil Cydgrynhoi nodi effaith bosibl (os o gwbl) darpariaethau'r Bil ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr, yn unol ag adran 110A o Ddeddf 2006.

**66.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan y canlynol:

[96] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [223]
[97] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [229]

*“Mae effeithiau posibl y Biliau ar y system gyfiawnder wedi cael eu hystyried ac ystyrir na fydd fawr ddim effaith ar y system gyfiawnder, os o gwbl. Mae hyn oherwydd bod y darpariaethau presennol sy’n ymwneud â’r system gynllunio wedi cael eu hailddatgan heb fawr ddim newidiadau o ran eu heffaith a heb greu troseddau newydd. Lle mae newidiadau bach wedi cael eu gwneud, megis cael gwared ar yr opsiwn o garcharu am rai troseddau a newidiadau er mwyn cael dull gweithredu cyson ym mhob rhan o’r Bil Cynllunio neu i gyd-fynd ag arferion cyfredol, rydym o’r farn na fyddant yn cael fawr ddim effaith ar y system, os o gwbl. Oherwydd natur y Bil Darpariaethau Canlyniadol, ystyrir na fyddai fawr ddim effaith ar y system gyfiawnder, os o gwbl. Mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cytuno â’r asesiad na fydd y Biliau hyn yn cael fawr ddim effaith ar y system gyfiawnder, os o gwbl.*

*Yr unig beth y mae’r cydgrynhoi’n ei olygu yw, ar yr adegau prin hynny pryd y gall fod angen i’r rheini sy’n rhan o’r system gyfiawnder droi at y ddeddfwriaeth, y bydd angen iddynt edrych ar ddeddfwriaeth wahanol, sy’n golygu y bydd angen iddynt ymgyfarwyddo â hi. Unwaith y bydd hynny wedi’i wneud, bydd yr effaith yn gadarnhaol oherwydd (o safbwynt Cymru) bydd un Ddeddf fodern, ddwyieithog yn gymwys yng Nghymru; ac oherwydd (o safbwynt Lloegr) y bydd y gyfraith sy’n gymwys yn Lloegr yn llai cymhleth oherwydd y bydd darpariaethau yn y ddeddfwriaeth bresennol sy’n gymwys i Gymru yn unig yn cael eu dileu.”*[98]

**67.** Mae’r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi bod ystyriaeth wedi’i rhoi i “a yw cynnal asesiad effaith integredig o’r broses o gydgrynhoi cyfraith cynllunio yn ddymunol”, yng ngoleuni’r gwersi a ddysgwyd wrth i Lywodraeth Cymru gynnal yr asesiadau effaith hyn mewn perthynas â Deddf 2019, ei rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, a Deddf 2023. Fodd bynnag, mae’n nodi:

*“O ystyried y gwaith a fyddai’n cael ei ddyblygu a’r ffaith nad oes polisi newydd yn cael ei gyflwyno drwy’r broses gydgrynhoi, penderfynwyd na fyddai asesiad effaith integredig yn cael ei gynnal.*

[98] Memorandwm Esboniadol, paragraffau 86 a 87

> *Bwriedir defnyddio'r un dull i gydgrynhoi is-ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â chynllunio yn y dyfodol os bydd y Bil Cynllunio yn cael ei basio; fodd bynnag, os yw'r is-ddeddfwriaeth sy'n cefnogi cychwyn y Bil yn cynnwys polisi neu gynigion newydd, yna cynhelir asesiad effaith integredig o'r elfennau hynny."*[99]

**68.** Mewn tystiolaeth lafar, nododd y Cwnsler Cyffredinol yn yr un modd: oherwydd bod cyflwyno'r Biliau yn ymwneud â gwella hygyrchedd y gyfraith a'i hegluro, heb unrhyw bolisïau newydd ynghlwm, nad oedd Llywodraeth Cymru yn teimlo bod angen cynnal asesiad effaith integredig.[100]

## Ein barn ni

**69.** Nodwn y dystiolaeth a gafwyd gan y Cwnsler Cyffredinol mewn perthynas â materion cymhwysedd deddfwriaethol. Nodwn hefyd fod y Llywydd wedi datgan y byddai'r rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Biliau, ac eithrio adrannau 105 a 370 o'r Bil Cynllunio, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn ei barn hi.

**70.** Er mwyn i'r adrannau hyn fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol, nodwn fod y Cwnsler Cyffredinol yn hyderus y bydd cydsyniad gofynnol Llywodraeth y DU mewn perthynas ag adran 370 yn cael ei sicrhau mewn pryd ar gyfer Cydsyniad Brenhinol, ac y bydd yr ymgynghoriad gofynnol mewn perthynas ag adran 105 hefyd wedi'i gynnal erbyn hynny. Credwn y dylai'r Cwnsler Cyffredinol ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'r broses gydsynio hon a'r ymgynghoriad yn ystod dadl yr Ystyriaeth Gychwynnol.

**Argymhelliad 1.** Yn ystod y ddadl ar Ystyriaeth Gychwynnol y Biliau, dylai'r Cwnsler Cyffredinol ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cydsyniad a'r ymgynghoriad gofynnol sy'n angenrheidiol i ddod â'r Bil Cynllunio (Cymru) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**71.** Rydym hefyd yn nodi cadarnhad y Cwnsler Cyffredinol bod asesiad o ymgysylltiad y Biliau â hawliau dynol wedi'i gynnal, a'i bod yn fodlon bod darpariaethau'r Biliau yn cydymffurfio â hawliau dynol.

**72.** Er ein bod yn cydnabod bod y Biliau wedi'u cyflwyno fel Biliau Cydgrynhoi, ac felly na ddisgwylir iddynt wneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r gyfraith bresennol, byddai'n well gennym pe bai asesiad o ymgysylltiad y Biliau â hawliau

[99] Memorandwm Esboniadol, paragraffau 83 i 85
[100] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [46]

dynol fod wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol, yn unol ag arferion gorau. Rydym yn mynegi'r farn hon yn unol â datganiadau yr ydym wedi'u gwneud yn y gorffennol parthed Biliau eraill a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.[101]

**73.** Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a glywsom fod diffyg hygyrchedd y fframwaith deddfwriaethol presennol mewn perthynas â chynllunio yng Nghymru yn peri llawer o anawsterau i'r rhai sydd angen ymgysylltu â'r maes hwn o'r gyfraith. Rydym yn cydnabod yr effaith y mae cymhlethdod y gyfraith bresennol yn ei chael ar ymarferwyr ac – efallai'n bwysicach – ar aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno cymryd rhan yn y broses gynllunio.

**74.** Felly, rydym yn cydnabod y manteision y disgwylir i'r Biliau eu cyflwyno – pe baent yn cael eu pasio gan y Senedd – drwy wneud deddfwriaeth sylfaenol ar gynllunio yng Nghymru yn fwy hygyrch o lawer, a thrwy hefyd sicrhau bod llawer ohoni ar gael yn Gymraeg a Saesneg am y tro cyntaf. Nodwn hefyd, er bod y manteision hyn yn debygol o gael eu teimlo gan y rhai sy'n gweithio yn y system gynllunio, mae lle hefyd i fanteision gael eu gwireddu ar raddfa ehangach, drwy wella dealltwriaeth, didwylledd ac ymddiriedaeth yn y system hon.

**75.** Rydym yn croesawu dull Llywodraeth Cymru o gydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol. Rydym yn cydnabod y dull trefnus a diwyd a ddefnyddiodd i geisio gwella hygyrchedd y gyfraith, gan gadw at y lwfansau a ddarperir gan y Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Biliau Cydgrynhoi.

**76.** Hoffem hefyd gydnabod bod Comisiwn y Gyfraith wedi gwneud cyfraniad sylweddol drwy osod y sylfaen i'r cydgrynhoi hwn. Rydym yn cydnabod bod yr argymhellion a wnaeth yn ei adroddiad Cyfraith Cynllunio yng Nghymru wedi ystyried barn ystod o randdeiliaid, ac rydym yn cydnabod ymhellach ei gyfraniad mwy diweddar wrth wneud argymhellion pellach i'w hymgorffori yn y Bil Cynllunio.

**77.** Mewn perthynas â goblygiadau ariannol y Biliau, nodwn gadarnhad y Cwnsler Cyffredinol nad yw'r Biliau yn arwain at wariant sylweddol ychwanegol sy'n daladwy o Gronfa Gyfunol Cymru, nac yn codi gwariant ar y Gronfa. Nodwn hefyd farn y rhai a roddodd dystiolaeth i ni mewn perthynas â'r amcangyfrifon costau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

---

[101] Gweler, er enghraifft, paragraff 19 a chasgliad 1 o adroddiad Hydref 2025, sef Adroddiad ar Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru).

**78.** Yn ogystal, rydym yn nodi datganiad y Cwnsler Cyffredinol na fydd y Biliau yn cael unrhyw effaith, neu'n cael effaith fach yn unig, ar y system gyfiawnder. Nodwn hefyd gyfiawnhad y Cwnsler Cyffredinol dros beidio â chynnal asesiad effaith integredig mewn perthynas â'r Biliau.

# 3. A yw cwmpas y cydgrynhoi yn briodol?

Yn unol â Rheol Sefydlog 26C.17, mae ein hystyriaeth o'r Biliau wedi cynnwys asesu a ydym yn fodlon bod cwmpas y cydgrynhoi yn briodol.

## Gosod y cwmpas

**79.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi sylwebaeth ar ddull Llywodraeth Cymru o bennu cwmpas yr ymarfer cydgrynhoi:

> *"Mae cyfraith cynllunio gyffredinol yn ymwneud â llawer o feysydd gweithgaredd (os nad pob un), ond nid yw hynny'n golygu y dylai deddfwriaeth sy'n llywodraethu'r meysydd hynny fod yn destun cydgrynhoi cyfraith gynllunio. Wrth baratoi ar gyfer cydgrynhoi, canolbwyntiwyd yn bennaf ar y gyfraith gynllunio bresennol lle mae'r cyfundrefnau cynllunio a sefydlwyd gan y ddeddfwriaeth honno wedi'u cyfyngu i ddatblygu ar dir. Felly, er enghraifft, nid yw deddfwriaeth am weithgareddau yn y môr, fel Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn cael ei chydgrynhoi o dan y broses bresennol."*[102]

**80.** Mae hefyd yn nodi bod ystyriaeth wedi'i rhoi i farn Comisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad, Cyfraith Cynllunio yng Nghymru[103], a ddaeth i'r casgliad y dylai'r Bil Cynllunio gynnwys, cyn belled ag y bo modd, yr holl ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â'r canlynol:

- cynllunio a rheoli datblygiad (yn cynnwys gwaith sy'n effeithio ar adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth);
- darparu seilwaith a gwelliannau eraill;
- hysbysebu awyr agored, a gwaith ar goed sydd wedi'u diogelu;
- gwelliant ac adfywiad wedi'i arwain gan y sector cyhoeddus (cyn belled ag y bo wedi'i gynnwys ar hyn o bryd yn Neddf 1990); a

[102] Memorandwm Esboniadol, paragraff 41
[103] Memorandwm Esboniadol, paragraff 41

- darpariaethau atodol ac amrywiol.[104]

**81.** Gwnaeth Comisiwn y Gyfraith hefyd ystyried ond gwrthod y posibilrwydd o gynnwys darpariaethau statudol yn ymwneud â chefn gwlad a hawliau tramwy; prynu gorfodol ac iawndal; sylweddau peryglus; prosiectau seilwaith mawr; cymeradwyaeth o dan y Rheoliadau Adeiladu[105]; ac amryw o godau hunangynhwysol eraill.[106] Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ar y safbwynt hwn; fel y cyfryw, nid yw'r materion hyn wedi'u cynnwys yn ei ymarfer cydgrynhoi.[107]

**82.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu cyfiawnhad pam nad yw'r gyfraith sy'n ymwneud â rhai materion eraill wedi'u cynnwys yn y Bil Cynllunio, yn benodol: trwyddedau cwympo coed; tynnu gwrychoedd; sylweddau peryglus[108]; prynu gorfodol; seilwaith; asesiadau amgylcheddol; a safonau adeiladu a diogelwch.[109] Ystyrir rhai o'r materion hyn yn y bennod hon.

**83.** Ymhelaethodd yr Athro Alison Young, Comisiynydd y Gyfraith ar gyfer Cyfraith Gyhoeddus a'r Gyfraith yng Nghymru, ar farn Comisiwn y Gyfraith ar gwmpas yr ymarfer cydgrynhoi:

> *"… if you look at aspects of things like countryside, rights of way, felling and hedgerows, for example, you could see in some senses … that these could also be part of planning. So, should they be part of planning law as well? But there's also a very good argument to say that they're not necessarily looking at the same kinds of issues as planning law. So, when you're thinking about aspects of the countryside and rights of way, you're thinking of very different purposes of those particular pieces of legislation. You're thinking much more about the protection of the countryside, public access to private land and pedestrian rights of way. And whilst there might be aspects that you would also think about in planning, planning is much*

[104] Comisiwn y Gyfraith, Adroddiad Terfynol Cyfraith Cynllunio yng Nghymru, Tachwedd 2018, paragraff 2.27
[105] Rheoliadau Adeiladu 2010 (Rhif 2214)
[106] Comisiwn y Gyfraith, Adroddiad Terfynol Cyfraith Cynllunio yng Nghymru, Tachwedd 2018, paragraff 2.29
[107] Memorandwm Esboniadol, paragraff 43
[108] Mae paragraffau 3 i 5 o lythyr y Cwnsler Cyffredinol dyddiedig 10 Hydref 2025 at y Pwyllgor yn darparu rhagor o wybodaeth mewn perthynas â chydgrynhoi darpariaethau a gynhwysir yn *Neddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990* (p. 10).
[109] Memorandwm Esboniadol, paragraffau 44 i 55

*broader than that, and can include other kinds of issues as well. So, we felt that, rather than putting these in the planning code, there would be a better justification to think about whether they would be suited to a later, more specific code, looking at those aspects of countryside and the rights of way. …*

*One of the downsides, which I can understand, of not putting them into a planning code is you might think, 'Well, obviously I'd need to think about these aspects when I was planning as well.' So, one of the things you can do in those situations is what we call signposting. So, you have a code, but when you put that on the website, you can signpost to, 'If you're thinking about things to do with rights of way, this is where you can find the laws in those areas.' That helps to improve accessibility while also making sure that sufficiently similar subjects are kept separate."*[110]

**84.** Nododd hefyd:

*"… another problem is that, as you've already seen, the Planning (Wales) Bill is already quite large, so if you don't have some kind of element of cutting things off and putting them in possible future codes, you could end up with a code that then almost becomes unworkable because it's too big. So, we're constantly trying to make these choices to see how best to improve accessibility."*[111]

**85.** Mewn perthynas ag eithrio deddfwriaeth ar sylweddau peryglus o'r ymarfer cydgrynhoi, dywedodd RTPI Cymru fod cylch gwaith *Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990* yn ymestyn y tu hwnt i gynllunio defnydd tir, felly mae'n gwneud synnwyr i'w drin ar wahân.[112]

**86.** Dywedodd Annabel Graham Paul, yn cynrychioli Cymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd:

*"… you've got to stop somewhere. We can't have one Bill covering everything that we might ever need … With something*

[110] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 29 Medi 2025, Cofnod y Trafodion [230] i [232]
[111] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 29 Medi 2025, Cofnod y Trafodion [240]
[112] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [118]

> *like planning, which does take in, as you say, environmental matters, potentially other things in relation to rights of way, village greens and things like commons, there's always going to be a need to look to other pieces of legislation as well. I think the balance has been struck correctly in this case."*[113]

**87.** Dywedodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru wrthym eu bod yn credu bod y Bil Cynllunio yn cwmpasu'r ddeddfwriaeth gynllunio sylfaenol y mae angen iddo ei chwmpasu a'u bod yn hapus iawn gyda'r cynnwys.[114]

**88.** Dywedodd UKELA ei fod o'r farn bod cwmpas y Bil Cynllunio yn briodol[115], ac nad oedd wedi nodi unrhyw hepgoriadau amlwg mewn perthynas â'r darpariaethau sy'n cael eu cydgrynhoi.[116]

## Cynnwys ac eithrio deddfwriaeth

### Eithrio darpariaeth yn y Rheoliadau Cynefinoedd

**89.** Yn ei bapur ymgynghori, Cyfraith Cynllunio yng Nghymru, bu Comisiwn y Gyfraith yn ystyried a ellir cynnwys deddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelu cefn gwlad fel rhan o gydgrynhoi'r gyfraith cynllunio:

> *"Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â diogelu cefn gwlad, mynediad cyhoeddus i dir preifat, a hawliau tramwy cerddwyr wedi'i chynnwys yn yr un grŵp o Ddeddfau i raddau mawr …*
>
> *Gallai'r darpariaethau statudol amrywiol hyn fod yn briodol ar gyfer codeiddio cyn belled â'u bod yn berthnasol yng Nghymru. A gallai'r cod hwnnw sefyll ar ei ben ei hun, fel Cod Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (Cymru), neu gallai ffurfio rhan Bellach o'r Cod Cynllunio – er y byddai'r dull blaenorol yn ymddangos yn well, o ystyried y gorgyffwrdd gweddol gymedrol rhwng y ddau. Ond, yn y naill achos a'r llall, byddai'n rhaid iddynt dderbyn llawer o ystyriaeth bellach. Ac os yw Llywodraeth Cymru'n ystyried deddfwriaeth bellach mewn perthynas â materion*

[113] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [189]
[114] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [27]
[115] PCB09 UKELA, paragraff 7 [Saesneg yn unig]
[116] PCB09 UKELA, paragraff 8 [Saesneg yn unig]

*amgylcheddol, byddai'n ddoeth i godeiddio o'r fath ddilyn diwedd yr ymarfer hwnnw."*[117]

**90.** Yn y cyd-destun hwn, cyfeiriodd hefyd at ddeddfwriaeth mewn perthynas â diogelu rhywogaethau a chynefinoedd, a daeth i'r casgliad na ddylid cynnwys deddfwriaeth yn y maes hwn yn y Bil Cynllunio disgwyliedig "ar hyn o bryd":

> *"Mae llawer o'r gyfraith yma'n cysylltu gyda'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gwarchod bywyd gwyllt, y cafwyd adolygiad diweddar ohono gan Gomisiwn y Gyfraith. Yn ei dro, mae'r ddeddf yma'n cael ei dylanwadu'n gryf gan Gyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd sy'n ymwneud â diogelu rhywogaethau a chynefinoedd, sy'n debygol o gael ei adolygu ymhellach ar sail ymadawiad Prydain cyn hir â'r Undeb Ewropeaidd.*
>
> *Am yr holl resymau hyn, rydym yn argymell na ddylid cynnwys y maes yma o fewn y Cod Cynllunio ar hyn o bryd, ond y dylid ei gadw dan adolygiad a'i ystyried ar gyfer codeiddio maes o law – naill ai fel rhan bellach o'r Cod Cynllunio neu fel Cod Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar wahân."*[118]

**91.** Mae Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017[119] (y Rheoliadau Cynefinoedd) wedi trosi cyfarwyddebau'r UE ar gynefinoedd ac adar gwyllt i gyfraith ddomestig. Mae Rheoliad 41 o'r Rheoliadau Cynefinoedd yn nodi'r canlynol:

> *"(1) For the purposes of the relevant provisions[120], policies relating to the development and use of land or in respect of the conservation of the natural beauty and amenity of the land are to be taken to include policies encouraging the management of features of the landscape of the kinds described in paragraph (3). …*
>
> *(3) The features of the landscape referred to in paragraph (1) are those which, by virtue of their linear and continuous*

[117] Comisiwn y Gyfraith, Papur Ymgynghori Cyfraith Cynllunio yng Nghymru, Tachwedd 2017, paragraffau 3.101 a 3.102
[118] Comisiwn y Gyfraith, Papur Ymgynghori Cyfraith Cynllunio yng Nghymru, Tachwedd 2017, paragraffau 3.103 a 3.104
[119] Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (Rhif 1012)
[120] Mae Rheoliad 41(2) o'r Rheoliadau Cynefinoedd yn nodi bod "darpariaethau perthnasol" yn golygu adrannau 17(3) a 62(2)(b) o Ddeddf 2004 ac adrannau 12(3A), 31(3) a 36(3) o Ddeddf 1990.

*structure (such as rivers with their banks or the traditional systems of marking field boundaries) or their function as "stepping stones" (such as ponds or small woods), are essential for the migration, dispersal and genetic exchange of wild species.*

*(4) Where the Secretary of State considers it necessary, the Secretary of State must include in a national policy statement under Part 2 of the Planning Act 2008 (national policy statements) policy that encourages the management of features of the landscape of the kinds described in paragraph (3)."*

**92.** Dywedodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wrthym fod y ffaith bod y ddarpariaeth hon wedi'i hepgor o'r Bil Cynllunio yn golygu nad yw cwmpas y cydgrynhoi yn briodol.[121] Fel rhan o'i gyflwyniad, cyfeiriodd at safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Rheoliadau Cynefinoedd:

*"… Environmental impact assessments including Habitats Regulations was … considered as part of the work by the Law Commission on the scope of the Bill. It is … acknowledged that the environmental assessment regime applies to various other contexts not just ones under the Planning Bill, as such they are not included in the consolidation Bill."*[122]

**93.** Ym marn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn camddehongli arwyddocâd y Rheoliadau Cynefinoedd, gan eu cysylltu'n bennaf â gweithgarwch asesiad amgylcheddol. Aiff ymlaen i ddweud:

*"Of more fundamental importance is that Regulation 41 sets the scope of development planning policy specifically to include encouraging the management of features of the landscape which may therefore reasonably be expected to be included within the Development Plan in Wales (at all tiers). This is reinforced by the title of … [regulation 14] 'Nature conservation policy in planning contexts'."*[123]

---

[121] PCB07 Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, tudalen 4 [Saesneg yn unig]
[122] PCB07 Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, tudalen 5 [Saesneg yn unig]
[123] PCB07 Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, tudalen 4 [Saesneg yn unig]

**94.** Er mwyn llywio ein hystyriaeth, gwnaethom wahodd awdurdodau parciau cenedlaethol eraill i wneud sylwadau ar y pryderon a godwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.[124] Mewn ymateb i’r pryderon a godwyd mewn perthynas â’r Rheoliadau Cynefinoedd, dywedodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei fod yn deall y bydd y ddarpariaeth berthnasol yn y Rheoliadau Cynefinoedd yn parhau i fod yn gymwys fel mater i awdurdod cynllunio roi sylw iddo wrth baratoi ei gynllun datblygu lleol, yn unol ag adran 19 o’r Bil Cynllunio, ac nad oes “unrhyw ofyn am gyfeiriad penodol” yn y Bil. Fodd bynnag, dywedodd y byddai’n croesawu eglurder gan Lywodraeth Cymru ar y mater hwn.[125]

**95.** Gwnaethom ofyn i’r Cwnsler Cyffredinol esbonio rhesymeg Llywodraeth Cymru dros beidio â chynnwys y ddarpariaeth hon. Wrth ymateb, dywedodd:

> *“… in general, it is perfectly possible to make out that virtually every area of law relates to planning in some way. Most housing law relates to planning, most transport stuff relates to planning, so to some extent it has been a question of where are you drawing the edge. It’s a judgment call, isn’t it, where is the edge, and absolutely we have considered a number of things. The habitats regs is one of them, but there are others, actually, that could have been in or not in. And in the end, we’ve gone with the experts’ view on keeping this accessible, straightforward and simple as the primary aim, and then drawing the edges accordingly. But in all honesty, there’s very little you couldn’t say was part of planning law if you really wanted to push the boundaries.”*[126]

**96.** Esboniodd Dion Thomas, Pennaeth Deddfwriaeth a Pherfformiad yng Nghyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru, mewn perthynas â’r Rheoliadau Cynefinoedd:

> *“This is a provision about planning policies and encouragement of management of landscapes, but equally there are requirements around economic development, sustainable development, biodiversity. Going back to the point, we have to*

[124] Llythyr at Gadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, 21 Hydref 2025
[125] Llythyr gan Gadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, 10 Tachwedd 2025
[126] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [78]

*draw that line somewhere, and we think we've drawn the line quite sensibly in that respect.*

*I would note, I guess, that stakeholders have come forward to the committee to say that they generally agree that the scope is appropriate. I'd also note that the UK Environmental Law Association didn't raise this issue. But what they did put into their evidence was that they thought that it was very helpful to separate out the law, because with the consolidation of planning law being brought into one [correction: into one place] and made simpler and clearer, they can then look at the relationships between two pieces of legislation a lot clearer, to then have the debate about whether it's appropriate or not appropriate and should it be strengthened, et cetera."*[127]

## Cynnwys darpariaeth ar dir o dan falltod

**97.** Mae Rhan 13 o'r Bil Cynllunio yn gwneud darpariaeth ynglŷn â thir o dan falltod. Yn benodol, mae'n galluogi'r rhai y mae cynllunio neu gynigion eraill yn effeithio ar eu tir i fynnu bod yr awdurdod cynllunio yn ei brynu.

**98.** Mynegodd CLA Cymru, yng ngoleuni'r ffaith nad yw deddfwriaeth prynu gorfodol a seilwaith wedi'i chynnwys yn yr ymarfer cydgrynhoi, nad oedd o'r farn bod cynnwys darpariaeth ar hysbysiadau malltod statudol yn briodol:

*"The use of such notices is overwhelmingly in cases of compulsory purchase or procedures related to it such as safeguarding orders. These are not elements of the planning system as defined in the explanatory memorandum.*

*The only case which, arguably, falls into the planning system so defined is that identified in Schedule 19 Part 1 Paragraph 1 of the Planning (Wales) Bill*[128]*. However, such cases are extremely rare.*

---

[127] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [79] i [80]

[128] Mae paragraff 1 o Atodlen 19 yn nodi'r categori cyntaf o dir a all arwain at hawl i gyflwyno hysbysiad malltod, yn benodol, tir sydd wedi'i nodi gan gynllun datblygu lleol neu strategol (o dan Ran 2 o'r Bil) sydd yn y broses o gael ei archwilio neu sydd wedi ei fabwysiadu neu ei gymeradwyo; a thir sydd wedi'i nodi gan ddiwygiad i'r cyfryw gynllun sy'n cael ei archwilio neu sydd wedi ei fabwysiadu neu ei gymeradwyo.

> *It would make more sense to us to include blight notices in a separate piece of consolidating legislation relating to compulsory acquisition."*[129]

**99.** Yn llythyr y Cwnsler Cyffredinol dyddiedig 28 Hydref 2025, ymatebodd Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol i'r farn a fynegwyd gan CLA Cymru:

> *"Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylid cynnwys y darpariaethau malltod yn y Bil Cynllunio (argymhelliad 6-5), a derbyniodd y llywodraeth yr argymhelliad mewn egwyddor. Ystyriwyd y cwestiwn yn ofalus wrth baratoi'r Bil Cynllunio ac, at ei gilydd, daethpwyd i'r casgliad ei bod yn briodol ystyried y darpariaethau malltod fel rhan o gyfraith cynllunio a'u cynnwys yn y Bil. Er bod y darpariaethau'n berthnasol i bethau a wneir o dan amrywiol ddarnau eraill o ddeddfwriaeth, mae'r pethau hynny'n ymwneud â'r bwriad i ddatblygu tir, ac mae'r darpariaethau bob amser wedi'u cynnwys yn y Deddfau Cynllunio Gwlad a Thref.*
>
> *Byddai hepgor y darpariaethau malltod o'r Bil Cynllunio yn golygu eu gadael yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 nes y gellid eu cydgrynhoi mewn Bil arall. Felly byddai Deddf 1990 yn dal yn berthnasol i Gymru i ryw raddau, ond mae'r ymagwedd bresennol a ddefnyddir yn y Bil yn golygu na fydd yn berthnasol. Nid ydym o'r farn y byddai diwygio Deddf 1990 fel ei bod yn berthnasol i Loegr yn unig, ac eithrio'r Bennod am falltod a fyddai'n dal yn berthnasol i Gymru a Lloegr, yn help o ran hygyrchedd."*[130]

## Y posibilrwydd o gynnwys darpariaeth ym Mil Cynllunio a Seilwaith Llywodraeth y DU

**100.** Cyflwynwyd y Bil Cynllunio a Seilwaith yn Nhŷ'r Cyffredin ar 11 Mawrth 2025 (chwe mis cyn cyflwyno'r Biliau). Mae'n darparu ar gyfer: diwygiadau seilwaith; diwygiadau i'r system gynllunio, Corfforaethau Datblygu a'r broses prynu gorfodol a rheolau iawndal; ac yn diffinio dull strategol newydd o adfer natur mewn perthynas â datblygu.[131]

[129] PCB05 CLA Cymru, paragraffau 8 i 11 [Saesneg yn unig]
[130] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Hydref 2025, Atodiad, paragraffau 5 a 6
[131] Gweler tudalen we Senedd y DU ar gyfer y Bil Cynllunio a Seilwaith.

**101.** Rhwng mis Mawrth 2025 a mis Hydref 2025, gosododd Llywodraeth Cymru gyfres o femoranda cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r ddarpariaeth a wnaed yn y Bil Cynllunio a Seilwaith mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.[132] Fel Pwyllgor, gwnaethom osod pedwar adroddiad ar femoranda Llywodraeth Cymru[133], gyda'n hadroddiadau yn ystyried y ffaith nad oedd yr un o'r memoranda yn cyfeirio at effaith y Bil Cynllunio a Seilwaith ar yr ymarfer cydgrynhoi.[134]

**102.** Nid yw'r dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Biliau chwaith yn cyfeirio at y Bil Cynllunio a Seilwaith chwaith, fel y nodwyd gan Sara Hanrahan o Blake Morgan LLP.[135]

**103.** Mewn ymateb i'n hadroddiad cyntaf mewn perthynas â'r Bil Cynllunio a Seilwaith, nododd Llywodraeth Cymru na fyddai'r gwelliannau a wnaed gan y Bil hwnnw yn effeithio ar gynnwys y Bil Cynllunio, ac nad oedd yn rhagweld y bydd problem o ran amseroedd y Biliau.[136] Nododd ymhellach mewn ymateb i'n trydydd adroddiad, pe bai problem gydag amseriadau'r Biliau yn digwydd a bod angen gwelliannau i'r Bil Cynllunio neu'r Bil Darpariaethau Canlyniadol, roedd tair ffordd bosibl y gellid delio â hyn:

> *"… yn gyntaf, drwy ddefnyddio Cam Ystyriaeth Fanwl y Senedd y mae'r Pwyllgor Busnes wedi'i amserlennu'n ddiweddar; yn ail, gan Senedd y DU sy'n diwygio ei Bil; yn drydydd, defnyddio pŵer arfaethedig o fewn y Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) sy'n galluogi gwneud rheoliadau a fyddai'n caniatáu gwneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad â'r brif Ddeddf ac felly yn galluogi gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol o'r Bil Cynllunio a Seilwaith. Byddai'r defnydd o'r pŵer wrth gwrs yn amodol ar y Bil yn cael ei basio gan y Senedd."*[137]

---

[132] Gweler tudalen we Senedd Cymru, Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Cynllunio a Seilwaith.
[133] Gweler tudalen we Senedd Cymru, Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Cynllunio a Seilwaith.
[134] Gweler paragraffau 44 i 46, ac argymhelliad 4, o adroddiad Mai 2025 ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cynllunio a Seilwaith; paragraffau 39 i 40, ac argymhelliad 2, o adroddiad Gorffennaf 2025 ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil; a pharagraffau 35 i 40 o adroddiad Hydref 2025 ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil.
[135] PCB11 Sara Hanrahan, Blake Morgan LLP, tudalen 1 [Saesneg yn unig]
[136] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 9 Gorffennaf 2025, ymateb i argymhelliad 4
[137] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 3 Medi 2025, ymateb i argymhelliad 2

**104.** Gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol nodi'r berthynas rhwng y Biliau a'r Bil Cynllunio a Seilwaith. Dywedodd wrthym nad oedd Llywodraeth Cymru yn credu bod y rhyng-ddibyniaeth rhyngddynt yn broblem[138], ac esboniodd Dr James George, Uwch-gwnsler Deddfwriaethol yn Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol, pam y tybiwyd bod hynny'n wir:

> *"There are some references to the Planning and Infrastructure Bill in our Planning (Consequential Provisions) (Wales) Bill, because … in some cases we need to make an amendment to a particular provision, and they're also making an amendment to it, and what amendment each of us needs to make depends on who goes first. So, we sometimes have got alternative versions of amendments in our consequential provisions Bill, depending on whether their amendment has already been made or not. That's something we did on the basis of their Bill, as it stood, when we introduced ours. I know their Bill has since had further amending stages—I think there's one that's concluding today. So, assuming that that Bill is passed, when we see the final text of it, we will need to assess what changes are needed. So, we may need to change some of the cross-references …".*[139]

**105.** Dywedodd Dr George ymhellach fod y tebygolrwydd o gyflwyno gwelliannau i'r Bil Cynllunio i'w hystyried yng ngham Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor yn dibynnu ar a yw Tŷ'r Cyffredin yn derbyn gwelliannau Tŷ'r Arglwyddi i'r Bil, ac yna bydd yn dibynnu ar yr amseriad. Fodd bynnag, dywedodd fod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn deall y dylai'r Bil Cynllunio a Seilwaith gwblhau ei daith mewn pryd er mwyn cyflwyno gwelliannau yn ystod y cyfnod hwnnw.[140]

## Ein barn ni

**106.** Nodwn y dystiolaeth a ddaeth i law gan y Cwnsler Cyffredinol, ei swyddogion a rhanddeiliaid mewn perthynas â chwmpas y cydgrynhoi. Yn benodol, nodwn y rhesymau a ddarparwyd gan Gomisiwn y Gyfraith a'r Cwnsler Cyffredinol yn

[138] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [84]
[139] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [86]
[140] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [92]

esbonio pam na ddylai rhai meysydd o'r gyfraith gael eu cynnwys yn yr ymarfer cydgrynhoi.

**Casgliad 1.** Rydym yn fodlon bod cwmpas y cydgrynhoi yn briodol.

**107.** Nodwn y sylwadau a wnaed gan rai rhanddeiliaid mewn perthynas â chynnwys, ac eithrio, darpariaethau penodol o fewn y gwaith cydgrynhoi, er enghraifft, cynnwys darpariaeth ar dir o dan falltod yn y Bil Cynllunio, ac eithrio darpariaeth a gynhwysir yn y Rheoliadau Cynefinoedd.

**108.** Yn yr un modd, nodwn y rhesymau a ddarparwyd gan y Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion yn esbonio'r dull a ddefnyddiwyd i gynnwys ac eithrio darpariaeth o'r fath, ac rydym yn fodlon.

**Casgliad 2.** Rydym yn fodlon bod y deddfiadau perthnasol wedi'u cynnwys yn y cydgrynhoi.

**109.** Nodwn dystiolaeth y Cwnsler Cyffredinol mewn perthynas â'r rhyngweithio rhwng y Biliau a Bil Cynllunio a Seilwaith Llywodraeth y DU, a nodwn, ar adeg cytuno ar yr adroddiad hwn, nad oedd Bil Llywodraeth y DU wedi'i basio eto. Credwn y dylai'r Senedd gael eglurder cyn gynted â phosibl ynghylch effaith y Bil Cynllunio a Seilwaith ar y Biliau.

**Argymhelliad 2.** Yn ystod y ddadl ar Ystyriaeth Gychwynnol y Biliau, dylai'r Cwnsler Cyffredinol ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw welliannau y bydd angen eu gwneud i'r Bil Cynllunio (Cymru) neu'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) o ganlyniad i Fil Cynllunio a Seilwaith Llywodraeth y DU, pe bai'r Biliau'n mynd ymlaen i gyfnod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor.

# 4. A yw'r Biliau yn cydgrynhoi deddfwriaeth yn gywir, neu'n newid ei heffaith gyfreithiol yn sylweddol, i'r graddau a ganiateir gan Reol Sefydlog 26C.2 yn unig?

Yn unol â Rheol Sefydlog 26C.17, mae ein hystyriaeth o'r Biliau wedi cynnwys asesiad o a ydynt yn cydgrynhoi deddfwriaeth bresennol yn gywir, neu'n newid ei heffaith gyfreithiol o ran sylwedd, i'r graddau a ganiateir gan Reol Sefydlog 26C.2 yn unig.

**110.** Mae Rheol Sefydlog 26C.2 yn darparu y gall Bil Cydgrynhoi:

(i) ailddatgan deddfwriaeth bresennol ag unrhyw newidiadau o ran strwythur, iaith neu fformat sy'n briodol at ddibenion gwella cyflwyniad y gyfraith a sicrhau cysondeb â'r arfer drafftio cyfredol;

(ii) egluro effaith y gyfraith bresennol neu sut i'w chymhwyso;

(iii) dileu neu hepgor darpariaethau anarferedig, darfodedig neu rai nad ydynt yn ymarferol ddefnyddiol neu'n ymarferol effeithiol bellach;

(iv) gwneud mân newidiadau i'r gyfraith bresennol at ddibenion sicrhau bod y gwaith o gydgrynhoi'r gyfraith yn foddhaol;

(v) gwneud newidiadau eraill i'r gyfraith y mae Comisiwn y Gyfraith yn argymell y byddai'n briodol eu cynnwys mewn Bil Cydgrynhoi;

(vi) cynnwys darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed priodol, diwygiadau canlyniadol a diddymu darnau o ddeddfwriaeth bresennol (gan gynnwys diwygiadau i sicrhau bod y ddeddfwriaeth bresennol yn parhau i weithredu'n gywir mewn perthynas â Lloegr).

## Newidiadau i strwythur, iaith neu fformat y gyfraith bresennol

### Newidiadau i fformat y gyfraith bresennol

**111.** Nododd Annabel Graham Paul, sy'n cynrychioli Cymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd, fod drafftio'r Bil Cynllunio wedi rhoi eglurder, er enghraifft, drwy gyflwyno tabl yn adran 113 o'r Bil ar y terfynau amser ar gyfer cymryd camau gorfodi mewn perthynas ag achosion o dorri rheolaethau cynllunio.[141]

### Newidiadau i derminoleg

**112.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, wrth gydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol:

> *"… gwnaed pob ymdrech i fynegi cysyniadau cyfreithiol mewn iaith sy'n ddealladwy ac yn hygyrch, ac sy'n adlewyrchu'r arferion cyfredol – o ran drafftio ac o ran gweithredu'r gyfraith. Mae'r dasg honno wedi bod yn gryn her ar adegau ac aed ati i ddisodli rhai termau a oedd wedi bod yn cael eu defnyddio ers amser hir."*[142]

**113.** Mae Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil Cynllunio yn nodi:

> *"Mae'r Bil yn defnyddio llawer o'r un termau â'r ddeddfwriaeth y mae'n ei chydgrynhoi, ac yn benodol mae'n parhau i gyfeirio at gynlluniau datblygu lleol a chaniatâd cynllunio. Fodd bynnag, mae'n rhoi termau newydd yn lle rhai termau arwyddocaol a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth bresennol … Nid yw'r newidiadau hyn yn cael unrhyw effaith o sylwedd a'r bwriad yw sicrhau bod y derminoleg yn fwy cywir neu ddefnyddiol."*[143]

**114.** Mae tabl sy'n rhestru'r prif newidiadau i derminoleg a adlewyrchir yn y Bil Cynllunio hefyd wedi'i gynnwys yn Nodiadau'r Drafftwyr[144] ac, mewn gohebiaeth i'r Pwyllgor, roedd y Cwnsler Cyffredinol wedi cynnwys tabl yn nodi'r sail resymegol dros y newidiadau a wnaed a'r rheswm pam yr ystyrir eu bod yn helpu i wella

---

[141] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [165]
[142] Memorandwm Esboniadol, paragraff 23
[143] Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil Cynllunio, paragraff 27
[144] Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil Cynllunio, paragraff 27

hygyrchedd, a manylion unrhyw ymgynghoriad a gynhaliwyd mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig.[145]

**115.** Nododd gohebiaeth y Cwnsler Cyffredinol at y Pwyllgor hefyd, pan gyhoeddwyd drafft o'r Bil ym mis Mehefin 2025, fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfen yn amlinellu nifer o'r newidiadau arfaethedig i derminoleg, a dwyn y ddogfen i sylw rhanddeiliaid. Cadarnhaodd na chodwyd unrhyw gwestiynau na phryderon gan randdeiliaid ynghylch y newidiadau a awgrymwyd i derminoleg.[146]

**116.** Dywedodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru wrthym eu bod yn croesawu'r derminoleg well a gyflwynwyd gan y Bil Cynllunio, megis disodli'r term "hysbysiad tramgwydd cynllunio" gyda "hysbysiad ymchwilio am orfodi".[147]

**117.** Yn yr un modd, roedd Charles Felgate o Geldards LLP yn cefnogi'r newid yn y derminoleg i "hysbysiad ymchwiliad am orfodi" gan deimlo ei fod yn ddisgrifiad llai beirniadol mewn proses sy'n cael ei chynnal fel arfer ar gam cynnar unrhyw ymchwiliad gorfodi a chyn i unrhyw benderfyniadau terfynol gael eu gwneud.[148]

**118.** Dywedodd CLA Cymru, ar y llaw arall, fod y newidiadau arfaethedig i derminoleg o fewn y Bil Cynllunio yn tanseilio yn hytrach na chefnogi'r amcan o wella hygyrchedd cyfraith cynllunio.[149] Nodwyd y dylid cynnal termau allweddol a oedd wedi hen ennill eu tir[150], yn unol â'r rhai a ddefnyddir yn Lloegr, ac y gallai defnyddio gwahanol ymadroddion ar gyfer yr un cysyniad yn y ddwy wlad arwain at ddryswch, heb unrhyw fantais amlwg[151]. Nododd hefyd:

> *"It is absolutely in the national interest to make the planning system in general easier to understand for the lay person. Despite this, there will always be precise legal terms which will be used primarily by experts, even if these terms are made to resemble plain language. The Bills should consider these legal terms mainly with experts rather than the public in mind."*[152]

---

[145] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 10 Hydref 2025, Atodiad 2
[146] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 10 Hydref 2025, paragraff 20
[147] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [7]
[148] PCB03 Charles Felgate, Geldards LLP, tudalen 2 [Saesneg yn unig]
[149] PCB05 CLA Cymru, paragraff 15 [Saesneg yn unig]
[150] PCB05 CLA Cymru, paragraff 18 [Saesneg yn unig]
[151] PCB05 CLA Cymru, paragraff 17 [Saesneg yn unig]
[152] PCB05 CLA Cymru, paragraff 19 [Saesneg yn unig]

**Yn Saesneg, disodli'r term "material considerations" gyda "relevant considerations"**

**119.** Mae'r Bil Cynllunio yn disodli'r term "material considerations" mewn deddfwriaeth bresennol gyda "relevant considerations".[153] Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y term "relevant considerations" yn "derm haws ei ddeall a chaiff yr un effaith gyfreithiol" â "material considerations".[154]

**120.** Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil Cynllunio yn cyfeirio at benderfyniadau a wnaed gan y Goruchaf Lys bod y ddau derm yn gyfystyr:

> *"… gweler penderfyniad y Goruchaf Lys yn R (Health & Safety Executive) v Wolverhampton CC [2012] UKSC 34 yn [26]. Ystyriodd y llys hwnnw ystyr y term yn fwy diweddar, yn R (Wright) v Resilient Energy Severndale Ltd and Forest of Dean District Council [2019] UKSC 53, gan ddal bod rhaid i ystyriaethau ateb diben cynllunio (sef, un sy'n ymwneud â chymeriad y defnydd o'r tir) a rhaid iddo ymwneud yn deg ac yn rhesymol â'r datblygiad a gynigir."*[155]

**121.** Mewn gohebiaeth i'r Pwyllgor, cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol fod y newid hwn yn gweithredu argymhelliad a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad, Cyfraith Cynllunio yng Nghymru.[156] Nododd Comisiwn y Gyfraith y canlynol yn ei adroddiad:

> *"… nid ydym wedi ein darbwyllo bod y term 'material considerations' yn cael ei ddeall yn dda. Mae'n ddigon posibl bod y rhai, megis awdurdodau cynllunio, ymgynghorwyr cynllunio a chyfreithwyr, sydd wedi gweithredu'r system gynllunio dros flynyddoedd lawer, yn ei ddeall. Ond bydd eraill – newydd-ddyfodiaid, grwpiau trydydd sector a pherchenogion tir unigol – y bydd y termau technegol a ddefnyddir yn anghyfarwydd iddynt. Er na fydd modd osgoi rhai, dylid lleihau*

[153] Er enghraifft, mae adran 70(2) o Ddeddf 1990 yn darparu, wrth benderfynu ar gais am ganiatâd cynllunio, y bydd awdurdod cynllunio lleol yn rhoi sylw i: ystyriaethau penodol, "so far as material to the application"; ac "any other material considerations." Mae ailddatganiad y ddarpariaeth hon o fewn adran 66(1) o'r Bil Cynllunio yn darparu, wrth benderfynu ar gais am ganiatâd cynllunio, bod yn rhaid i awdurdod cynllunio "have regard to the development plan for its area and any other relevant considerations", a "make its decision in accordance with the development plan unless other relevant considerations indicate otherwise".
[154] Memorandwm Esboniadol, paragraff 23
[155] Nodiadau Esboniadol i'r Bil Cynllunio, paragraff 260
[156] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 10 Hydref 2025, Atodiad 2

*nifer y termau o'r fath i'r eithaf. Credwn o hyd bod yr ymadroddion 'development plan, so far as relevant' ac 'other relevant considerations' yn debygol o gael eu deall yn fwy cyffredinol ymhlith defnyddwyr y system gynllunio yn gyffredinol. A gall canllawiau bwysleisio bod y term 'relevant' yn Saesneg yn y cyd-destun hwn, yn cyfateb i'r un hen derm 'material'."*[157]

**122.** Cyfeiriodd adroddiad Comisiwn y Gyfraith hefyd at farn Keith Bush CB, a dynnodd sylw at y ffaith bod y gair "relevant" yn haws i'w gyfleu yn ddwyieithog, gan fod "perthnasol" yn cyfleu'r un ystyr â "relevant" yn Saesneg.[158]

**123.** Nododd y Cwnsler Cyffredinol mewn gohebiaeth:

*"… rydym ni o'r farn nad yw defnyddio 'relevant considerations' yn golygu newid y gyfraith o gwbl. Dylai hynny fod yn glir, oherwydd mae'r newid o ran term yn adlewyrchu'r ffordd mae'r gyfraith bresennol wedi cael ei dehongli gan y llysoedd. Os daw'r Bil yn ddeddf, gall canllawiau a fydd yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru … ynghyd â diweddariadau i'r canllawiau presennol er mwyn adlewyrchu'r Bil, esbonio'r pwynt hwn hefyd.*

*Yn ogystal â chael ei ddefnyddio yn y Bil Cynllunio (Cymru), mae'r ymadrodd 'relevant considerations' eisoes wedi cael ei ddefnyddio yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ac yn Neddf Seilwaith (Cymru) 2024. Ni chodwyd unrhyw bryderon ynghylch hynny, ac rydym ni o'r farn ei bod yn fanteisiol cadw cysondeb rhwng y darnau cysylltiedig hyn o ddeddfwriaeth."*[159]

**124.** Dywedodd RTPI Cymru wrthym nad oedd y mater terminoleg hwn o reidrwydd yn broblem y mae angen ei datrys, ond:

*"… we've certainly got no objection to the proposed change, although we would ask that the explanatory note that states that 'relevant' has the same meaning as 'material' be added to the Act to make that clear. So, perhaps, in the definitions … it*

[157] Comisiwn y Gyfraith, Adroddiad Terfynol Cyfraith Cynllunio yng Nghymru, Tachwedd 2018, paragraff 5.68
[158] Comisiwn y Gyfraith, Adroddiad Terfynol Cyfraith Cynllunio yng Nghymru, Tachwedd 2018, paragraff 5.61
[159] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Hydref 2025, pwynt 1

> *could be included there, just to make that bullet-proof, if you like."*[160]

**125.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd ei bod yn niwtral ynghylch pa mor ddymunol yw gwneud hyn yn newid, a dywedodd y bydd barn unigolion ar y mater o fewn ei sefydliad yn amrywio.[161] Er enghraifft, mewn tystiolaeth lafar, cododd cynrychiolydd y gymdeithas, Annabel Graham Paul, y materion canlynol mewn perthynas â chyflwyno'r term "relevant considerations":

> *"Does that necessarily mean the same thing? If it does, make absolutely clear it does mean the same thing. So, there could be an element of doubt over something like that, but hopefully it can be made sufficiently clear that it is intended to mean the same thing.*
>
> *… I don't think [the change] it's needed. I think we all know what material considerations are and I don't think that that word 'material' is particularly problematic. But I think that sort of thing is the only thing where I would query whether there is a risk in terms of consolidation and whether you're moving into change rather than simply consolidating."*[162]

**126.** Mynegodd Charles Felgate o Geldards LLP ei farn y byddai'r newid yn cyflawni'n gwbl groes i'r bwriad ac yn gwneud y gyfraith yn llai hygyrch, gan ddweud:

> *"I doubt this will achieve the simplification that is intended. I can appreciate that it may be a more accurate and accessible description intended to mean the same thing. However I have concerns that non-technical people will be able to access the whole body of case law that exists on material considerations without very technical knowledge that the two things are one and the same."*[163]

**127.** Mynegodd CLA Cymru farn debyg:

---

[160] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [126]
[161] PCB10 Cymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd [Saesneg yn unig]
[162] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [167] a [168]
[163] PCB03 Charles Felgate, Geldards LLP, tudalen 2 [Saesneg yn unig]

> *"We agree that the phrase 'material consideration' would not carry any clear meaning to the lay person, but we disagree that the phrase 'relevant consideration' is better. We do not consider that there is an alternative phrase which would make the concept of a material consideration clear to someone who is not already familiar with the planning system. This is because a 'material consideration' is a technical concept which requires some working knowledge of the planning system regardless of what it is called."*[164]

**128.** Er nad oeddent o reidrwydd yn gwrthwynebu'r newid arfaethedig hwn[165], dywedodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru wrthym nad oeddent yn credu bod angen newid y cyfeiriad yn arbennig. Esboniodd:

> *"We're obviously working with community councils, with county councillors and the general public, and we've spent many years explaining what a 'material consideration' is, and we're a little bit concerned that we're going to have to spend a lot of time explaining what a 'relevant consideration' is, and that perhaps that's not a necessary change."*[166]

**129.** Cododd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru bryderon tebyg i'r rhai a godwyd gan Annabel Graham Paul mewn perthynas â materion posibl yn y dyfodol, yn enwedig ynghylch dadleuon cyfreithiol.[167]

**130.** Serch hynny, nodwyd ganddynt fod y dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Biliau yn cyflwyno dadl ddilys o blaid gwneud y newid hwn mewn terminoleg:

> *"… in terms of the fact that the translation of the term would be easier, because 'material' means different things in different parts of the legislation. So, you've got a material change of use, meaning significant change of use, in my view. Then you've got material considerations, which they're arguing means relevant considerations. And when you look at the bilingual translation of those, it would be simpler to have them separated out."*[168]

---

[164] PCB05 CLA Cymru, paragraff 16 [Saesneg yn unig]
[165] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [33] a [34]
[166] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [20]
[167] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [34]
[168] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [34]

**131.** Mewn tystiolaeth lafar, cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r newid hwn mewn terminoleg:

> *"… it's just an easier phrase to understand. We've used it in other legislation. We think it's as comprehensive as 'material considerations'. We think that's a less accessible phrase. Other views will exist. But, for example, I took the infrastructure Bill through and that used 'relevant considerations' as the terminology."*[169]

**132.** Ychwanegodd Dr James George, Uwch-gwnsler Deddfwriaethol yn Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol:

> *"… obviously we do think 'material' and 'relevant' mean exactly the same thing, but also that has been confirmed by the highest court. The Supreme Court has made decisions where it says, 'What's material? Well, it's just what's relevant'."*[170]

## Newidiadau at ddiben egluro cymhwysiad neu effaith cyfraith bresennol

### Ymgorffori cyfraith gyffredin

**133.** Yn unol â Rheol Sefydlog 26C.1, gellir cynnwys cyfraith gyffredin (a ddisgrifir hefyd fel cyfraith achosion) mewn ymarfer cydgrynhoi. Mae canllawiau'r Llywydd ar Filiau Cydgrynhoi yn nodi y gallai fod yn briodol ymgorffori cyfraith achosion sy'n effeithio ar weithrediad deddfwriaeth bresennol, er enghraifft, drwy egluro ei hystyr neu drwy ehangu neu gyfyngu ar ei heffaith mewn ffordd nad yw'n cael ei nodi ar ei hwyneb.[171]

**134.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym mewn gohebiaeth, mewn perthynas â'r Biliau:

> *"… lle mae cyfraith achosion sefydlog sy'n effeithio ar weithrediad deddfwriaeth o fewn cwmpas yr ymarfer cydgrynhoi, rydym wedi ceisio ymgorffori ei heffaith. Mae gwneud hynny yn sicrhau bod y darpariaethau yn fwy hygyrch*

---

[169] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [97]
[170] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [104]
[171] Canllawiau'r Llywydd i gefnogi gweithrediad Rheol Sefydlog 26C, Hydref 2021, paragraff 7

*ac yn darparu ailddatganiad mwy cyflawn. Dymunoldeb sicrhau bod y gyfraith mor hygyrch a chyflawn â phosibl sydd wedi achosi inni ymgorffori'r gyfraith achosion benodol hon, ac nid awydd i ymgorffori rheolau cyfraith gyffredin ynddo'i hun."*[172]

**135.** Mae'r tabl tarddiadau a Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil Cynllunio yn nodi darpariaethau'r Bil sy'n ymgorffori effaith cyfraith achosion, ac, mewn gohebiaeth, darparodd y Cwnsler Cyffredinol grynodeb o'r gyfraith achosion sydd wedi'i hymgorffori yn y Bil.[173]

## Adran 319 – Yr hawl i ddigolledIad am effeithiau penderfyniadau a gorchmynion cynllunio penodol

**136.** Mae adran 319 o'r Bil Cynllunio, sy'n tarddu o adran 279 o Ddeddf 1990, yn darparu bod gan ymgymerwr statudol yr hawl i ddigolledIad gan awdurdod cynllunio mewn perthynas â phenderfyniadau penodol a wneir i wrthod caniatâd cynllunio.

**137.** Yn ei ailddatganiad o adran 279(7) o Ddeddf 1990, mae is-adran (5)(b) o adran 319 o'r Bil yn ychwanegu darpariaeth bod yn rhaid anwybyddu unrhyw amod gorfodol sy'n ymwneud â hyd caniatadau mwynau. Yn ôl Nodiadau'r Drafftwyr, rhaid anwybyddu hyn yn yr un modd ag amodau sy'n ymwneud â phryd y mae'n rhaid dechrau datblygiad neu gymeradwyo materion a gedwir yn ôl. Maent hefyd yn nodi bod y newid "yn llenwi bwlch ac yn sicrhau cysondeb â'r ddarpariaeth gyfatebol mewn perthynas â hysbysiadau prynu yn adran 110(4)" o'r Bil, ac yn nodi bod y newid yn cael ei wneud yn unol â Rheol Sefydlog 26C.2(ii).[174]

**138.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym fod y cyfeiriad at Reol Sefydlog 26C.2(ii) mewn perthynas â'r newid hwn yn "gamgymeriad"[175] ac yn ôl Dr James George, gan fod ychwanegu'r ddarpariaeth hon yn newid bach i'r gyfraith bresennol at ddiben cyflawni cydgrynhoi boddhaol, y dylai'r cyfeiriad yn hytrach fod at Reol Sefydlog 26C.2(iv).[176] Cadarnhaodd hefyd, gyda chaniatâd y Cwnsler

[172] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 10 Hydref 2025, paragraff 8
[173] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 10 Hydref 2025, Atodiad 1
[174] Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil Cynllunio, tudalen 122
[175] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [111]
[176] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [114]

Cyffredinol, y byddai’r camgymeriad hwn yn cael ei gywiro pan fydd Nodiadau’r Drafftwyr yn cael eu hailosod.[177]

### Adran 408 – Dehongli

**139.** Mae adran 408 o’r Bil Cynllunio yn cynnwys diffiniadau ar gyfer termau a ddefnyddir yn y Bil, ac mae’n cynnwys croesgyfeiriadau at ddiffiniadau sydd wedi’u cynnwys mewn mannau eraill yn y Bil.

**140.** Mae is-adran (3) o adran 408 yn ailddatgan adran 70(2)(aa) o Ddeddf 1990, ond mae hefyd yn cynnwys darpariaeth bod dyletswydd i roi sylw i’r cynllun datblygu ac ystyriaethau perthnasol eraill yn ei gwneud yn ofynnol i berson roi sylw i bolisïau cynllunio cenedlaethol ac ystyriaethau sy’n ymwneud â defnyddio’r Gymraeg, i’r graddau y maent yn berthnasol. Mae Nodiadau’r Drafftwyr yn nodi bod y newid hwn yn rhoi effaith i argymhellion 5-5 a 5-6 yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith, Cyfraith Cynllunio yng Nghymru, ac yn:

> *“Egluro y caiff materion iaith Gymraeg fod yn berthnasol ym mhob achos pan fo dyletswydd o’r fath yn gymwys (tra na fo adran 70(2)(aa) o Ddeddf 1990 wedi ei mynegi ar hyn o bryd ond i fod yn gymwys wrth benderfynu ceisiadau cynllunio), ac y caiff polisïau cynllunio cenedlaethol fod yn ystyriaeth berthnasol.”*[178]

**141.** Yn ogystal, mae’r Nodiadau Esboniadol i’r Bil yn nodi y byddai’r polisïau cenedlaethol y cyfeirir atynt yn is-adran (3) yn cynnwys Polisi Cynllunio Cymru (PPW) a’r gyfres o nodiadau cyngor technegol (TANs) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.[179]

**142.** Mewn perthynas â’r newid hwn, a’r esboniad a ddarperir yn y Nodiadau Esboniadol, dywedodd Charles Felgate o Geldards LLP wrthym:

> *“That change resolves some confusion about what status PPW and TANs actually have in law. I support the way in which this is done so as not to determine, statutorily, what weight should be given to them. My concern with the change however is its location – it is buried deep within the interpretation section of*

[177] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [114]
[178] Nodiadau’r Drafftwyr ar gyfer y Bil Cynllunio, tudalennau 156 a 157
[179] Nodiadau Esboniadol i’r Bil Cynllunio, paragraff 1801

> *the Bill, and would be far more accessible if it were moved into the main body of the provisions that deal with matters to be taken into account in determining planning applications, such as the current s66(1). It needs to be made clear that 'having regard' to PPW and TANs is a statutory requirement."*[180]

**143.** Yn llythyr y Cwnsler Cyffredinol dyddiedig 28 Hydref 2025, aeth Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol i'r afael â'r mater hwn:

> *"… fel yr esbonnir yn Nodiadau'r Drafftwyr, mae adran 408(3) yn berthnasol i holl ddarpariaethau'r Bil sy'n gosod dyletswydd i roi sylw i'r cynllun datblygu ac "unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill", nid dim ond y rheini sy'n ymwneud â cheisiadau. Hefyd, mae adran 408(3) yn pennu y tu hwnt i amheuaeth y gallai polisïau cynllunio cenedlaethol ac ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg fod yn ystyriaethau perthnasol, felly rydym ni o'r farn ei bod yn briodol ei chynnwys yn yr adran ddehongli."*[181]

## Atodlen 5 – Amod sy'n cyfyngu ar hyd caniatâd mwynau

**144.** Mae Atodlen 5 o'r Bil Cynllunio, sy'n tarddu o Atodlen 5 ac adran 336 o Ddeddf 1990, yn darparu ar gyfer amodau ynghylch hyd caniatadau mwynau.[182]

**145.** Yn ei ailddatganiad o baragraff 1(4) o Atodlen 5 i Ddeddf 1990, mae paragraff 1(4) o Atodlen 5 i'r Bil Cynllunio yn ychwanegu geiriad sy'n datgan bod y pŵer i ddiwygio'r cyfnodau o 60 mlynedd a bennir yn yr Atodlen yn cynnwys y pŵer i ddiwygio'r Atodlen. Yn ôl Nodiadau'r Drafftwyr, gwneir yr ychwanegiad hwn yn unol â Rheol Sefydlog 26C.2(iv), ac mae'n "gwella hygyrchedd drwy sicrhau y bydd unrhyw reoliadau sy'n diwygio'r cyfnodau yn gallu diwygio testun yr Atodlen fel ei fod yn cyfeirio at y cyfnodau cywir."[183]

**146.** Pan wnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol a oedd o'r farn bod Rheol Sefydlog 26.C(ii) yn ymwneud â'r newid hwn hefyd, gwahoddodd Dr James

---

[180] PCB03 Charles Felgate, Geldards LLP, tudalen 2 [Saesneg yn unig]
[181] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Hydref 2025, Atodiad, paragraff 2
[182] Mae adran 408 (Dehongli) o'r Bil yn darparu bod "caniatâd mwynau" yn golygu caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad mwynau, ond nid yw'n cynnwys caniatâd cynllunio a roddir gan orchymyn datblygu.
[183] Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil Cynllunio, tudalen 36

George i ymateb ar ei rhan.[184] Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn fodlon mai dim ond Rheol Sefydlog 26C.2(iv) sy'n ymwneud â'r newid hwn, ac esboniodd:

> *"... paragraph 1(4) of Schedule 5 to the Town and Country Planning Act already allows the regulations to be made to modify this default 60-year duration of a minerals permission. Now, at the moment, if regulations were made, that change would just sit in the regulations. We're making a change to say that you could make the change by actually amending the provision in the Act itself, so that the text would reflect the new period. So, obviously, we think that that results in a more accessible outcome because the legislation will mean what it says. But we think that that change is not really a clarification of the existing law. It's a slight extension of an existing power. So, we think that it's best described as a minor change for the sake of achieving a satisfactory consolidation."*[185]

## Dileu neu hepgor darpariaethau yr ystyrir eu bod wedi darfod, wedi'u disbyddu neu os nad oes iddynt bellach unrhyw ddefnydd neu les ymarferol

**147.** Fel y nodir ym mharagraff 11, gwnaeth *Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025* ddiddymu a diwygio rhai darpariaethau cynllunio diangen mewn deddfwriaeth bresennol er mwyn osgoi cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â'r diddymiadau hynny yn y Bil Cynllunio.

**148.** Ymhellach i'r darpariaethau hyn, ac fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Biliau yn dileu neu'n hepgor darpariaethau o'r ddeddfwriaeth bresennol lle maent wedi darfod, wedi'u disbyddu neu os nad oes iddynt bellach unrhyw ddefnydd neu les ymarferol.[186] Mae Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil Cynllunio ac ar gyfer y Bil Darpariaethau Canlyniadol yn cynnwys manylion am ddarpariaethau o'r fath.

---

[184] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [119]
[185] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [120]
[186] Memorandwm Esboniadol, paragraff 24

### Adran 137 – Adfer costau cydymffurfio â hysbysiad gorfodi; ac adran 258 – Adfer costau plannu coed

**149.** Mae adran 137 o'r Bil Cynllunio yn galluogi awdurdod cynllunio i adennill unrhyw gostau yr aed iddynt yn rhesymol wrth arfer ei bwerau o dan adran 136 o'r Bil, sy'n ei alluogi i fynd ar dir a chymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi. Mae ei ddarpariaethau yn tarddu o adran 178 o Ddeddf 1990, rheoliad 14 o Reoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992[187], ac adrannau 276 a 294 o *Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936*[188] (Deddf 1936).

**150.** Yn yr un modd, mae adran 258 o'r Bil Cynllunio yn galluogi awdurdod cynllunio i adennill unrhyw gostau yr aed iddynt yn rhesymol wrth arfer ei bwerau o dan adran 257, sy'n ei alluogi i fynd ar dir ac i blannu coed i sicrhau cydymffurfiaeth â hysbysiad ailblannu coed. Mae ei ddarpariaethau yn tarddu o adrannau 209 a 213 o Ddeddf 1990, rheoliad 14 o Reoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992, ac adrannau 276 a 294 o Ddeddf 1936.

**151.** Yn ei ailddatganiad o adran 276 o Ddeddf 1936, mae is-adrannau (7) ac (8) o adran 137 o'r Bil yn hepgor adran 276(3) o'r Ddeddf, sy'n nodi nad yw'r adran yn berthnasol i "ysbwriel" a waredir ymaith gan awdurdod lleol. Mae Nodiadau'r Drafftwyr yn nodi bod y newid hwn yn cael ei wneud yn unol â Rheol Sefydlog 26C.2(iii), ac maent yn darparu'r wybodaeth ychwanegol ganlynol:

> *"Mae'n ymddangos mai bwriad eithrio ysbwriel oedd osgoi gwrthdaro rhwng adran 276 a darpariaethau eraill yn Neddf 1936 a oedd yn caniatáu i awdurdodau werthu ysbwriel a gasglwyd ganddynt heb ei gwneud yn ofynnol iddynt roi cyfrif am yr elw. Mae'n ymddangos yn amherthnasol ac yn ddiangen pan fo awdurdod wedi symud deunyddiau ymaith wrth gymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi."*[189]

**152.** Yn yr un modd, mae is-adrannau (7) ac (8) o adran 258 o'r Bil yn hepgor adran 276(3) o Ddeddf 1936 yn ei ailddatganiad. Mae Nodiadau'r Drafftwyr yn nodi bod y newid hwn yn cael ei wneud yn unol â Rheol Sefydlog 26C.2(iii) hefyd, ac maent yn darparu'r wybodaeth ychwanegol ganlynol:

> *"Ymddengys mai bwriad eithrio sbwriel oedd osgoi unrhyw wrthdaro rhwng adran 276 a darpariaethau eraill yn Neddf*

---

[187] Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992 (Rhif 1492), rheoliad 14
[188] *Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936* (p. 49)
[189] Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil Cynllunio, tudalen 60

*1936 sy'n caniatáu i wastraff gael ei werthu. Nid yw'n ymddangos yn berthnasol nac yn angenrheidiol pan fo awdurdod yn gwneud gwaith i blannu coed."*[190]

**153.** Gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol ddarparu rhagor o fanylion ac eglurder mewn perthynas â'r hepgoriad hwn o is-adran (3) o adran 276 o Ddeddf 1936 yn adran 137 o'r Bil. Mewn ymateb, dywedodd fod newid tebyg wedi'i drafod yn y Bil a ddaeth yn Ddeddf 2023, a gwahoddodd Dr James George i roi esboniad mwy cyflawn.[191] Dywedodd:

> *"… it's about cases where an enforcement notice hasn't been complied with, and a planning authority sends somebody onto the land to do the things that the enforcement notice required. There are regulations that have been made that apply certain provisions of the Public Health Act 1936 in that situation, which includes section 276. Section 276 says that, if a local authority removes materials from premises when doing works under the 1936 Act, it can sell the materials but has to pay the proceeds to the owner of the materials, once it has taken out its own costs of doing the works. Subsection (3), which is the bit we've left out, then says that that doesn't apply to any refuse that an authority removes from premises. So, we think that that exception for refuse made sense in the context of the 1936 Act when it was originally enacted, and it might still be relevant in the context of waste collection. But we don't think that it's relevant in a case where an authority is going onto land to do works required by an enforcement notice. The reason that we think that is that Part 2 of the 1936 Act used to be the legislation that gave local authorities all their waste collection powers. That included section 76, which gave the authorities a separate power to sell the refuse that they removed from premises. But there wasn't any duty to account for the proceeds to the owner in section 76, whereas there is one in section 276.*
>
> *So, if an authority wanted to sell refuse, there would potentially be a conflict between the two sections: if you sell the refuse, do you have to account to the owner for the proceeds or not? So,*

[190] Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil Cynllunio, tudalen 105
[191] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [123]

*we think that section 276(3) was just there to resolve that conflict and make clear which provision applied in that case. None of that is relevant if an authority is going onto land to take down a structure that's been put up in breach of planning control, and an enforcement notice hasn't been complied with, and you're taking away the building materials. The authority when it's doing that is not acting as a waste collection authority, so that's why we think section 276(3) doesn't need to apply in that situation."*[192]

**154.** Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol a Dr George fod hepgor is-adran (3) o adran 276 o Ddeddf 1936 yn adran 258 o'r Bil wedi'i wneud ar yr un sail ag ar gyfer adran 137 o'r Bil.[193]

## Mân newidiadau i'r gyfraith bresennol at ddiben sicrhau cydgrynhoi boddhaol

### Cywiro anomaleddau

**155.** Mae canllawiau'r Llywydd ar Filiau Cydgrynhoi yn nodi y gall mân newidiadau i'r gyfraith bresennol a wneir gan Fil Cydgrynhoi, at ddibenion sicrhau cydgrynhoi boddhaol, gynnwys cywiro camgymeriadau neu anghysonderau yn y ddeddfwriaeth.[194] Rhoddodd y Cwnsler Cyffredinol, yn ei llythyr dyddiedig 10 Hydref 2025, fanylion pellach am sut mae'r Bil Cynllunio yn cywiro anghysonderau yn y ddeddfwriaeth bresennol.[195]

### Adran 105 – Digolledïad am wrthod caniatâd cynllunio a roddwyd yn flaenorol drwy orchymyn neu am ei roi yn amodol

**156.** Mae adran 105 o'r Bil Cynllunio, sy'n tarddu o adrannau 107 a 108 o Ddeddf 1990, yn darparu bod gan bersonau sydd â buddiant mewn tir sy'n dioddef colled neu ddifrod o ganlyniad i ganiatâd cynllunio a roddwyd yn flaenorol drwy orchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol, ac a dynnwyd yn ôl yn ddiweddarach – neu o ganlyniad i wrthod caniatâd cynllunio a roddwyd yn

[192] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [126] a [127]
[193] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [129] a [130]
[194] Canllawiau'r Llywydd i gefnogi gweithrediad Rheol Sefydlog 26C, Hydref 2021, tudalen 11
[195] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 10 Hydref 2025, paragraffau 15 i 18

flaenorol drwy orchymyn neu am ei roi yn amodol – yr hawl i ddigolllediad o dan amgylchiadau penodol.

**157.** Mae is-adran (9) o adran 105 yn cynnwys yn ei ailddatganiad o adran 108(4) o Ddeddf 1990 gyfeiriad at orchymyn datblygu lleol a fyddai wedi cael ei fewnosod gan adran 40(2)(h) o Ddeddf 2004. Mae Nodiadau'r Drafftwyr yn nodi bod y newid hwn yn cael ei wneud yn unol â Rheol Sefydlog 26C.2(iv), ac maent yn darparu'r wybodaeth ychwanegol ganlynol:

> *"Diddymwyd adran 40(2)(h) o Ddeddf 2004, a fewnosododd gyfeiriad at orchymyn datblygu lleol yn adran 108(4) o Ddeddf 1990, gan Ddeddf 2011 ychydig cyn i adran 40 gael ei dwyn i rym yn llawn yng Nghymru gan OS 2012/1100. Rhaid mai'r bwriad oedd y dylai'r diwygiad i adran 108(4) gymryd effaith yng Nghymru."*[196]

**158.** Gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol esbonio a oedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw berson a oedd wedi colli allan ar ddigolllediad oherwydd yr hepgoriad hwn, ac a oedd o'r farn bod y ffaith hon yn enghraifft o'r rheswm pam mae angen cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth. Mewn ymateb, nododd y Cwnsler Cyffredinol nad oedd yr hepgoriad hwn wedi effeithio ar unrhyw bersonau, a chadarnhaodd fod y ffaith hon yn enghraifft o'r rheswm pam mae angen cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth.[197] Rhoddodd Dr James George ragor o fanylion:

> *"… section 108(4) [of the 1990 Act] is just a power for Ministers to make regulations that would limit rights to compensation in certain cases, but no regulations have actually been made, so at the moment this doesn't affect anybody. If Ministers at some point in the future did want to make regulations, this would just mean that the regulations worked better in the context of that section."*[198]

---

[196] Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil Cynllunio, tudalennau 43 a 44
[197] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [139]
[198] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [140]

## Adran 116 – Pwerau i fynd ar dir at ddibenion gorfodi

**159.** Mae adran 116 o'r Bil Cynllunio, sy'n tarddu o adrannau 196A a 196C o Ddeddf 1990, yn galluogi personau a awdurdodwyd gan awdurdod cynllunio i fynd ar dir o dan amgylchiadau penodol at ddibenion gorfodi.

**160.** Yn ei ailddatganiad o adran 196A(2) o Ddeddf 1990, mae is-adran (2) o adran 116 o'r Bil yn ychwanegu pŵer i Weinidogion Cymru alluogi personau i fynd ar dir er mwyn penderfynu a ddylid dyroddi hysbysiad stop. Mae Nodiadau'r Drafftwyr yn nodi bod y newid hwn yn cael ei wneud yn unol â Rheol Sefydlog 26C.2(iv), ac yn "cywiro anomaledd":[199]

> *"O dan Ran 7 o Ddeddf 1990, caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi hysbysiadau gorfodi a chyflwyno hysbysiadau stop, tra bo ystod ehangach o bwerau gorfodi gan awdurdodau cynllunio. Yn flaenorol, roedd y ddau yn gallu awdurdodi mynd ar dir o dan adran 324(1) mewn cysylltiad ag unrhyw gynnig i ddyroddi neu gyflwyno hysbysiad o dan Ran 7 (gan gynnwys hysbysiad stop). Rhoddwyd pwerau mynediad ehangach i awdurdodau cynllunio gan adran 11 o Ddeddf 1991, ond yn lle pŵer Gweinidogion Cymru rhoddwyd y pŵer yn adran 196A(2) iddynt, sydd wedi ei gyfyngu i benderfynu a ddylid dyroddi hysbysiad gorfodi. Ni nodwyd unrhyw reswm dros hepgor y cyfeiriad at hysbysiadau stop. Yr unig reswm a roddwyd am y newidiadau a wnaed gan Ddeddf 1991 oedd ehangu pwerau mynediad awdurdodau cynllunio: gweler Carnwath, Enforcing Planning Control (1989), pennod 7 paragraff 2.1; HL Deb cyf 524 col 1358-1360 (13 Ionawr 1991)."*[200]

**161.** Gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol esbonio pam yr ystyrir ei bod yn briodol mynd i'r afael â'r anghysonder ymddangosiadol hwn ar y sail ei fod yn newid bach at ddiben sicrhau cydgrynhoi boddhaol. Atebodd Dr James George ar ran y Cwnsler Cyffredinol:

> *"We do think it's a minor change just to fill in a small gap that was created by accident in 1991. Before then, as we said in the*

---

[199] Mae adran 408 (Dehongli) o'r Bil yn nodi bod "hysbysiad stop" yn golygu hysbysiad a ddyroddir o dan adran 145 neu 150 o'r Bil. Mae'r adrannau hyn yn galluogi awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru, o dan rai amgylchiadau, i fynnu bod gweithgaredd yr ystyrir ei fod yn torri rheolaeth gynllunio yn stopio.
[200] Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil Cynllunio, tudalen 53

*drafters' notes, local planning authorities and the Welsh Ministers both had powers to authorise entry onto land in connection with proposals to issue notices under any of the enforcement provisions in the 1990 Act. So, that definitely included authorising entry to decide whether to issue a stop notice. There were then some changes made in 1991, and the result of that is local authorities still have all the powers they had before, and more, and the Welsh Ministers still have the power to authorise entry to decide whether to issue an enforcement notice, but not a stop notice.*

*Now, entering land to decide whether to issue either of those notices will generally involve considering the same issues about whether there's an ongoing breach of planning control. And each stop notice has to be linked to a specific enforcement notice anyway. So, really the only additional issue that you're considering when you decide whether to issue a stop notice is whether there's an ongoing breach that needs to stop sooner than it would otherwise. So, we don't think actually adding a power to enter land in connection with that particular issue of whether to issue a stop notice really adds very much at all to what can be done already, but still there is a slight anomaly there, or gap, which we think it makes sense to fill to produce a more coherent picture."*[201]

### Adran 186 – Casglu a thalu'r ardoll seilwaith cymunedol, ac adran 187 – Gorfodi: cyffredinol

**162.** Mae adran 186 o'r Bil Cynllunio yn nodi'r ddarpariaeth y mae'n rhaid i reoliadau a wneir o dan adran 171 o'r Bil ei chynnwys mewn perthynas â chasglu a thalu'r ardoll seilwaith cymunedol (ASC). Mae adran 187 o'r Bil yn nodi'r ddarpariaeth y mae'n rhaid i reoliadau o'r fath ei gwneud mewn perthynas â gorfodi'r ASC. Mae darpariaethau adrannau 186 a 187 yn tarddu, yn y drefn honno, o adrannau 217 a 218 o *Ddeddf Cynllunio 2008* (Deddf 2008).

**163.** Yn eu hailddatganiad o adrannau 217(6) a 218(6)(a) o Ddeddf 2008, mae adrannau 186(6) a 187(2)(a) o'r Bil yn diwygio darpariaethau sy'n galluogi ailadrodd neu gymhwyso unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â chasglu treth fel eu bod

---

[201] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [143] a [144]

wedi'u cyfyngu i ddeddfiadau sy'n ymwneud â chasglu trethi lleol. Mae Nodiadau'r Drafftwyr yn nodi bod y newidiadau hyn yn cael eu gwneud yn unol â Rheol Sefydlog 26C.2(iv), ac maent yn darparu'r esboniad canlynol:

> *"Ymddengys fod cyfyngu ar y gallu i ddyblygu neu gymhwyso deddfiadau sy'n ymwneud â gorfodi trethi lleol yn fwy priodol gan fod ASC yn debyg i dreth leol. Byddai pŵer ehangach yn caniatáu cymhwyso deddfiadau sy'n ymwneud â gorfodi trethi nad ydynt yn ddatganoledig, nad yw'n ymddangos yn briodol nac yn angenrheidiol."*[202]

**164.** Gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol a fyddai cyfeirio at drethi datganoledig, boed yn lleol neu fel arall, wedi bod yn gydgrynhoi mwy priodol, ac a oedd wedi gofyn am farn Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â'r newid hwn. Atebodd Dr James George ar ran y Cwnsler Cyffredinol:

> *"So, we have narrowed the powers that currently exist. … our view and the view of policy colleagues was that CIL is like a local tax—it's imposed, collected and enforced by local authorities. It will be different in different areas. And the provision that's in the existing CIL regulations about collection is very similar to the legislation about collection of council tax and non-domestic rates, which are obviously the local taxes that exist.*
>
> *So, the conclusion that we reached was that we didn't need any more. We didn't need it to be any wider than applying the legislation about collecting local taxes, so that's why we narrowed it in that way. It would have been possible, obviously, to say that you can apply enactments about the collection of any devolved taxes, local or not, but we just didn't think that was necessary, given the nature of the community infrastructure levy.*
>
> *And on the question about whether we've spoken to the Law Commission about it, we didn't speak to the Law Commission because we thought this was a minor change that we could*

[202] Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil Cynllunio, tudalennau 73 a 74

> *make under the Standing Order without needing a recommendation from them that we could do it."*[203]

## Newidiadau i'r gyfraith a argymhellir gan Gomisiwn y Gyfraith

**165.** Mae'r Bil Cynllunio yn gweithredu nifer o argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad, Cyfraith Cynllunio yng Nghymru.[204] Mewn gohebiaeth i'r Pwyllgor, nododd y Cwnsler Cyffredinol pa rai o argymhellion yr adroddiad hwnnw yr oedd wedi'u nodi fel y rhai y byddai angen mynd i'r afael â nhw, neu eu hystyried i'w cynnwys, mewn "Bil diwygio'r gyfraith" ar wahân (neu Fil Cyhoeddus, a gyflwynwyd o dan Reol Sefydlog 26).[205]

**166.** Fel y nodir yn Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil:

> *"Nid yw'r ffaith bod newid wedi ei argymell yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith o anghenraid yn golygu y dibynnwyd ar baragraff (v) o Reol Sefydlog 26C.2, sy'n caniatáu i Fil cydgrynhoi wneud newidiadau i'r gyfraith y mae Comisiwn y Gyfraith "yn argymell y byddai'n briodol eu cynnwys mewn Bil Cydgrynhoi". Yn y rhan fwyaf o'r achosion pan wnaeth Llywodraeth Cymru newidiadau i roi effaith i argymhellion yn yr adroddiad, dibynnodd ar baragraffau eraill o Reol Sefydlog 26C.2.*
>
> *Dim ond pan oedd yn ystyried nad oedd yr un paragraff arall o Reol Sefydlog 26C.2 yn gymwys y ceisiodd Llywodraeth Cymru argymhellion o dan baragraff (v). Mewn llythyr at y Prif Weinidog dyddiedig 16 Mai 2024, nododd Cadeirydd Comisiwn y Gyfraith fod 15 o newidiadau yn addas i'w cynnwys mewn Bil cydgrynhoi o dan baragraff (v)."*[206]

**167.** Cafodd Llythyr Comisiwn y Gyfraith dyddiedig 16 Mai 2024[207] ei ategu yn ddiweddarach gan lythyr dyddiedig 23 Gorffennaf 2025 at y Prif Weinidog[208] a eglurodd rai materion a godwyd yn llythyr 2024.

---

[203] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [151] i [153]
[204] Comisiwn y Gyfraith, Adroddiad Terfynol Cyfraith Cynllunio yng Nghymru, Tachwedd 2018
[205] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 10 Hydref 2025, paragraffau 11 a 12
[206] Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil Cynllunio, paragraffau 8 a 9
[207] Llythyr gan Gomisiwn y Gyfraith at y Prif Weinidog, 16 Mai 2024 [Saesneg yn unig]
[208] Llythyr gan Gomisiwn y Gyfraith at y Prif Weinidog, 23 Gorffennaf 2025 [Saesneg yn unig]

**168.** Mae'r tablau tarddiadau a thrawsleoli ar gyfer y Bil Cynllunio yn nodi ble mae'r argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei lythyr dyddiedig 16 Mai 2024 wedi cael effaith. Mae Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil hefyd yn cynnwys yr wybodaeth hon, yn ogystal â manylion am ble y mae newidiadau eraill hefyd wedi cael effaith ar argymhellion a wnaed yn yr adroddiad Cyfraith Cynllunio yng Nghymru.

**169.** Dywedodd yr Athro Alison Young, Comisiynydd y Gyfraith ar gyfer Cyfraith Gyhoeddus a'r Gyfraith yng Nghymru, fod Comisiwn y Gyfraith wedi ystyried sut yr oedd yr argymhellion a wnaed yn ei lythyr dyddiedig 16 Mai 2024 wedi'u hailadrodd yn y Bil, a'i fod yn hapus iawn nad oedd unrhyw beth yn y Biliau wedi mynd y tu hwnt i'r hyn a argymhellwyd, neu'r hyn a oedd wedi'i hepgor.[209]

## Newidiadau i weithdrefnau is-ddeddfwriaeth, symud darpariaethau rhwng is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth sylfaenol, a phwerau gwneud rheoliadau newydd a roddir i Weinidogion Cymru

**170.** Fel y nodir ym mharagraff 14, mae'r Bil Cynllunio yn ymgorffori rhai darpariaethau o is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Deddfau sy'n cael eu cydgrynhoi. Mae Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil yn esbonio lle mae deunydd o'r fath wedi'i gynnwys, ac yn darparu manylion ychwanegol:

> *"Pan gall bod angen diwygio darpariaethau sydd wedi eu symud o is-ddeddfwriaeth i'r Bil, mae'r Bil yn cadw pwerau i wneud diwygiadau mewn rheoliadau … Mae adran 407(7) yn darparu i'r rheoliadau sy'n diwygio'r Bil ei hun fod yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd."*[210]

**171.** Mae'r tabl tarddiadau a'r tabl trawsleoli ar gyfer y Bil Cynllunio yn nodi'r is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei chydgrynhoi, ac mae Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil yn cynnwys manylion y darpariaethau sydd ar hyn o bryd mewn Deddfau a fydd yn cael sylw mewn is-ddeddfwriaeth.[211]

[209] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 29 Medi 2025, Cofnod y Trafodion [208]
[210] Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil Cynllunio, paragraff 6
[211] Fel y nodir ym mharagraff 25 o lythyr y Cwnsler Cyffredinol dyddiedig 10 Hydref 2025, mae'r darpariaethau hyn wedi'u cynnwys yn adrannau 63 a 97, paragraff 6 o Atodlen 8, paragraffau 5(6), 5(7) a 13 o Atodlen 9, ac adrannau 131(8), 133, 162, 172(3) a 244.

## Newidiadau i weithdrefnau is-ddeddfwriaeth

**172.** Mae Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil Cynllunio yn nodi lle mae gwahanol weithdrefnau wedi'u cymhwyso i bwerau gwneud rheoliadau a ailddatganwyd yn y Bil. Ym mhob achos, bydd y rheoliadau perthnasol yn destun mwy o graffu nag o dan y deddfiadau sy'n cael eu cydgrynhoi:

- bydd rheoliadau o dan baragraff 1(9) o Atodlen 3, sy'n newid cyfnod ôl-ofal neu hyd ddiofyn caniatâd mwynau, yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd, yn hytrach na'r weithdrefn annilysu;
- bydd rheoliadau o dan adran 6(6), sy'n pennu o fewn pa ddosbarthiadau nad yw newidiadau defnydd yn ddatblygiad (a ddisgrifir hefyd fel rheoliadau dosbarthiadau defnydd), yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd, yn hytrach na dim gweithdrefn;
- bydd rheoliadau o dan adran 8(1), sy'n galluogi sefydlu byrddau cydgynllunio, yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd, yn hytrach na dim gweithdrefn; a
- bydd rheoliadau o dan adran 306(3), sy'n newid y diffiniad o "tir gweithredol" darparwyr gwasanaeth post cyffredinol, yn ddarostyngedig i weithdrefnau cymeradwyo'r Senedd a Senedd y DU, yn hytrach na gweithdrefnau annilysu.[212]

## Symud darpariaethau rhwng is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth sylfaenol

**173.** Yn ei llythyr dyddiedig 10 Hydref 2025, nododd y Cwnsler Cyffredinol ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at sicrhau cydbwysedd rhwng cynnwys darpariaethau yn y Bil Cynllunio ac o fewn is-ddeddfwriaeth:

> *"Mae cryn ystyriaeth wedi'i rhoi i sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng … yn y broses gydgrynhoi, gyda darpariaethau yn cael eu hystyried fesul achos, gan roi sylw i faterion megis y canlynol:*
>
> *a. pwysigrwydd y darpariaethau o ran eu harwyddocâd i gyfraith gynllunio a llif y Bil (a fyddai eu cynnwys yn y Bil yn sicrhau cyfundrefn fwy cydlynol neu a fyddai'n tarfu ar hygyrchedd);*

[212] Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil Cynllunio, tudalen 154

*b. yr angen i ymdrin â darpariaethau tebyg mewn ffordd debyg, er mwyn sicrhau cysondeb o ran y ffordd yr ymdrinnir â'r rhaniad rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth;*

*c. a oedd is-ddeddfwriaeth yn cynnwys addasiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol y byddai'n well ymdrin â nhw yn y Bil; a*

*d. a oedd darpariaethau arwyddocaol mewn is-ddeddfwriaeth wedi aros yn ddigyfnewid ers cryn amser."*[213]

**174.** Esboniodd llythyr y Cwnsler Cyffredinol hefyd fod mwy o ddarpariaeth wedi'i symud, ar y cyfan, o reoliadau i wyneb y Bil, a bod llai o ddarpariaethau wedi'u symud o ddeddfwriaeth sylfaenol ac y byddant yn cael eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth yn lle hynny. Mae'r llythyr hefyd yn darparu enghreifftiau o ddarpariaeth o'r fath.[214]

## Darparu pwerau gwneud rheoliadau newydd i Weinidogion Cymru

**175.** Mewn tystiolaeth lafar, cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol nad oes unrhyw un o'r pwerau newydd i wneud is-ddeddfwriaeth yn y Bil Cynllunio yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau polisi.[215] Ymhelaethodd Dr James George:

*"… there is a small number of new regulation-making powers, and they're mainly about procedural-type matters. One of them is, say, section 72(4) of the Planning (Wales) Bill, which confers a new power to require the Welsh Ministers to notify applicants that their applications have been called in. Then we've got paragraph 6 of Schedule 8 and paragraph 13 of Schedule 9, which are powers to make provision about using electronic communications in connection with certain kinds of applications. So, those are just minor procedural matters of the kind that are dealt with in subordinate legislation anyway."*[216]

[213] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 10 Hydref 2025, paragraff 23
[214] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 10 Hydref 2025, paragraffau 26 a 27
[215] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [49]
[216] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [52]

## Ein barn ni

**176.** Nodwn y dystiolaeth a gafwyd gan y Cwnsler Cyffredinol, ei swyddogion a rhanddeiliaid mewn perthynas â'r newidiadau y mae'r Biliau wedi'u gwneud i gyfraith bresennol.

**177.** Rydym yn cydnabod yr ystod o safbwyntiau a fynegwyd i ni mewn perthynas â chyflwyno'r term newydd "relevant considerations" ac, yn benodol, cwestiynau a godwyd ynghylch a oes gan y term yr un ystyr â'r un y mae'n ei ddisodli, sef "material considerations". Fodd bynnag, nodwn y penderfyniadau a wnaed gan y Goruchaf Lys bod gan y ddau derm yr un ystyr, a nodwn gadarnhad Llywodraeth Cymru y bydd canllawiau sy'n cyd-fynd â'r Biliau, os cânt eu deddfu, hefyd yn datgan fel y cyfryw.

**178.** Nodwn ymhellach mai diben y newid hwn – a'r newidiadau eraill i'r derminoleg bresennol a gyflwynwyd gan y Bil Cynllunio – yw gwneud y gyfraith yn haws i'w deall, yn y Gymraeg a'r Saesneg, a'n bod yn fodlon.

**179.** Nodwn fod y Bil Cynllunio yn ymgorffori cyfraith gyffredin sy'n effeithio ar weithrediad deddfwriaeth gynllunio bresennol. Rydym o'r farn y dylai cynnwys cyfraith o'r fath wella hygyrchedd drwy egluro – drwy ddarpariaeth ar wyneb y ddeddfwriaeth – yr hyn sydd eisoes yn cael ei ddeall fel ystyr y gyfraith sy'n cael ei hailddatgan.

**180.** Nodwn hefyd y newidiadau eraill a gyflwynwyd gan y Bil Cynllunio at ddiben egluro cymhwysiad neu effaith y gyfraith bresennol, a'r esboniadau a ddarparwyd i ni ar gyfer y newidiadau hyn, a'n bod yn fodlon. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd Llywodraeth Cymru yn cywiro cyfeiriad gwallus ar y Rheol Sefydlog yn Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil mewn perthynas ag un o'r newidiadau hyn.

**181.** Yn ogystal, nodwn y ffaith bod darpariaethau darfodedig wedi'u hepgor fel rhan o'r ymarfer cydgrynhoi, a'r rhesymau dros eu hepgor, a hefyd yr esboniadau a roddwyd i ni pam mae newidiadau wedi'u gwneud i'r gyfraith bresennol er mwyn sicrhau cydgrynhoi boddhaol. Rydym yn fodlon ar yr hepgoriadau a'r newidiadau dan sylw.

**182.** Dywedodd Comisiwn y Gyfraith wrthym ei fod yn fodlon bod yr argymhellion a wnaeth yn ei lythyr dyddiedig 16 Mai 2024 wedi'u hailadrodd yn briodol yn y Biliau ac, am y rheswm hwnnw, rydym hefyd yn fodlon.

**183.** Yn olaf, nodwn fod y Bil Cynllunio yn ymgorffori nifer o ddarpariaethau sydd ar hyn o bryd mewn is-ddeddfwriaeth ac, i'r gwrthwyneb, fod llai o ddarpariaethau wedi'u symud o ddeddfwriaeth sylfaenol ac y byddant yn cael eu cynnwys mewn

is-ddeddfwriaeth yn lle hynny. Rydym yn fodlon â'r newidiadau a wnaed gan y Bil yn hyn o beth. Ymhellach, rydym yn croesawu'r ffaith y bydd y newidiadau a wneir gan y Bil i'r gweithdrefnau craffu a fydd yn berthnasol i rai pwerau is-ddeddfwriaeth yn golygu y bydd y rheoliadau hynny'n destun mwy o graffu nag y byddai fel arall yn wir o dan y deddfiadau sy'n cael eu cydgrynhoi.

**Casgliad 3.** Rydym yn ystyried bod y Biliau'n cydgrynhoi'r deddfiadau yn gywir neu'n newid eu heffaith gyfreithiol o ran sylwedd i'r graddau a ganiateir gan Reol Sefydlog 26C.2 yn unig.

# 5. A yw'r Biliau'n cydgrynhoi'r gyfraith yn glir ac yn gyson?

Yn unol â Rheol Sefydlog 26C.17(iv), mae ein hystyriaeth o'r Biliau wedi cynnwys asesu a ydynt yn cydgrynhoi deddfwriaeth bresennol yn glir ac yn gyson.

## Cyffredinol

**184.** Cododd llawer o'r rhai a ymatebodd i'n hymgynghoriad gwestiynau am gydgrynhoi'r gyfraith bresennol o fewn adrannau penodol o'r Bil Cynllunio.[217] Ar ôl i ni ddwyn yr ymatebion i'r ymgynghoriad i sylw'r Cwnsler Cyffredinol[218], aeth Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol i'r afael â phob un o'r cwestiynau hyn yn ysgrifenedig.[219]

**185.** Nodir isod faterion eraill yr aethom ar eu trywydd ymhellach fel rhan o'n hasesiad o ba mor glir a chyson y mae'r Biliau yn cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol.

### Adran 1 – Cyflwyniad

**186.** Mae adran 1(1) o'r Bil Cynllunio yn nodi y bydd y Bil, os a phan gaiff ei ddeddfu, yn rhan o god o gyfraith Cymru sy'n ymwneud â chynllunio. Mae is-adran (2) yn rhestru'r deddfiadau sydd wedi'u cynnwys yn y gwahanol Ddeddfau y mae'n eu cydgrynhoi neu sydd wedi'u gwneud o dan y Deddfau hynny.

**187.** Fel y nodir ym mharagraff 16, bwriad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil Darpariaethau Canlyniadol yw y bydd yn cynnal darpariaethau canlyniadol a throsiannol sydd naill ai ag oes gyfyngedig yn ymarferol neu o ddiddordeb cyfyngedig iawn i'r rhan fwyaf o ddarllenwyr cyfraith cynllunio, gan adael dim ond y darpariaethau o sylwedd yn y Bil Cynllunio.

[217] Gweler, er enghraifft: PCB02 Tai Hanesyddol Cymru, paragraff 1 [Saesneg yn unig]; PCB05 CLA Cymru, paragraffau 20 a 21 [Saesneg yn unig]; a PCB06 RTPI Cymru, tudalennau 3 i 5 [Saesneg yn unig].
[218] Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol, 21 Hydref 2025
[219] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Hydref 2025, Atodiad

**188.** Felly, gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol esbonio pa ystyriaeth a roddwyd i gynnwys rhestr o ddeddfiadau wedi'u cydgrynhoi yn y Bil Darpariaethau Canlyniadol yn hytrach nag o fewn adran 1 o'r Bil Cynllunio, er budd cydgrynhoi ar 'lechen lân'. Wth ymateb, dywedodd:

> *"… the idea is that the first Bill, the consolidation Bill, will start off by saying, 'This is a consolidation Bill', so you know that you don't have to go further back in time. And then it will put the things that you need to know, and you'll not have to refer to anywhere else, on its face, and then be self-contained, whereas if you put the signposting about what's changed in the other Bill, you'd have to cross-reference it."*[220]

**189.** Ychwanegodd Dr James George, Uwch-gwnsler Deddfwriaethol yn Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol:

> *"The first two sections of the main Bill are introductory provisions that explain what the Bill's doing and what it contains. And we thought it was helpful for section 1 to indicate, 'This is a consolidation Bill and here's broadly what it's consolidating.'"*[221]

### Adran 7 – Yr awdurdod cynllunio ar gyfer ardal

**190.** Mae llawer o bwerau a dyletswyddau o dan y Bil Cynllunio yn cael eu neilltuo i'r awdurdod cynllunio. Mae adran 7(1) o'r Bil yn nodi mai'r awdurdod cynllunio ar gyfer ardal yng Nghymru yw'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardal, ac mae is-adran (2) yn nodi:

- awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru "yw'r awdurdod cynllunio ar gyfer ardal y Parc";
- bwrdd cydgynllunio a sefydlwyd o dan adran 8 o'r Bil "yw'r awdurdod cynllunio ar gyfer ei ardal cydgynllunio".

**191.** Dywedodd Charles Felgate, o Geldards LLP, y byddai'n esgeulus peidio â rhoi awgrym yn adran 7 y gallai'r awdurdod cynllunio fod yn Weinidogion Cymru o dan

[220] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [157]
[221] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [158]

rai amgylchiadau. Cyfeiriodd at enghreifftiau o bwerau a chyfrifoldebau Gweinidogion Cymru a gynhwysir yn:

- adran 44, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad penodedig neu ddatblygiad o ddisgrifiad penodedig;
- adran 72, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio atgyfeirio ceisiadau penodol i Weinidogion Cymru i benderfynu arnynt; ac
- adran 73, sy'n galluogi ymgeisydd am geisiadau penodol i apelio i Weinidogion Cymru os yw'r awdurdod cynllunio yn gwrthod y cais, neu'n caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i amodau, fel y gall Gweinidogion Cymru benderfynu ar y cais yn unol ag adran 76.[222]

**192.** Mae llythyr y Cwnsler Cyffredinol dyddiedig 28 Hydref 2025 yn cynnwys sylwebaeth gan Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol, lle cynghorodd y byddai gweithredu'r awgrym a ddarparwyd gan Charles Felgate yn anghywir:

> *"… Mae'r cyfeiriadau at "awdurdod cynllunio" yn y Bil yn ailddatgan cyfeiriadau presennol at awdurdodau cynllunio lleol, awdurdodau cynllunio mwynau ac awdurdodau sylweddau peryglus. Nid ydynt yn cynnwys Gweinidogion Cymru."*[223]

**193.** Mewn tystiolaeth lafar, esboniodd y Cwnsler Cyffredinol pam nad yw adran 7 o'r Bil yn cyfeirio at bwerau Gweinidogion Cymru:

> *"… trying to find a term that doesn't then confuse everybody with the difference between the national planning authority, the national park, the local planning authority and so on is problematic. And also it doesn't tell you what the Welsh Ministers' powers are; you've still got to read the whole Bill to find that out. So, I think, in the end, the judgment was it just didn't clarify it. In fact, if anything, it might be slightly more confusing."*[224]

[222] PCB03 Charles Felgate, Geldards LLP, tudalen 3 [Saesneg yn unig]
[223] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Hydref 2025, Atodiad, paragraff 1
[224] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [160]

**194.** Ychwanegodd Dr James George:

> *"We did think about whether there was any merit in mentioning the role of the Welsh Ministers at the beginning of the Bill, where we talk about which authorities are the planning authorities, but we didn't think there was anything that we could usefully say, really. We've clarified, in a couple of places in the Bill, the status of national planning policy made by the Welsh Ministers, and its relevance to local plans and to planning decisions, but we didn't think there was anything we needed to say about the functions of the Welsh Ministers themselves."*[225]

**195.** Mae darpariaethau o dan adran 7(2) yn cynnwys y rhai sy'n tarddu o adran 4A(2) o Ddeddf 1990, sy'n nodi mai'r awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol ar gyfer unrhyw ardal "yw'r awdurdod cynllunio ar gyfer ardal y Parc". Mae is-adrannau (2)(a) a (b) o adran 4A o Ddeddf 1990 yn nodi ymhellach:

- bod swyddogaethau a roddir gan neu o dan y Deddfau cynllunio[226] ar awdurdod cynllunio, mewn perthynas â'r Parc, yn swyddogaethau awdurdod Parc Cenedlaethol, ac nid unrhyw awdurdod arall; a
- bod cymaint o ardal unrhyw awdurdod arall ag sydd wedi'i chynnwys yn y Parc yn cael ei thrin fel ardal wedi'i heithrio o unrhyw ardal lle mae'r awdurdod arall hwnnw yn awdurdod cynllunio o unrhyw ddisgrifiad.

**196.** Dywedodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wrthym fod y cydgrynhoi arfaethedig o'r darpariaethau hyn yn y Bil yn cyflwyno ansicrwydd enfawr i rôl awdurdodau parciau cenedlaethol drwy newid eu rôl fel yr unig awdurdod cynllunio lleol ar gyfer ardal y Parc. Mae'n nodi, ar ôl codi'r mater hwn gyda Llywodraeth Cymru:

> *"… officials have argued that the function conferred in … [section] 60M(1) [of the] Planning and Compulsory Purchase Act 2004 on a Corporate Joint Committee (CJC) to prepare a Strategic Development Plan is considered neither a function conferred by*

[225] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [161]

[226] At ddibenion Deddf 1990, ystyr "y Deddfau cynllunio" yw'r Ddeddf honno, *Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990* (p. 9), Rhannau 3 i 5 o Ddeddf 2023 (a Rhan 7 o'r Ddeddf honno fel y mae'n gymwys at ddibenion y Rhannau hynny), *Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990* (p. 10) a *Deddf Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) 1990* (p. 11).

> *or under the planning Acts nor a function of a planning authority of any description (with reference to … s4A (2)(a) [of the 1990 Act]).”*[227]

**197.** Gwahoddwyd awdurdodau parciau cenedlaethol eraill i wneud sylwadau ar y pryderon a godwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.[228] Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd mewn perthynas ag adran 7 o'r Bil Cynllunio, dywedodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:

> *“Section 7 ‘The planning authority of an area’ identifies the National Park Authority as the Planning Authority for the area of the Park, except where a joint planning board is established under section 8 ‘Power to designate joint planning area and establish joint planning board’. Under section 9 ‘Joint planning areas and National Parks’ a Joint Planning Board should not be set up to include a national park but that can be overridden by regulations.*
>
> *There appears to be a subtly different approach in the Bill to the current section 2(1B) of the Town and Country Planning Act [1990] which contains an absolute prevention of a Joint Planning Board being established for a National Park in section 2(1D). The Pembrokeshire Coast National Park Authority would suggest that the wording in 2(1D) is retained to ensure this does not introduce a change through the Planning (Wales) Bill 2025.”*[229]

**198.** Yn llythyr y Cwnsler Cyffredinol dyddiedig 28 Hydref 2025, ymatebodd Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol i'r mater a godwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog:

> *“Mae'r ymateb yn honni bod y Bil Cynllunio yn newid effaith adran 4A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ac yn creu ansicrwydd ynghylch rôl awdurdod Parc Cenedlaethol fel awdurdod cynllunio. Nid ydym yn cytuno ei fod yn gwneud unrhyw un o'r pethau hynny.*

---

[227] PCB07 Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, tudalen 3 [Saesneg yn unig]
[228] Llythyr at Gadeiryddion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, 21 Hydref 2025
[229] Llythyr gan Gadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, 10 Tachwedd 2025

*Mae Adran 7 o'r Bil yn datgan yn glir mai awdurdod Parc Cenedlaethol yw'r awdurdod cynllunio ar gyfer y Parc Cenedlaethol hwnnw. Mae'r drafft yn dilyn y dull o ddiffinio awdurdod cynllunio lleol sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio yn adran 78(3) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, yn hytrach na'r dull yn adran 4A o Ddeddf 1990.*

*Mae'r Bil yn hepgor y rhan fwyaf o adran 4A o Ddeddf 1990 oherwydd ei bod yn ddiangen yng Nghymru. Yn y rhan fwyaf o Loegr, ceir dau awdurdod cynllunio lleol (awdurdod cynllunio sirol ac awdurdod cynllunio dosbarth) ac awdurdod cynllunio mwynau (sef yr awdurdod cynllunio sirol). Rydym ni o'r farn bod adran 4A yn amodi mai awdurdod Parc Cenedlaethol yw'r unig awdurdod cynllunio lleol ar gyfer y Parc hwnnw, a'i fod yn cyflawni swyddogaeth awdurdod cynllunio o unrhyw ddisgrifiad er mwyn dangos yn glir ei fod yn cymryd lle'r holl awdurdodau eraill hynny. O dan y Bil Cynllunio, dim ond un awdurdod cynllunio (y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol fel arfer) y gall ardal yng Nghymru ei gael, felly mae'r dull a ddefnyddir yn adran 4A yn ddiangen. Nid oes angen dweud mwy na'r hyn a ddywedir yn adran 7 o'r Bil.*

*Nid ydym yn deall pam mae'r ymateb yn cyfeirio at swyddogaeth cyd-bwyllgor corfforedig o baratoi cynllun datblygu strategol o dan Ran 6 o Ddeddf 2004. Mae adran 4A o Ddeddf 1990 yn ymwneud â swyddogaethau awdurdodau cynllunio o dan y Deddfau cynllunio. Nid yw cyd-bwyllgor corfforedig yn "awdurdod cynllunio" oherwydd ni chyfeirir ato fel awdurdod cynllunio yn unrhyw le yn y ddeddfwriaeth bresennol[1]; ac mae'n endid corfforaethol ar wahân yn hytrach nag yn gyd-bwyllgor ar gyfer yr awdurdodau cynllunio yn ei ardal. Nid yw Deddf 2004 yn un o'r "Deddfau cynllunio" gan nad yw wedi cael ei chynnwys yn y diffiniad o'r Deddfau cynllunio yn adran 336(1) o Ddeddf 1990. Felly, nid yw adran 4A o Ddeddf 1990 yn berthnasol i gyd-bwyllgorau corfforedig nac i swyddogaethau o dan Ddeddf 2004. Yn hytrach, mae Rhan 6 o Ddeddf 2004 yn nodi pa awdurdodau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Rhan honno, ac yn benodol yn rhoi swyddogaeth paratoi cynllun datblygu strategol i gyd-bwyllgor*

*corfforedig yn unig. Mae Rhan 2 o'r Bil Cynllunio yn cadw at y safbwynt hwnnw."*[230]

**199.** Mewn tystiolaeth lafar, aeth y Cwnsler Cyffredinol i'r afael â'r mater hwn hefyd:

*"… we don't think it has changed the effect of section 4A of the Town and Country Planning Act 1990. We're very confident it restates the law in its existing form. I think it's very clear, and the committee will be very clear, about the fact that we know that the national park authorities are important local planning authorities in their own right. They are, in fact, single-purpose planning authorities; that's what they are. I think it's very clear that that's the case, and section 7 presents that provision in a much clearer and more straightforward manner.*

*I do think there's a little bit of confusion around the role of the CJC, which I was also the Minister in charge of at the time, just to say. So, just to be really clear: the existing legislation makes it abundantly obvious that a corporate joint committee is not a planning authority for the purposes of planning legislation. They're a separate corporate entity with the responsibility of preparing the strategic development plan for their region, not as the local development planning authority. So, it's great that the national parks are taking an interest in this and so on, but I think it is really important to understand that that is not changing. They've expressed views—policy views, I would say, not planning law views—over the years since we put the CJC in place, which has now been some five years, around how that interacts. But I do think that's a separate matter from the restating of their position as a local planning authority."*[231]

### Adran 11 – Datblygu cynaliadwy; ac adran 51 – Dyletswydd datblygu cynaliadwy

**200.** Mae adrannau 11 a 51 o'r Bil Cynllunio yn ailddatgan adran 2 o Ddeddf 2015, sy'n nodi bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â chynlluniau datblygu a

[230] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Hydref 2025, Atodiad, paragraffau 25 i 28
[231] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [166] a [167]

chaniatadau cynllunio at ddiben sicrhau bod datblygiad a defnydd tir yn cyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

**201.** Dywedodd RTPI Cymru wrthym, yn hytrach na chynnwys y ddarpariaeth hon yn adrannau 11 a 51 yn unig, y byddai'n well ar frig y ddeddfwriaeth, gan gwmpasu'r holl swyddogaethau yn y Bil cyfan, i nodi diben statudol y system gynllunio.[232]

**202.** Adleisiodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru sylwadau RTPI Cymru am y ddarpariaeth yn adrannau 11 a 51:

> *"… it might come better if it was positioned at the top of the Bill, so that it was clear that it applied to all elements of the Bill. … there's no reference, for example, in the section on planning enforcement, so we just wonder about the positioning of that statement."*[233]

**203.** Mewn gohebiaeth, trafododd y Cwnsler Cyffredinol y pwyntiau a godwyd gan RTPI Cymru a Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru:

> *"Sections 11 and 51 of the Bill reproduce the existing scope of the duty in section 2 of the Planning (Wales) Act 2015, which was debated and agreed by the Senedd during scrutiny of the 2015 Act. Extending the duty to other functions would be a change in the law. There are also planning functions to which the duty is clearly irrelevant (such as powers to make regulations about procedural matters and functions relating to certificates of lawfulness and blight notices), so applying it generally to all functions under the Bill could give a misleading impression about its actual scope."*[234]

**204.** Mewn tystiolaeth lafar, gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol a oedd yn credu y byddai budd mewn ymestyn y ddyletswydd o fewn deddfwriaeth yn y dyfodol i ddiwygio'r gyfraith. Mewn ymateb, nododd:

> *"… if you were going to extend a sustainable development duty then you would need to carefully evidence how and where to extend it, and it wouldn't necessarily extend to all planning. So,*

[232] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [110]
[233] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [31]
[234] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Hydref 2025, pwynt 2

*a certificate of lawful use, for example, how would you extend it to that? … there are a number of things that you might want to have a look at to see whether they would or wouldn't benefit from having it extended, but, for the purposes of this, that is a change in the law, and obviously this isn't about changing the law."*[235]

## Adran 19 – Dyletswydd i lunio cynllun datblygu lleol

**205.** Mae adran 19 o'r Bil Cynllunio yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio baratoi a mabwysiadu cynllun datblygu lleol (CDLl) ar gyfer ei ardal. Mae is-adran (5) o adran 19 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynllun bennu'r cyfnod pan fo i gael effaith, ac mae ei is-adran (9) yn nodi bod cynllun yn peidio â bod yn gynllun datblygu lleol ar ddiwedd y cyfnod hwn.

**206.** Mae is-adrannau (5) a (9) wedi'u hailddatgan, yn y drefn honno, o is-adrannau (3B) a (9) o adran 62 o Ddeddf 2004, a fewnosodwyd yn y Ddeddf honno gan adran 12 o Ddeddf 2015. Daeth y darpariaethau yn adran 12 o Ddeddf 2015 i rym ar 4 Ionawr 2016.[236]

**207.** Ym mis Medi 2020, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at awdurdodau lleol i egluro cymhwysiad adran 62 o Ddeddf 2004, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2015:

*"Gyda llawer o CDLlau yn agosáu at ddiwedd eu cyfnod, yn enwedig o 2021 ymlaen, canfyddir na fyddant yn bodoli ar ôl iddynt ddod i ben. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i egluro'r sefyllfa.*

*Cafodd y darpariaethau yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 ynghylch y cyfnod y mae cynllun yn cael effaith eu cychwyn ar 4 Ionawr 2016. Nid yw effaith y darpariaethau hyn yn ôl-weithredol. Mae hyn yn golygu nad yw'r darpariaethau yn berthnasol i CDLlau a fabwysiadwyd cyn y dyddiad hwn. Bydd cynlluniau a fabwysiadwyd cyn 4 Ionawr 2016 yn parhau ar gyfer penderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio hyd nes y bydd CDLl pellach yn eu disodli. O ran y CDLlau a fabwysiadwyd ar ôl*

[235] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [185]
[236] Yn rhinwedd erthygl 3 o Orchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2015 (Rhif 1987).

*4 Ionawr 2016, bydd y CDLl yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod a bennwyd yn y cynllun.*

*Bydd y CDLl cyntaf yn dod i ben ar 1 Ionawr 2026 o dan y darpariaethau hyn. Mae'r cyfnod hwn o ychydig dros 5 mlynedd i 2026 yn rhoi cyfle i edrych ymhellach ar y sefyllfa ac ystyried a oes angen deddfwriaeth bellach.*

*O ran y ddau Awdurdod Cynllunio Lleol nad ydynt eto wedi elwa ar GDLl sydd wedi'i fabwysiadu, ond sydd â Chynllun Datblygu Unedol, nid yw'r darpariaethau ynghylch y cyfnod y mae cynllun yn cael effaith yn berthnasol. Bydd y ddau Gynllun Datblygu Unedol yn parhau hyd nes y cânt eu disodli gan eu CDLl priodol."*[237]

**208.** Dywedodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wrthym fod diffyg eglurder o hyd ynglŷn â chymhwyso'r ddarpariaeth yn ôl-weithredol yn adran 19 o'r Bil Cynllunio, a chyfeiriodd at ohebiaeth 2020 i awdurdodau lleol.[238]

**209.** Gwnaethom wahodd awdurdodau parciau cenedlaethol eraill i wneud sylwadau ar y pryderon a godwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.[239] Mewn ymateb i bryderon a godwyd mewn perthynas ag adran 19 o'r Bil Cynllunio, dywedodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei fod yn cytuno y dylai ei is-adran (9) nodi mai dim ond i gynlluniau datblygu lleol a fabwysiadwyd ar ôl dyddiad cychwyn Deddf 2015 y mae ei ddarpariaeth yn berthnasol, ac nid yn ôl-weithredol i gynlluniau a fabwysiadwyd cyn y dyddiad hwn.[240]

**210.** Yn llythyr y Cwnsler Cyffredinol dyddiedig 28 Hydref 2025, trafododd Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol y diffyg eglurder ymddangosiadol hwn:

*"Mae'r ymateb yn honni bod ansicrwydd ar hyn o bryd ynghylch pryd y daw cynlluniau datblygu lleol i ben, sy'n parhau gyda'r Bil Cynllunio. Mae'n bosibl ei fod hefyd yn awgrymu y gallai'r Bil achosi i gynlluniau ddod i ben yn gynharach nag y byddent fel*

[237] Llywodraeth Cymru, Dyddiadau y bydd Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn dod i ben: llythyr i awdurdodau lleol, 24 Medi 2020
[238] PCB07 Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, tudalen 6 [Saesneg yn unig]
[239] Llythyr at Gadeiryddion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, 21 Hydref 2025
[240] Llythyr gan Gadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, 10 Tachwedd 2025

*arall. Nid ydym yn cytuno bod unrhyw ansicrwydd nac y byddai'r Bil yn newid unrhyw beth.*

*Cafodd adran 62 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ei diwygio gan adran 12 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, a ddaeth i rym ar 4 Ionawr 2016. Mewnosododd adran 62(3B) newydd a oedd yn mynnu bod cynlluniau datblygu lleol yn pennu'r cyfnodau y byddent mewn grym. Nid oedd yn ôl-berthnasol i gynlluniau datblygu lleol a oedd eisoes wedi cael eu mabwysiadu, nac yn mynnu eu bod yn cael eu diwygio. Mewnosododd hefyd adran 62(9), sy'n gwneud darpariaeth i effaith cynlluniau datblygu lleol ddod i ben ar ôl diwedd y cyfnod a bennir o dan is-adran (3B). Nid yw'n berthnasol i unrhyw gyfnodau a oedd wedi eu pennu mewn cynlluniau datblygu lleol a fabwysiadwyd cyn i adran 62(3B) ddod i rym ar 4 Ionawr 2016, oherwydd nad oedd y cyfnodau hynny wedi eu pennu o dan is-adran (3B).*

*Mae adran 19(5) a (9) o'r Bil Cynllunio yn ailddatgan adran 62(3B) a (9) o Ddeddf 2004 yn union yr un fath fwy neu lai. Yn benodol, mae adran 19(9) yn gwneud darpariaeth i effaith cynllun ddod i ben ar ôl diwedd 'y cyfnod a bennir o dan is-adran (5)'. Bydd y cyfeiriad at y cyfnod 'a bennir o dan is-adran (5)' yn cynnwys cyfnod a bennwyd o dan adran 62(3B) pan oedd mewn grym, ond ni fydd yn cynnwys unrhyw gyfnod a oedd wedi cael ei bennu mewn cynllun a fabwysiadwyd cyn i adran 62(3B) ddod i rym. Bydd adran 35(2) a (4) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn sicrhau bod cyfnodau a bennwyd o dan adran 62(3B) yn dal i gael effaith fel pe baent wedi'u pennu o dan adran 19(5) o'r Bil Cynllunio, ac yn fwy cyffredinol bod cynlluniau datblygu lleol sydd eisoes yn bodoli yn dal i gael yr un effaith ag o'r blaen ar ôl i'r Bil Cynllunio ddod i rym, felly ni fydd y sefyllfa'n newid. Mae paragraff 2 o Atodlen 5 i'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) yn dweud yn glir bod y darpariaethau trosiannol ac arbed yn yr Atodlen honno yn berthnasol hefyd i adran 35 o Ddeddf 2019, ac nad ydynt yn cyfyngu ar weithredu'r adran honno."*[241]

[241] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Hydref 2025, Atodiad, paragraffau 30 i 32

**211.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym mewn tystiolaeth lafar ei bod yn credu bod llythyr 2020 wedi datrys y mater, gan fod y darpariaethau yn ymwneud â chynlluniau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2015 yn dod i ben, a'u bod yn berthnasol i gynlluniau a oedd yn bodoli eisoes.[242] Ychwanegodd Dr James George:

> *"… it would have been possible for the Schedule of transitional and saving provisions in the consequential provisions Bill to say … that sections 19(5) and (9) about the expiry of plans don't apply to local development plans that were adopted before 4 January 2016, but we think that's clear anyway, so we don't think we need to say that."*[243]

## Adran 86 – Cyfuno ceisiadau am ganiatâd cynllunio â cheisiadau eraill

**212.** Mae adran 86 o'r Bil Cynllunio yn nodi y gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i alluogi ceisiadau am ganiatâd cynllunio i gael eu cyfuno ag "unrhyw gais arall y mae deddfiad a bennir yn y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol ei wneud i awdurdod cynllunio neu awdurdod lleol arall mewn cysylltiad â'r un datblygiad". Mae'r ddarpariaeth hon yn tarddu o adran 332(1) o Ddeddf 1990 sy'n darparu:

> *"Regulations made under this Act may provide for the combination in a single document, made in such form and transmitted to such authority as may be prescribed, of—*
>
> *(a) an application for planning permission, or permission in principle, in respect of any development; and*
>
> *(b) an application required, under any enactment specified in the regulations, to be made to a local authority in respect of that development."*

**213.** Cwestiynodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a yw adran 86 o'r Bil yn mynd ychydig y tu hwnt i gydgrynhoi o ran caniatáu cyfuno ceisiadau am ganiatâd cynllunio â cheisiadau eraill.[244] Gwnaeth RTPI Cymru sylwadau tebyg.[245]

---

[242] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [171]
[243] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [173]
[244] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [21]
[245] PCB06 RTPI Cymru, tudalen 4 [Saesneg yn unig]

**214.** Yn llythyr y Cwnsler Cyffredinol dyddiedig 28 Hydref 2025, cadarnhaodd Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol nad yw adran 86 "yn ddarpariaeth newydd", a'i fod yn ailddatgan adran 332 o Ddeddf 1990, "gyda mân newidiadau drafftio".[246]

## Ein barn ni

**215.** Nodwn y dystiolaeth a gafwyd gan y Cwnsler Cyffredinol, ei swyddogion a rhanddeiliaid mewn perthynas â'r cwestiwn a yw'r Biliau yn cydgrynhoi'r gyfraith yn glir ac yn gyson.

**216.** Rydym yn cydnabod yr awgrymiadau ac, mewn perthynas â rhai materion, bryderon a godwyd gan randdeiliaid mewn perthynas ag eglurder y ddeddfwriaeth.

**217.** Er bod gwahanol safbwyntiau wedi'u mynegi i ni ynghylch eglurder rhai darpariaethau yn y Biliau, rydym wedi ystyried yn ofalus esboniadau'r Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion am ymagwedd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r darpariaethau dan sylw, ac rydym yn fodlon i raddau helaeth.

**Casgliad 4.** Rydym yn ystyried bod y Biliau yn cydgrynhoi'r gyfraith yn glir ac yn gyson.

**218.** Fodd bynnag, gan fod dau awdurdod cynllunio wedi codi cwestiynau ynghylch darpariaeth yn y Bil Cynllunio ar rôl awdurdodau parciau cenedlaethol, credwn fod mwy o reidrwydd ar Lywodraeth Cymru i ddarparu mwy o eglurder ar y mater hwn.

**219.** Yn arbennig, nodwn fod Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi dweud wrthym ei bod yn ymddangos bod ymagwedd ychydig yn wahanol yn ailddatganiad y Bil Cynllunio o adran 2(1B) o Ddeddf 1990 o fewn adran 9 o'r Bil, sy'n caniatáu i reoliadau ddynodi ardal sy'n cynnwys parc cenedlaethol cyfan, neu ran ohono, fel ardal gydgynllunio.

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol gadarnhau nad yw adran 9 o'r Bil Cynllunio (Cymru) yn cynnwys unrhyw newidiadau i gyfraith bresennol ac egluro ei rheswm dros y farn honno.

**220.** Credwn hefyd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried a all adran 19 o'r Bil Cynllunio ar gynlluniau datblygu lleol elwa ar fwy o eglurder. Rydym yn ystyried

[246] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Hydref 2025, Atodiad, paragraff 17

bod hyn yn angenrheidiol gan fod dau awdurdod cynllunio wedi dweud wrthym y dylai adran 19(9) nodi mai dim ond i gynlluniau datblygu lleol a fabwysiadwyd ar ôl dyddiad cychwyn Deddf 2015 y mae ei darpariaeth yn berthnasol, ac nad yw'n berthnasol yn ôl-weithredol i gynlluniau a fabwysiadwyd cyn y dyddiad hwn. Gan fod y mater hwn yn berthnasol i bob awdurdod cynllunio, rydym o'r farn bod angen i Lywodraeth Cymru eu hysbysu am ganlyniad ei hystyriaeth.

**Argymhelliad 4.** Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan randdeiliaid, dylai'r Cwnsler Cyffredinol ystyried ymhellach a all adran 19(9) o'r Bil Cynllunio (Cymru) elwa ar eglurder ychwanegol, a dylai ysgrifennu at bob awdurdod cynllunio i adrodd ar ei hystyriaeth.

**221.** Yn seiliedig ar ein hystyriaeth o gwmpas y Biliau a'r newidiadau y maent yn eu gwneud (fel y trafodwyd yn y ddwy bennod flaenorol), a hefyd ein hystyriaeth ynghylch a yw'r Biliau yn cydgrynhoi'r gyfraith yn glir ac yn gyson, rydym o'r farn y dylai'r Biliau barhau fel Biliau Cydgrynhoi.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) barhau fel Biliau Cydgrynhoi.

# 6. Gweithredu a gwerthuso llwyddiant

Fel rhan o'n hystyriaeth o'r Biliau, rydym wedi edrych ar gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu (os caiff y Biliau eu deddfu) ac wedi ystyried hefyd sut y gall Llywodraeth Cymru werthuso llwyddiant yr ymarfer cydgrynhoi hwn.

## Gweithredu

**222.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at gyfnod gweithredu o 18 mis yn 2026 i 2027 ar gyfer y Bil Cynllunio, os caiff ei basio gan y Senedd a'i ddeddfu.[247] Cadarnhaodd llythyr y Cwnsler Cyffredinol dyddiedig 10 Hydref 2025 y disgwylir i'r Biliau gychwyn o fewn 18 mis i'r Cydsyniad Brenhinol.[248]

**223.** Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi, yn ogystal â pharatoi is-ddeddfwriaeth (fel yr ystyrir yn yr is-adran nesaf), y bydd y meysydd gwaith canlynol yn rhan o weithredu'r Biliau:

- creu canllawiau newydd i helpu'r holl randdeiliaid i ddeall y Bil Cynllunio a'r ffordd y bydd yn effeithio arnynt;
- cynnal gweminarau ymgyfarwyddo ar gyfer awdurdodau cynllunio;
- canslo Nodyn Cyngor Technegol ar Barthau Cynllunio Syml a chyfarwyddyd dymchwel;
- diweddaru rhai o dudalennau gwe Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ffurflenni cais cynllunio a dogfennau polisi a chanllawiau amrywiol;
- diweddaru tudalennau gwe awdurdodau cynllunio, gan gynnwys ffurflenni cais a thempledi; a
- diweddaru systemau awdurdodau cynllunio ar gyfer prosesu ceisiadau cynllunio.[249]

[247] Memorandwm Esboniadol, paragraff 60
[248] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 10 Hydref 2025, paragraff 28
[249] Memorandwm Esboniadol, paragraffau 66, 68 a 70 i 72

**224.** Rhoddodd RTPI Cymru y persbectif canlynol mewn perthynas â gweithredu'r Biliau, pe baent yn cael eu deddfu:

> *"… we've spent decades as practitioners understanding things like section 106 agreements, section 78 variations. All of those numbers, all of those legal clauses, will change, but we'll get used to it, and there's a table of destinations provided in the Bill, which is extremely helpful. So, we'd ask that that remains and that it gets updated as the codification process rolls on over the years, as needed."*[250]

**225.** Dywedodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru fod safon y deunyddiau esboniadol a baratowyd ochr yn ochr â'r Biliau yn uchel iawn, gan nodi bod y tabl trawsleoli yn arbennig o ddefnyddiol i ymarferwyr.[251] Nododd hefyd:

> *"Welsh Government have been very good in the past at producing template documents for LPAs [local planning authorities], so template decision notices, template advertisements. Those sorts of documents could be very helpful for LPAs and would stop 25 authorities having to scratch their heads and start from the beginning. So, we would welcome further tools along those lines, if it was possible."*[252]

**226.** Yn yr un modd, tynnodd RTPI Cymru sylw hefyd at yr angen am gyfathrebu parhaus i gefnogi ymarferwyr gyda dysgu ar y cyd.[253] Nododd hefyd:

> *"… what's really important to us is, perhaps, ongoing support as the Bill is enacted and comes into place. So, alongside the explanatory materials, any other resources to support practitioners, any training guides or courses, both as the Bill progresses to its last stages, and then in actually implementing the Act would be really helpful to practitioners."*[254]

**227.** Croesawodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddarparu canllawiau a gweminarau, ac i gynnal gweithgareddau cysylltiedig eraill i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Bil Cynllunio,

---

[250] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [103]
[251] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [38]
[252] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [38]
[253] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [109]
[254] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [138]

ond pwysleisiodd yr angen i ddarparu seminarau i ymarferwyr preifat yn ogystal ag awdurdodau cynllunio.[255]

**228.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhanddeiliaid gyda phob math o bethau, gan gynnwys canllawiau, drafftio nodiadau a gweminarau.[256] Dywedodd hefyd fod gan Lywodraeth Cymru amserlen ar gyfer y gwaith hwn, ond:

> *"… my own view … would be very much that you have to make sure that you've got the stuff available for when people start to realise they need it, and that won't be immediately; it will be when it's in force and people start coming through the doors of various planning offices or legal offices and ask questions. And at that point, people think, 'Oh, I wonder if there's a webinar that I can have a look at on this,' or some continual professional development-type structure, and we'll be assisting with that."*[257]

**229.** Dywedodd Dion Thomas, Pennaeth Deddfwriaeth a Pherfformiad yng Nghyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru, y byddai Llywodraeth Cymru yn ei gwneud hi mor hawdd â phosibl i randdeiliaid weithredu'r ddeddfwriaeth. Ychwanegodd:

> *"So, if it's for planning authorities, we've heard some evidence around templates and they've got notices, et cetera. Well, we can provide a table to identify what are those notices and what changes need to happen. We can't physically change it for them, because we don't have access to their back-office systems. But we can give them the information, so that they can do it relatively quickly and easily."*[258]

**230.** Dywedodd Dion Thomas hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn asesu'r galw am weminarau, ac esboniodd:

> *"We are factoring in to hold them. But also, anyway, as part of our business as usual … We're invited to various events to talk*

[255] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [46]
[256] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [244]
[257] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [248]
[258] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [228]

*about what's going on in the planning directorate more generally, and we've been using that network to be able to get up to the point that we have now, really, and we'll continue to do that, moving forward, as well as holding more formal events in that respect."*[259]

**231.** Tynnodd Charles Felgate o Geldards LLP sylw at yr angen i ddeunyddiau cyfeirio gael eu cynhyrchu mewn perthynas â chyfraith cynllunio yng Nghymru:

*"There are many excellent text books on planning law but very few (if any) are focussed on Wales. There is a section on Wales in the excellent Encyclopaedia of Planning Law and Practice published by Sweet and Maxwell, which is an updated service which was prominent on any sensible practitioners bookshelves (when we had such things). The Welsh Ministers need to ensure that the Bill (if enacted) receives some sensible academic discussion as to how it differs from English law and that this is reflected in appropriate reference material. I am not sure how that is best achieved but Wales is a small country and it will not necessarily be financially viable to depend on private organisations to achieve this. It is however a necessary to achieve the aim of accessibility of the law."*[260]

**232.** Yn yr un modd, nododd Cymorth Cynllunio Cymru:

*"We would stress the importance of ensuring that the eventual legislation is not only drafted with clarity and consistency but also supported by accessible resources to raise awareness and understanding amongst the public. In our view, there is significant value in producing plain-language, easy-to-read guidance to accompany the Bills once enacted. Such materials would help communities and individuals recognise the relevance of the legislation to their rights and responsibilities within the planning system, and in turn, strengthen public trust and participation."*[261]

[259] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [249]
[260] PCB03 Charles Felgate, Geldards LLP, tudalen 4 [Saesneg yn unig]
[261] PCB04 Cymorth Cynllunio Cymru [Saesneg yn unig]

**233.** Yn ogystal, dywedodd RTPI Cymru:

> *"Going forward, there appears to be a place for a 'Guide' to Welsh Planning Law which explains planning law as it applies in Wales and to what extent legal principles established through judgments of the Courts are applicable in Wales. Following enactment of a Welsh Code the current legal reference books, which are structured primarily around the law as it applies in England, will become less helpful to practitioners working in Wales."*[262]

**234.** Yn yr un modd, awgrymodd UKELA y dylai Llywodraeth Cymru:

> *"… publish a concordance or plain-comment, public-friendly guide alongside the Bill as enacted and consider engagement or training to support users during the transition from any current provisions and the new legislation."*[263]

**235.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym y byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu darparu gwerslyfrau newydd a diwygiedig ar gyfraith cynllunio yng Nghymru, ac ymhelaethodd:

> *"One of the things, as any practitioner in law in Wales will tell you, that is very annoying is to look something up in some encyclopaedia, find an asterisk, look up the asterisk at the bottom of the page and find, 'Not in force in Wales', without it telling you what is in force in Wales. It drives me mad. So, yes, it's encouraging people to put the textbooks in place, to make sure this happens.*
>
> *We're aware that the University of Wales Press published Welsh Planning Law and Practice in 2017. We hope very much they'll commission one based on the new law and that they're all aware of this legislation. We'll try and make sure that we do."*[264]

**236.** Dywedodd hefyd y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru siŵr o fod ymyrryd mewn rhyw ffordd i sicrhau bod darpariaeth yn cael ei gwneud, oherwydd:

---

[262] PCB06 RTPI Cymru, tudalen 5 [Saesneg yn unig]
[263] PCB09 UKELA, paragraff 11 [Saesneg yn unig]
[264] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [252]

> *"One of the problems we have in Wales is that it's not commercially viable sometimes to do these things. Well, certainly this Government, and I imagine any future Government, is going to want to take the view that they are happy to assist with that, and we publish our own planning policy documents, and so on, for that reason."*[265]

## Is-ddeddfwriaeth

**237.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n sail i gyfraith cynllunio yng Nghymru, bod "cyfres gynhwysfawr o is-ddeddfwriaeth, a dogfennau polisi a chanllaw, gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru, Nodiadau Cyngor Technegol, Cylchlythyron a Llythyrau Egluro".[266]

**238.** Mae'r Bil Cynllunio yn ymgorffori rhai darpariaethau o is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau sy'n cael eu cydgrynhoi er mwyn sicrhau cydgrynhoi mwy boddhaol (gweler paragraffau 170 i 175 am ragor o fanylion).

**239.** Yn ogystal, bydd angen is-ddeddfwriaeth newydd i ddod â'r ddeddfwriaeth sylfaenol i rym, fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Mae'r broses o roi'r Bil Cynllunio ar waith yn cynnwys meysydd gwaith sy'n ofynnol er mwyn sicrhau y gall y gyfraith, ac felly'r system gynllunio, barhau i weithredu'n effeithiol ar y diwrnod y caiff y Ddeddf ei chychwyn. Llywodraeth Cymru fydd yn ymgymryd â'r mwyafrif o'r meysydd gwaith hyn, sy'n cynnwys paratoi is-ddeddfwriaeth sy'n ofynnol er mwyn dod â'r ddeddfwriaeth newydd i rym yn llawn. Mae'r is-ddeddfwriaeth yn cynnwys rheoliadau newydd ar goed a rheoliadau ar wneud diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth. Efallai y bydd angen ymgynghori ar rai."*[267]

**240.** Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol mewn gohebiaeth y bydd y gwaith a ragwelir i baratoi rheoliadau i wneud diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth bresennol yn cynnwys dirymu darpariaethau sydd wedi'u cydgrynhoi yn Neddf Cynllunio (Cymru) (erbyn hynny).[268]

---

[265] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [252] a [253]
[266] Memorandwm Esboniadol, paragraff 10
[267] Memorandwm Esboniadol, paragraff 64
[268] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 10 Hydref 2025, paragraff 29

**241.** Yn ogystal â'r is-ddeddfwriaeth hon, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cydgrynhoi is-ddeddfwriaeth cynllunio gwlad a thref allweddol er mwyn ategu'r Bil Cynllunio (fel y cyhoeddwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru ac y cyfeirir ato ym mharagraff 10). Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r dull a ragwelir:

> *"O ystyried swm yr is-ddeddfwriaeth a'r canllawiau sy'n gysylltiedig â chynllunio a gan ystyried yr angen i reoli adnoddau yn y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, nid oes modd diweddaru a chydgrynhoi yr holl is-ddeddfwriaeth ar yr un pryd, a sicrhau bod y Deddfau'n cael eu cychwyn mewn modd amserol. Bydd y gyfres o is-ddeddfwriaeth sy'n weddill yn parhau i gael ei chydgrynhoi a'i diweddaru ar ôl cychwyn y Ddeddf Cynllunio … Gwneir hyn fesul cam er mwyn cyd-fynd ag unrhyw ddiwygiadau polisi pwysig i offerynnau unigol a chaiff y gwaith ei arwain hefyd gan y darnau hynny o ddeddfwriaeth a gaiff eu defnyddio amlaf gan ymarferwyr."*[269]

**242.** Rhoddodd y Cwnsler Cyffredinol ragor o wybodaeth am y rhaglen waith hon mewn gohebiaeth:

> *"Caiff yr amserlenni ar gyfer ailddatgan gweddill y ddeddfwriaeth eu llywio gan b'un a gynigir diwygiadau mawr i offeryn ac i ba raddau y defnyddir y deddfiad gan ymarferwyr. Ar hyn o bryd, ni chynigir y dylid cyflwyno llai o reoliadau hirach, ond caiff hyn ei adolygu'n rheolaidd wrth i'n dadansoddiad gael ei gwblhau ac wrth i raglen gael ei datblygu."*[270]

**243.** Dywedodd RTPI Cymru:

> *"… where we do have a question mark at the moment … is just where the secondary legislation and the regs that are in place now fit. Once this is enacted, we need everything to flow to keep working. So, to name three elements, things like the use classes Order from 1987, the general development procedure Order and the general permitted development Order are day-to-day stuff in the operation of planning, so we'd need to understand what happens to those, because they're embedded in existing legislation that will then no longer apply in Wales. … we just*

[269] Memorandwm Esboniadol, paragraff 65
[270] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 10 Hydref 2025, paragraff 31

*need—it's one for the legal experts—reassurance that either that's updated in time or the existing situation continues without a gap, to make sure that things can keep working."*[271]

**244.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, nododd RTPI Cymru nad yw'r wybodaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn y dogfennau sy'n cefnogi'r Biliau yn nodi pa eitemau o is-ddeddfwriaeth sydd wedi'u cynnwys yn ei rhaglen gydgrynhoi, na'r amserlenni ar gyfer y gwaith hwnnw.[272]

**245.** Cefnogodd Annabel Graham Paul, sy'n cynrychioli Cymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd, gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglen o gydgrynhoi is-ddeddfwriaeth[273], ond galwodd am eglurder ynghylch a fyddai'r is-ddeddfwriaeth bresennol, fel y rhai y cyfeirir atynt gan RTPI Cymru, yn parhau i fod yn berthnasol ar ôl i'r Bil Cynllunio gael ei ddeddfu.[274]

**246.** Yn yr un modd, galwodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru am i eglurder o'r fath gael ei ddarparu[275], a gofynnodd yn benodol a fyddai'r rheoliadau cyfuno o dan yr ardoll seilwaith cymunedol[276] yn parhau i fod yn berthnasol yn dilyn deddfu'r Bil Cynllunio.[277]

**247.** Mewn gohebiaeth, ceisiodd y Cwnsler Cyffredinol roi rhywfaint o sicrwydd:

> *"… na fydd dod â'r Bil Cynllunio (Cymru) i rym yn newid effaith unrhyw un o'r is-ddeddfwriaethau presennol (ac eithrio yn yr achosion hynny lle mae darpariaethau sy'n rhan o is-ddeddfwriaethau ar hyn o bryd yn cael eu hailddatgan yn y Bil – sydd i gyd wedi'u nodi yn y tablau tarddiad a'r tablau cyrchfan yn ogystal â Nodiadau'r Drafftwyr). Mae hwn yn bwynt arall y gellir rhoi sylw iddo mewn canllawiau os daw'r Bil yn ddeddf.*
>
> *Mae adran 35 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn ymdrin yn benodol â'r sefyllfa pan fydd deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli yn cael ei diddymu a'i hailddeddfu mewn Deddf gan y Senedd. Mae adran 35(3) yn gwneud darpariaeth, pe gallai is-*

[271] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [144]
[272] PCB06 RTPI Cymru, tudalen 2 [Saesneg yn unig]
[273] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [194]
[274] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [195]
[275] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [50]
[276] Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (Rhif 948), rheoliad 123(3)
[277] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [18]

*ddeddfwriaeth a wnaed o dan y ddeddfwriaeth a ddiddymwyd gael ei gwneud hefyd o dan y Ddeddf newydd, ei bod yn parhau i gael effaith fel pe bai wedi cael ei gwneud o dan y Ddeddf newydd. Mae darpariaethau tebyg wedi bod yn berthnasol i brosesau cydgrynhoi cynharach. Er enghraifft, gwnaethpwyd Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971, ond mae iddo bellach yr effaith fel pe bai wedi cael ei wneud o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Os daw'r Bil Cynllunio (Cymru) yn ddeddf, pan ddaw'r Bil i rym bydd y gorchymyn hwnnw'n parhau i gael effaith mewn perthynas â Lloegr fel pe bai wedi'i wneud o dan Ddeddf 1990, ac fel pe bai wedi cael ei wneud o dan y Bil mewn perthynas â Chymru.*

*Mae adran 35(2) o Ddeddf 2019 hefyd yn sicrhau y bydd unrhyw gyfeiriadau mewn is-ddeddfwriaeth at ddarpariaethau sy'n cael eu cydgrynhoi yn y Bil Cynllunio (Cymru) yn cael eu darllen yn y dyfodol fel cyfeiriadau at ddarpariaethau cyfatebol y Bil. Er bod adran 35(2) yn sicrhau bod is-ddeddfwriaeth yn dal i weithio'n gywir, nid yw'n helpu hygyrchedd y gyfraith yn y cyd-destun hwn. Felly, byddwn yn disgwyl i reoliadau gael eu gwneud o dan adran 4 o'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) a fydd yn diwygio testun cyfeiriadau mewn is-ddeddfwriaeth fel eu bod yn cyfeirio at ddarpariaethau cywir y Bil."*[278]

**248.** Mewn tystiolaeth lafar, cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol y safbwynt hwn[279], a rhoddodd ragor o wybodaeth ynghylch yr is-ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol i roi'r Bil Cynllunio ar waith:

*"… there will be a need to have a new instrument to make consequential amendments to existing subordinate legislation, so that they refer to the correct part of the consolidation Act and not to the Town and Country Planning Act or to whatever else it is that they refer to.*

[278] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Hydref 2025, pwynt 3
[279] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [201]

*That's quite a substantial Welsh statutory instrument to do, and it will need to be completed early in the new Senedd term in order to give a coherent set of laws to make sure that the consolidation project, if you want, continues on, so that it's simplified all the way through … So, I would expect the incoming Welsh Government to enact the new statutory instrument as one of its first priorities, and indeed this Government will make sure we've done a lot of the preparatory work necessary to make sure that that can be done early doors."*[280]

**249.** Rhoddodd Dion Thomas wybodaeth ychwanegol am yr is-ddeddfwriaeth a ragwelir sy'n gysylltiedig â rhoi'r Bil ar waith:

*"… we do have plans that we have to bring forward new tree regulations, because we are bringing forward the existing provisions around trees, but with amendments from the Planning Act 2008 that haven't been commenced in Wales, and they require new legislation. We have consulted upon those already, and that is something that will be coming forward as well as part of the commencement of the Bill. … there's a large package of subordinate legislation that fits under the primary legislation, so we're hoping to be able to do a small number of those as part of the implementation of the Bill, but we've also got to bear in mind that we want to try and commence the Bill as quickly as possible at the same time. And that wider consolidation of subordinate legislation will be a programme, then, that will follow after the Bill comes into effect, basically."*[281]

**250.** Roedd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru yn cefnogi bwriad Llywodraeth Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth bellach o dan y Bil Cynllunio mewn dull graddol, gan ei ddisgrifio fel cam priodol ac ymarferol. Gwnaethant ymhelaethu:

*"… if we were to wait for a time when it can all be put together then we would be waiting quite a significant period of time,*

[280] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [201] a [202]
[281] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [205]

> *and … some of the subordinate legislation will be more tricky to do than this [Planning Bill] …".*[282]

**251.** Fodd bynnag, gwnaethant hefyd alw am fap trywydd clir o'r is-ddeddfwriaeth i'w gwneud o dan y Bil Cynllunio, ac am ymgysylltu â rhanddeiliaid i hysbysu pa ddarnau sy'n dod gyntaf neu ba rai sy'n cael eu blaenoriaethu.[283]

**252.** Mewn perthynas â dull graddol Llywodraeth Cymru o wneud is-ddeddfwriaeth bellach o dan y Bil Cynllunio, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

> *"… one of the conundrums that all Governments have is how much resource to put to tidying up the law and making it more accessible and how much resource to put to policy and reform Bills. And we're always trying to balance off … there are pages and pages of SIs that are needed to tidy stuff up, but they require a resource from parliamentary draftspeople and others that would otherwise be able to be used on developing policy and reform Bills. So, the incoming Government, whoever they might be, will face that conundrum. This outgoing Government will have lined up as much as possible. … But, in the end, the new Government is going to have to make decisions about how much of its resource to devote to continuing this piece of work, which I very much hope they will, and how much resource will have to be diverted on to new reforms and other projects."*[284]

**253.** Ychwanegodd:

> *"So, what you want to do is make sure as a Government … [is that] the law is both practical and accessible, but also enforceable during the process. So, all of that's about what's currently in force, what we need to change, when is that enacted, when does the thing come into force in the first place, and all of that has to be carefully calibrated. So, at what point in time does the consolidation then Act, hopefully, come into force is a matter for judgment around how accessible is the*

[282] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [53]
[283] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [53]
[284] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [206]

> *law, how enforceable is it, how usable in the courts is it, how usable is it for local planning authorities. …*
>
> *Stakeholders will know the law already, they can see what's coming up, they have to get used to a little bit of terminology change, perhaps, and a bit more modern language, but otherwise we are simply restating the law as it is. And then it's a judgment call for how much of the SIs need to be in place to make it a coherent piece.*
>
> *Members of the committee will be familiar with the use classes order; it's one of the things most of my constituents know about. That might be one of the things we want to have a look at first, because that's one of the most common things people use … But we'd expect, you know, within sort of a year, 18 months, to have most of it up and running, assuming the new Government incoming has a similar attitude to wanting the law to be accessible."*[285]

**254.** Cadarnhaodd Dion Thomas i ni mewn tystiolaeth lafar, yn amodol ar fwriadau Llywodraeth newydd, y byddai'r gorchymyn dosbarthiadau defnydd a'r gorchymyn gweithdrefn rheoli datblygiad yn cael eu gwneud fel rhan o'r broses o roi'r Bil ar waith ac y bydd popeth arall yn dilyn ar ôl hynny.[286] Dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi dechrau ar y gwaith o baratoi canllawiau i gefnogi'r Biliau, os cânt eu pasio gan y Senedd, ond y bydd yn cyflymu'r gwaith hwnnw nes i'r Biliau gychwyn.[287]

## Cod cynllunio

**255.** Mae adran 1(1) o'r Bil Cynllunio yn nodi y bydd y Bil, ar ôl ei ddeddfu, yn ffurfio rhan o god cyfraith Cymru sy'n ymwneud â chynllunio. Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn esbonio perthnasedd y datganiad hwn:

> *"Mae'r datganiad hwn wedi ei gynnwys i wella hygyrchedd y gyfraith yng Nghymru ac fe'i cynhwysir mewn Deddfau cydgrynhoi yn y dyfodol ac mewn unrhyw Ddeddfau diwygio*

[285] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [211] i [213]
[286] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [214]
[287] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [241]

> *sy'n cynnwys datganiad cynhwysfawr o'r ddeddfwriaeth sylfaenol ar bwnc.*
>
> *Bwriedir i'r datganiad o statws hwn helpu personau a chanddynt diddordeb yn y gyfraith ar bwnc penodol — cynllunio gwlad a thref yn yr achos hwn — i ddod o hyd iddi a'i dosbarthu'n haws. Mae'r cyfeiriad at statws y Bil wedi ei gynnwys gyda'r nod y bydd is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil yn gwneud darpariaeth sy'n union yr un fath. Bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd deddfwriaeth sylfaenol, isddeddfwriaeth a deddfwriaeth drydyddol (canllawiau yn bennaf) yn cael eu categoreiddio a'u cyhoeddi fel codau cyfraith cydlynol yn y dyfodol.*
>
> *Mae dosbarthu biliau yn y ffordd hon yn gyson ag argymhelliad Comisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru (Com Gyf Rhif 366, 2016). Yn yr adroddiad hwnnw cydnabuwyd pwysigrwydd sicrhau bod y gyfraith yn hygyrch er mwyn cynnal uniondeb y gyfraith. Bwriad rhoi statws cod i Ddeddf yw annog symud oddi wrth sefyllfa lle y mae'r gyfraith ar bwnc penodol wedi ei gwasgaru dros nifer o wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol. Yn hytrach, y bwriad yw y bydd Biliau'r Senedd yn y dyfodol yn cael eu deddfu a'u cynnal mewn ffordd sy'n caniatáu i'r sawl sy'n defnyddio'r ddeddfwriaeth ddod o hyd i gymaint â phosibl o'r gyfraith sy'n effeithio ar bwnc penodol drwy ddarllen un Ddeddf gan y Senedd neu is-ddeddfwriaeth a wneir odani."*[288]

**256.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu gwybodaeth ychwanegol am y datganiad a gynhwysir yn adran 1(1):

> *"… Mae'r statws hwnnw'n arwyddocaol mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi pob deddfiad sy'n rhan o'r Cod gyda'i gilydd. Yr ail yw bod y Llywodraeth hefyd yn rhagweld, yn amodol wrth gwrs ar gytundeb y Senedd, newid i Reolau Sefydlog y Senedd er mwyn ceisio sicrhau bod newidiadau yn y dyfodol i'r gyfraith sy'n ffurfio rhan o God yn cael eu gwneud drwy ddiwygio neu ddisodli'r deddfiadau yn hytrach na gwneud darpariaethau gwahanol*

[288] Nodiadau Esboniadol i'r Bil Cynllunio, paragraffau 9 i 11

> *ac "annibynnol" a fyddai unwaith eto yn arwain at doreth gymhleth o gyfreithiau."*[289]

**257.** Nododd Llywodraeth Cymru y newid y mae'n bwriadu ei wneud i Reolau Sefydlog y Senedd yn ystod taith y Bil a ddaeth yn Ddeddf 2023.[290] Dywedodd ar y pryd y byddai'n codi'r mater gyda'r Pwyllgor Busnes, hyd nes y daw canlyniad taith y Bil hwnnw'n hysbys.[291] Ym mis Gorffennaf 2005, gosododd y Pwyllgor Busnes adroddiad ar ei waith o flaenoriaethu materion gweithdrefnol i'w hadolygu, lle nododd fod y mater yn un "i'w hamlygu i'w hystyried yn ystod y Seithfed Senedd."[292] Rheswm y Pwyllgor Busnes dros ddefnyddio'r dull hwn oedd nad oes "unrhyw godau cyfraith Cymru wedi'u sefydlu" ar adeg yr adroddiad, a'i bod felly'n "rhy gynnar i ystyried a oes angen unrhyw ddiwygiadau gweithdrefnol penodol."[293]

**258.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau na fydd y cod cyfraith amgylchedd hanesyddol ar wahân sy'n bodoli o ganlyniad i Ddeddf 2023 yn cael ei effeithio'n sylweddol gan yr ymarfer cydgrynhoi presennol[294], a bod Llywodraeth Cymru yn cytuno â Chomisiwn y Gyfraith na ddylid cynnwys y gyfraith sy'n ymwneud â chefn gwlad, hawliau tramwy, yr amgylchedd a bywyd gwyllt mewn cod cynllunio[295].

**259.** Yn ogystal, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, er nad yw'r Bil Cynllunio yn cynnwys deddfwriaeth ar sylweddau peryglus, "mae'n parhau'n opsiwn i greu Deddf arall o fewn y Cod Cynllunio yn y dyfodol, sy'n delio â mesurau arbennig ar gyfer rheoli sylweddau peryglus".[296] Mae hefyd yn nodi y byddai cod cynllunio:

> *"… yn y pen draw yn cynnwys deddfwriaeth sy'n ymwneud â dylunio ac adeiladu adeiladau, sydd ar hyn o bryd i'w gweld yn bennaf yn Neddf Adeiladu 1984. Nid yw'r ddeddfwriaeth honno yn cael ei hystyried yn rhan o gyfraith gynllunio.*
>
> *Yn ddiweddar, mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno Bil Diogelwch Adeiladu (Cymru), a fydd yn gwneud darpariaeth am*

---

[289] Memorandwm Esboniadol, paragraff 35
[290] Gweler: Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Gofnod [97] a [98]; a'r Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Awst 2022, paragraffau 21 a 22
[291] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Awst 2022, paragraffau 21 a 22
[292] Y Pwyllgor Busnes, Gwaith gweithdrefnol y Chweched Senedd: Blaenoriaethau, Gorffennaf 2025, adran 5, paragraffau 34 a 35
[293] Y Pwyllgor Busnes, Gwaith gweithdrefnol y Chweched Senedd: Blaenoriaethau, Gorffennaf 2025, adran 5, paragraff 36
[294] Memorandwm Esboniadol, paragraff 42
[295] Memorandwm Esboniadol, paragraff 43
[296] Memorandwm Esboniadol, paragraff 46

*ddiogelwch rhai adeiladau preswyl mewn cysylltiad â'u meddiannaeth. Fel rhan o'i hystyriaeth ymhellach o gynnwys cod cyfraith sy'n ymwneud â thai, bydd y Llywodraeth yn ystyried a fyddai'n fwy priodol bod y Bil hwnnw'n rhan o'r cod sy'n ymwneud â chynllunio ynteu'r cod sy'n ymwneud â thai."*[297]

**260.** Nododd rhaglen ddiwygiedig Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024, nad oedd cynnwys terfynol y cod cynllunio wedi'i bennu eto.[298] Nododd hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol yn ystod tymor y Senedd hwn:

- adolygu ac adolygu'r dacsonomeg ddrafft bresennol o bynciau (a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2018 fel Tacsonomeg Drafft ar gyfer Codau Cyfraith Cymru[299], ac yr ymgynghorwyd arnynt yn 2019[300]) er mwyn sefydlu pa ddeddfiadau mewn meysydd datganoledig y gyfraith ddylai fod yn perthyn i bob haen o'r dacsonomeg; a

- gweithio gyda thîm yr Archifau Cenedlaethol sy'n gyfrifol am legislation.gov.uk i ddarparu ymarferoldeb ychwanegol ar y wefan honno fel y gall defnyddwyr gael mynediad at gyfraith Cymru yn ôl pwnc.[301]

**261.** Gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol, mewn gohebiaeth, roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y dacsonomeg ddrafft yr ymgynghorwyd arni yn 2019. Mewn ymateb, dywedodd y caiff "diweddariadau ar raglen y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol nesaf".[302]

**262.** Dywedodd RTPI Cymru nad oeddent yn siŵr i ba raddau y mae eu haelodau yn deall manteision codeiddio yn y dyfodol yn llawn, er y gallai fod yn rhywbeth y gallent helpu i roi cyhoeddusrwydd iddo.[303] Mewn tystiolaeth ysgrifenedig,

---

[297] Memorandwm Esboniadol, paragraffau 54 a 55
[298] Llywodraeth Cymru, Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd ddiwygiedig 2021 i 2026, Ionawr 2024, paragraff 26
[299] Llywodraeth Cymru, Tacsonomeg Drafft ar gyfer Codau Cyfraith Cymru, Rhagfyr 2018. Fel y nodir yn y ddogfen, datblygwyd tacsonomeg ddangosol fel cymorth i ddeall sut y gellid rhannu'r gyfraith yn Godau. Ar y pryd, rhagwelwyd y byddai Cod arfaethedig ar gynllunio, adeiladu a thir yn cynnwys deddfwriaeth ar gynllunio, cydsyniadau seilwaith, caffael tir a phrynu gorfodol, a rheoliadau adeiladu a rheolaethau adeiladu.
[300] Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad: Dyfodol Cyfraith Cymru: categoreiddio, cydgrynhoi, codeiddio, Hydref 2019
[301] Llywodraeth Cymru, Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd ddiwygiedig 2021 i 2026, Ionawr 2024, paragraff 12
[302] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 10 Hydref 2025, paragraff 33
[303] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [133]

gwnaethant groesawu'r strwythur rhesymegol a dilyniannol y mae cod yn ei ddarparu, gan dynnu sylw at bwysigrwydd cynnal cod:

> *"It is important that this should be preserved whenever additions and modifications are made to the law in the future. We hope that the code will provide the ability to track changes in legislation in the future and be clear about what has been changed, when and why."*[304]

**263.** Ar y cwestiwn a ddylid cynnwys deddfwriaeth ar seilwaith o fewn cod cynllunio, dywedodd RTPI Cymru:

> *"… infrastructure goes hand-in-hand with planning … and likewise the agriculture and countryside legislation, with things like public rights of way being particularly important given the rurality of much of Wales, and the way in which that goes hand in hand with planning. So, I wouldn't suggest it needs to be included now in this Bill, but, as part of a wider code …".*[305]

**264.** Mewn perthynas â chynnwys deddfwriaeth seilwaith mewn cod ar gynllunio, dywedodd Annabel Graham Paul:

> *"… from a practitioner point of view, planning and infrastructure consenting are very interlinked, particularly where you're dealing with infrastructure, where you shift from one system to another quite seamlessly as you just get more and more powerful pieces of infrastructure. So, whilst I fully accept that there needs to be separate Acts—and we have the Infrastructure (Wales) Act 2024 already for that—I think, in terms of perhaps looking at them holistically together, and perhaps in a code, that is something that should be treated as part and parcel of the same type of work."*[306]

**265.** Gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol nodi cynnwys terfynol disgwyliedig Llywodraeth Cymru ar gyfer cod cynllunio. Wth ymateb, dywedodd:

> *"… 'it will grow' is the answer. So, it will start off with the Bill and any subordinate legislation enacted under it, and that will grow*

[304] PCB06 RTPI Cymru, tudalen 2 [Saesneg yn unig]
[305] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [135]
[306] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [181]

*as it goes, and then eventually you would expect it to include any guidance that's been put out, and any interpretation advice that's been put out, and so on. The idea is that … you would have something that could comprehensively tell you what it is that's in force in Wales and how to interpret it."*[307]

**266.** Gwnaethom hefyd ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol esbonio pam nad oedd rhai meysydd o'r gyfraith, gan gynnwys prynu gorfodol a seilwaith, yn addas i'w cynnwys yn y cod. Yn ei hymateb, dywedodd wrthym:

*"… you've got to draw the line somewhere. We've taken a view on where that line should be drawn. Other lines were possible, but that was the view we took. I think there really is, for a future Government, a piece of work to be done on codification of agricultural law that will touch up against this in a big way. There are others that we are looking at—compulsory purchases were mentioned just recently, for example—but we've drawn a line where we think it makes sense."*[308]

**267.** Pan ofynnwyd iddi egluro ar ba blatfform y bydd y cod yn bodoli, mynegodd y Cwnsler Cyffredinol obaith y bydd yn cael ei gyhoeddi'n ganolog, a dywedodd ei bod yn disgwyl iddo fod ar gael ar wefannau deddfwriaethol y DU, ond y byddai Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei fod yn hygyrch ar ei gwefan.[309] Esboniodd Claire Fife, Pennaeth Swyddfa Codau Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru:

*"Currently, the historic environment code is published on Cyfraith Cymru. We would expect, if enacted, the planning code to be also on there, or maybe, if in the future we change that system, it would be on gov.wales. But it would be a Welsh Government website that is publishing the code—so, that's the primary, the subordinate and the quasi legislation. We can signpost out to other legislation that might be of relevance to planning authorities."*[310]

---

[307] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [257]
[308] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [277]
[309] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [261]
[310] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [262]

**268.** Mewn perthynas â sylwadau RTPI Cymru am yr angen i gynnal a chadw cod cyfraith Cymru, ac i ddarparu ffordd o olrhain newidiadau mewn deddfwriaeth, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

> *"I would expect, on a UK level, for Welsh legislation to be included … so you ought to be able to do that. But we will ensure that our own websites also pick that up, so that you can look up the law as it was in force in 2016, or as it is in force now, because, actually, sometimes that's relevant even in active cases. It's not just a historical interest. Sometimes you're looking at a certificate of lawful use or something, and you might need to know what the law said in the first place. There are occasions on which you actually require that for current practice."*[311]

## Gwerthuso llwyddiant

**269.** Mae'r Bil Darpariaethau Canlyniadol yn gwneud mân gywiriadau i Ddeddf 2023.[312] Felly, gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol nodi dull disgwyliedig Llywodraeth Cymru o adolygu'r Biliau a'u heffaith, ar ôl iddynt gael eu deddfu a'u gweithredu. Mewn ymateb, dywedodd:

> *"Of course we need to review all Acts. I think I appeared in front of this committee when I was the member in charge of the legislation [Procedure, Publication and Repeals) (Wales)] Bill, and said that we needed to do reviews all the time but that we need to make sure that we review them in context and so on. I think it's particularly important to review legislation where the law is changing so that you make sure that you're doing it properly. But in this case … the intention is that the legal effect of the current legislation is generally maintained. So, the review or evaluation should be focused on whether the consolidation has delivered the accessible and clearer understanding of the law, rather than the policy review that you would get with policy legislation, if that makes sense. It's also important that it happens, but what you're reviewing is: did the consolidation*

[311] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [267]
[312] Gweler, er enghraifft, paragraffau 42, 47, 48 a 50 o'i Atodlen 3.

> *work? I can't commit the next Government to that review, but … I agree that it's very important it's done."*[313]

**270.** Roedd ein hadroddiad ar y Bil a ddaeth yn Ddeddf 2023 yn argymell y dylai'r Pwyllgor Busnes adolygu Rheol Sefydlog 26C ar ôl i'r ddau Fil Cydgrynhoi cyntaf gael eu hystyried gan y Senedd.[314] Yn ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2025 ar flaenoriaethu materion gweithdrefnol i'w hadolygu, nododd y Pwyllgor Busnes, oherwydd amseriad cyflwyno'r Bil Cynllunio a'r Bil Darpariaethau Canlyniadol, na fyddai digon o amser ar ôl i alluogi adolygiad gweithdrefnol i gael ei gynnal cyn diwedd y Chweched Senedd.[315]

## Ein barn ni

**271.** Rydym yn nodi'r dystiolaeth a gafwyd gan y Cwnsler Cyffredinol, ei swyddogion a rhanddeiliaid mewn perthynas â gweithredu'r Biliau, pe baent yn cael eu pasio a'u deddfu.

**272.** Rydym yn croesawu cynlluniau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r gwaith hwn, yn enwedig y gwaith o baratoi canllawiau a darparu gweminarau i randdeiliaid. Nodwn hefyd farn rhanddeiliaid bod y dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Biliau eisoes yn ddefnyddiol i'r rhai sy'n ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth arfaethedig.

**273.** Rydym yn cydnabod mai Llywodraeth nesaf Cymru fydd yn bwrw ymlaen â'r gwaith pwysig hwn, felly rydym yn gobeithio y bydd yn cael ei symud ymlaen o fewn yr un amserlen ag y rhagwelir o 18 mis o'r deddfu i sicrhau bod manteision y cydgrynhoi yn cael eu gwireddu cyn gynted â phosibl.

**274.** Nodwn y dystiolaeth yr ydym wedi'i chlywed am bwysigrwydd darparu gwerslyfrau ar gyfraith cynllunio yng Nghymru i gynorthwyo ymarferwyr sy'n gweithio yn y maes hwn. Yn hyn o beth, rydym yn croesawu'r sylwadau a wnaed gan y Cwnsler Cyffredinol ynglŷn â'r camau y gallai fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru eu cymryd i alluogi darpariaeth o'r fath, a'n gobaith yw y bydd Llywodraeth nesaf Cymru yn mabwysiadu safbwynt tebyg.

---

[313] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [273]
[314] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Rhagfyr 2022, argymhelliad 14
[315] Y Pwyllgor Busnes, Gwaith gweithdrefnol y Chweched Senedd: Blaenoriaethau, Gorffennaf 2025, adran 5, paragraff 43

**275.** Nodwn hefyd y dull arfaethedig o wneud yr is-ddeddfwriaeth sy’n angenrheidiol er mwyn i’r Biliau ddod i rym mewn modd amserol, ac yna rhaglen o ailddatgan a chydgrynhoi’r is-ddeddfwriaeth sy’n weddill ar gynllunio, i’w chynnal mewn dull graddol.

**276.** Rydym yn diolch i’r Cwnsler Cyffredinol a’i swyddogion am roi eglurder a sicrwydd ychwanegol i randdeiliaid ynglŷn â dull graddol y gwaith hwn, ond hoffem gysylltu ein hunain â’r sylwadau a wnaed gan randdeiliaid y bydd map trywydd darluniadol yn ddefnyddiol i bennu cerrig milltir allweddol y gwaith hwn ac, o ganlyniad, y cyfleoedd allweddol sydd ar gael i randdeiliaid i helpu i lywio’r rhaglen hon.

**Argymhelliad 6.** Dylai’r Cwnsler Cyffredinol nodi map trywydd ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth o dan y Bil Cynllunio (Cymru), a thynnu sylw at y cyfleoedd sydd ar gael i randdeiliaid lywio’r gwaith o ddatblygu is-ddeddfwriaeth.

**277.** Nodwn hefyd fod y Bil Cynllunio, ar ôl ei ddeddfu, wedi’i fwriadu i fod yn rhan o god cyfraith Cymru ar gynllunio. Er nodi nad yw cynnwys terfynol y cod wedi’i bennu eto – ac, fel y nodwyd gan y Cwnsler Cyffredinol, y disgwylir i’w gynnwys gynyddu dros amser – rydym yn cydnabod y manteision disgwyliedig y bydd cod cyfraith Cymru ar gynllunio yn eu cyflwyno i hygyrchedd y gyfraith.

**278.** Rydym yn cydnabod hefyd y dystiolaeth rydym wedi’i chlywed gan randdeiliaid ynghylch cynnwys arfaethedig cod cyfraith Cymru ar gynllunio, ac y gallai cynnwys y gyfraith ar seilwaith mewn cod o’r fath fod o fudd. Er mwyn helpu i lywio ein hystyriaeth, byddai cael diweddariad gan Lywodraeth Cymru ar ei thacsonomeg arfaethedig o gyfraith Cymru wedi bod o fudd i ni, er mwyn pennu’r ffiniau bwriedig rhwng gwahanol feysydd y gyfraith. Felly, mae’n siomedig na chawsom ddiweddariad o’r fath gan Lywodraeth Cymru, mewn ymateb i’n cais, yn enwedig gan fod bron i saith mlynedd ers iddi gyhoeddi ei fersiwn ddiwethaf o’i thacsonomeg ddrafft.

**279.** Nodwn fod y Pwyllgor Busnes wedi pennu ei bod yn rhy gynnar ystyried unrhyw newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog y Senedd, at ddiben sicrhau nad yw newidiadau i’r gyfraith yn y dyfodol yn tanseilio’n ddiangen benderfyniadau blaenorol a wnaed gan y Senedd i greu codau cyfraith Cymru hygyrch. Fodd bynnag, credwn fod angen cynyddol ddybryd am i strwythurau priodol fod ar waith i gefnogi codau cyfraith Cymru, ar ôl iddynt gael eu creu. Yn absenoldeb strwythurau o’r fath, gall statws codau cyfraith Cymru gael ei leihau ac, o ganlyniad, credwn y gallem weld dirywiad yn hygyrchedd ehangach cyfraith Cymru.

**280.** Credwn fod hwn yn fater sydd angen ystyriaeth bellach, ond hoffem ailadrodd y farn a fynegwyd yn ein hadroddiad ar y Bil Cydgrynhoi cyntaf[316] y dylid ymgynghori ag Aelodau o'r Senedd, Pwyllgorau'r Senedd a Chomisiwn y Senedd fel rhan o unrhyw adolygiad o Reolau Sefydlog y Senedd mewn perthynas â chodau cyfraith Cymru.

**281.** Nodwn fwriadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â lle y disgwylir i god cyfraith Cymru ar gynllunio fodoli, ond rydym o'r farn bod angen eglurder pellach ynghylch rôl ddisgwyliedig yr Archifau Cenedlaethol parthed cyhoeddi a chynnal a chadw'r cod, yn ogystal â rôl ddisgwyliedig Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol egluro rôl ddisgwyliedig yr Archifau Cenedlaethol mewn perthynas â chreu a chynnal codau cyfraith Cymru.

**282.** Yn olaf, rydym yn croesawu sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol am yr angen i adolygu'r ddeddfwriaeth, ar ôl ei deddfu a'i gweithredu, er mwyn gwerthuso a yw'r cydgrynhoi wedi cyflawni ei ddiben arfaethedig o wella hygyrchedd y gyfraith. Rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth nesaf Cymru hefyd yn cydnabod pwysigrwydd ymgymryd â'r gwaith hwn, ac yn ymrwymo i gynnal adolygiad ôl-weithredu ar y cyfle priodol cyntaf. Yn yr un modd, rydym yn gobeithio y bydd y Pwyllgor Busnes nesaf hefyd yn ymrwymo i gynnal adolygiad o'r gweithdrefnau sy'n sail i waith craffu'r Senedd ar Filiau Cydgrynhoi yn gynnar yn y Senedd nesaf.

[316] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Rhagfyr 2022, argymhelliad 13

# Atodiad 1: Dogfennau sydd wedi'u hatodi i'r Memorandwm Esboniadol i'r Biliau

Fel atodiadau i'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru), cynhwysodd Llywodraeth Cymru y dogfennau canlynol.

| Cyfeirnod | Teitl |
|---|---|
| **Atodiad A1** | Nodiadau Esboniadol i'r Bil Cynllunio (Cymru) |
| **Atodiad A2** | Nodiadau Esboniadol i'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) |
| **Atodiad B1** | Tabl sy'n dangos tarddiad y darpariaethau yn y Bil Cynllunio (Cymru) |
| **Atodiad B2** | Tabl sy'n dangos tarddiad darpariaethau yn y Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) |
| **Atodiad C1** | Tablau sy'n dangos trawsleoliadau'r darpariaethau presennol a ailddatganwyd yn y Bil Cynllunio (Cymru) |
| **Atodiad C2** | Tablau sy'n dangos trawsleoliadau'r darpariaethau presennol a ailddatganwyd yn y Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) |
| **Atodiad D1** | Esboniad o newidiadau a wneir i ddarpariaethau presennol o fewn y Bil Cynllunio (Cymru) (y cyfeirir atynt fel Nodiadau'r Drafftwyr) |
| **Atodiad D2** | Esboniad o newidiadau a wneir i ddarpariaethau presennol o fewn y Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) (y cyfeirir atynt fel Nodiadau'r Drafftwyr) |
| **Atodiad E1** | Gohebiaeth gan Gomisiwn y Gyfraith (16 Mai 2024) |
| **Atodiad E2** | Gohebiaeth Atodol gan Gomisiwn y Gyfraith (23 Gorffennaf 2025) |

# Atodiad 2: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar i'w gweld ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| 29 Medi 2025 | **Yr Athro Alison Young, Comisiynydd y Gyfraith ar gyfer Cyfraith Gyhoeddus a'r Gyfraith yng Nghymru,**<br>Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr<br>**Henni Ouahes, Pennaeth Cyfraith Gyhoeddus Cymru a Lloegr,**<br>Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr |
| 6 Hydref 2025 | **Mark Hand, Cyfarwyddwr Cymru, Gogledd Iwerddon a Cymorth Cynllunio Lloegr,**<br>Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) yng Nghymru<br>**Rhian Brimble, Swyddog Polisi (Cymru),**<br>Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) yng Nghymru<br>**Annabel Graham Paul, Cynrychiolydd Cymru**<br>Cymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd |
| 13 Hydref 2025 | **Sara Morris, Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro,**<br>Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru<br>**Dr Sarah Groves-Phillips, Rheolwr Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Cynllunio, Cyngor Sir Ceredigion,**<br>Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru |
| 3 Tachwedd 2025 | **Julie James AS, Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Dion Thomas, Pennaeth Deddfwriaeth a Pherfformiad, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Dr James George, Uwch-gwnsler Deddfwriaethol, Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Claire Fife, Cynghorydd Polisi i'r Cwnsler Cyffredinol a Phennaeth Swyddfa'r Codau Deddfwriaethol,**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 3: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad i'w gweld ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad neu unigolyn |
|---|---|
| **PCB01** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| **PCB02** | Tai Hanesyddol Cymru |
| **PCB03** | Charles Felgate, Geldards LLP |
| **PCB04** | Cymorth Cynllunio Cymru |
| **PCB05** | CLA Cymru |
| **PCB06** | Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) yng Nghymru |
| **PCB07** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| **PCB08** | Network Rail |
| **PCB09** | Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU (UKELA) |
| **PCB10** | Cymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd |
| **PCB11** | Sara Hanrahan, Blake Morgan LLP |

Daeth yr ohebiaeth a ganlyn i law'r Pwyllgor hefyd.

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Llythyr gan Gadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | 10 Tachwedd 2025 |

# Atodiad 4: Gohebiaeth a gyfnewidiwyd gyda'r Cwnsler Cyffredinol

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**–**
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
**–**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julie James AS
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni

23 Medi 2025

Annwyl Julie,

Craffu ar Filiau Cydgrynhoi Llywodraeth Cymru ym maes cynllunio

A chithau wedi cyflwyno'r Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) i'r Senedd, byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb i'r cwestiynau yn yr atodiad amgaeedig er mwyn ein cynorthwyo i ddechrau ystyried y Biliau. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 14 Hydref 2025.

Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at glywed eich tystiolaeth yn ystod ein cyfarfodydd ar 3 Tachwedd.

Yn gywir,



Mike Hedges
Cadeirydd

ATODIAD

Cyffredinol

**Cwestiwn 1.** Sut ydych chi wedi mynd ati'n benodol i gydgrynhoi deddfwriaeth sy'n rhagflaenu datganoli, yn enwedig o safbwynt drafftio deddfwriaethol?

**Cwestiwn 2.** A oedd heriau yn benodol i'r ymarfer cydgrynhoi hwn a ddeilliodd o ryddhau darpariaethau Cymru o ddeddfwriaeth bresennol Cymru a Lloegr, ac na fyddai fel arfer yn codi wrth gydgrynhoi deddfwriaeth sy'n gymwys yn unffurf i Gymru a Lloegr?

**Cwestiwn 3.** Fel Deddf "Cymru a Lloegr" cyn datganoli, nid yw *Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990* yn ddwyieithog. Nid yw Deddf 1990 wedi'i chynnwys yn yr ymarfer cydgrynhoi hwn ac rydym yn nodi'r rhesymau a roddir ym mharagraff 46 o'r Memorandwm Esboniadol. Rydym yn ymwybodol mai'r brif is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Ddeddf yw Rheoliadau Sylweddau Peryglus (Cymru) 2025, sy'n gymwys i Gymru yn unig. Yn eich barn chi, pa feini prawf y mae angen eu bodloni er mwyn ichi geisio ailddatgan darpariaethau perthnasol Deddf 1990 fel mesur dwyieithog sy'n gymwys i Gymru yn unig ac sy'n gyson ag uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cod Cynllunio i Gymru?

**Cwestiwn 4.** A oes unrhyw ddeddfwriaeth y byddech wedi hoffi ei chydgrynhoi ond na allech chi wneud hynny oherwydd pryderon ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol?

**Cwestiwn 5**. A oes unrhyw ddeddfwriaeth y byddech wedi hoffi ei chydgrynhoi ond na allech chi wneud hynny am resymau nad ydynt yn ymwneud â cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd? Er enghraifft, oherwydd gofynion Rheol Sefydlog 26C.2.

**Cwestiwn 6.** Mae Rheolau Sefydlog y Senedd yn caniatáu i fil cydgrynhoi gorffori rheolau cyfraith gyffredin sy'n deillio o achosion sydd wedi'u penderfynu.

i) Sut mae dymunoldeb rhoi rheolau cyfraith gyffredin ar sail statudol wedi dylanwadu ar ddarpariaethau yn y Biliau?
ii) A allwch chi ddarparu nodyn ar y gyfraith achos sy'n cael ei rhoi ar sail statudol yn yr ymarfer cydgrynhoi hwn?

Rôl Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr

**Cwestiwn 7**. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi argymell bod 15 mater yn briodol i'w cynnwys mewn Bil cydgrynhoi, o dan Reol Sefydlog 26C.2(v).

i) A allwch chi ddarparu rhagor o fanylion am eich trafodaethau gyda Chomisiwn y Gyfraith a sut y gwnaeth eich galluogi i benderfynu ei bod yn briodol gwneud pob un o'r newidiadau hyn mewn Bil Cydgrynhoi?

ii) A allwch chi ddarparu manylion am yr argymhellion yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith, Cyfraith Cynllunio yng Nghymru, yr ydych yn ystyried bod rhaid iddynt aros am Fil a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26 i ddiwygio cyfraith cynllunio yng Nghymru ymhellach a pha waith sydd ar y gweill i fwrw ymlaen â'r rhain?

Newidiadau drafftio a wnaed drwy'r Bil

Cwestiwn 8. Mae nifer o achosion pan fo newidiadau yn cael eu gwneud i'r gyfraith bresennol drwy'r Biliau a ddisgrifir fel "anomaledd" yn y Nodiadau Drafftwyr sy'n cyd-fynd â'r Bil Cynllunio (Cymru). Ceir enghraifft yn adran 116(2) sy'n rhoi pŵer mynediad i Weinidogion Cymru nad oedd yn bodoli o'r blaen. Ceir enghraifft arall ym mharagraff 43(1)(a) o Atodlen 19 sy'n ychwanegu cwmni priffyrdd strategol a benodir o dan Ran 1 o Ddeddf Seilwaith 2015 at y rhestr o awdurdodau priodol ar gyfer Hysbysiadau Malltod. Dywedir bod hyn yn "llenwi bwlch" ac y dylai Deddf 2015 fod wedi cael ei thrin drwy ddiwygio'r ddarpariaeth wreiddiol yn Neddf 1990. Ceir enghraifft arall yn adran 72(5) sy'n ailddatgan Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 1990 (ynghylch amodau caniatadau mwynau) yn y rhestr o ddarpariaethau sy'n gymwys i geisiadau a alwyd i mewn. A allwch chi egluro eich rhesymeg pam y mae'n briodol ymdrin ag "anomaledd" o'r fath o dan Reol Sefydlog 26C.2(iv)? Wrth ymateb, a fyddech cystal â chyfeirio'n benodol at y tair enghraifft a ddygwyd i'ch sylw?

Cwestiwn 9. Mae'r Bil Cynllunio (Cymru) yn rhoi termau newydd yn lle rhai termau arwyddocaol a ddefnyddir mewn Deddfau presennol. Er enghraifft, mae "hysbysiad cwblhau" yn cael ei newid i "gorchymyn terfynu". Yn Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil, nodir nad yw'r newidiadau hyn yn cael unrhyw effaith o sylwedd ac mai'r bwriad yw sicrhau bod y derminoleg yn fwy cywir neu ddefnyddiol.

A allwch chi esbonio pam rydych chi'n credu bod y termau hyn yn fwy cywir a defnyddiol? Pa broses ymgynghori a gynhaliwyd gyda sefydliadau a rhanddeiliaid ar y telerau hyn a beth oedd eu barn am y newidiadau hyn?

Cwestiwn 10. Yn y Biliau, rydych chi'n newid y defnydd o'r termau "hwylus" a "priodol". Yn Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil Cynllunio (Cymru), nodir "*Mae'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei chydgrynhoi yn rhoi nifer o bwerau a dyletswyddau ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol. Mewn rhai achosion, mae darpariaethau yn galluogi Gweinidogion neu awdurdodau i wneud rhywbeth, neu'n ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud rhywbeth, pan fônt yn ystyried ei bod yn hwylus ("expedient") neu'n briodol ("appropriate") gwneud hynny. Mae'r ddau air yn cael yr un effaith, ac mewn llawer o achosion nid ydynt yn ychwanegu dim at ofynion cyffredinol cyfraith weinyddol i awdurdodau cyhoeddus weithredu yn rhesymol a chan roi sylw i ystyriaethau perthnasol, gan y byddai'n afresymol i awdurdod gymryd camau yr oedd yn eu hystyried yn "anhwylus" neu'n "amhriodol". Hepgorwyd y rhan fwyaf o'r cyfeiriadau at yr hyn sy'n "hwylus" neu'n "briodol" felly, ond cadwyd cyfeiriadau pan fo'n ymddangos eu bod yn ychwanegu rhywbeth neu pan na fyddai'r darpariaethau yn gwneud synnwyr hebddynt.*" Roedd hyn yn rhywbeth yr edrychodd y Pwyllgor arno wrth graffu ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru). O ganlyniad i gwestiynau'r Pwyllgor, adolygodd Llywodraeth Cymru y Bil ac, yng nghyfnod Ystyried

Manwl y Pwyllgor, gwnaed tri gwelliant i'r Bil. Er mwyn ein cynorthwyo i ystyried y mater hwn, a fyddech cystal â darparu rhestr gyflawn o ble yn y Biliau y mae'r newidiadau hyn wedi'u gwneud?

Is-ddeddfwriaeth

Cwestiwn 11. Pa flaenoriaeth rydych chi wedi'i rhoi ar geisio symud manylion gweithdrefnol yn y Deddfau presennol i reoliadau a dod â darpariaethau sylfaenol mewn is-ddeddfwriaeth sydd heb eu newid ers amser maith i wyneb y Bil Cynllunio (Cymru)?

Cwestiwn 12. A allwch chi ddarparu manylion am y darlun cyffredinol o effaith yr ymarfer cydgrynhoi ar y pwerau gwneud rheoliadau y bydd angen eu harfer o dan y Bil, gan gynnwys:

i) rhestr o'r is-ddeddfwriaeth bresennol sy'n cael ei chydgrynhoi yn y Biliau (h.y. yn cael ei symud o reoliadau i wyneb y Bil);
ii) rhestr o'r darpariaethau sydd mewn Deddfau ar hyn o bryd ac yr ymdrinnir â hwy bellach mewn is-ddeddfwriaeth;
asesiad o ran a fydd yr ymarfer cydgrynhoi yn arwain at gynnydd mewn pwerau gwneud rheoliadau neu a fydd y cydbwysedd cyffredinol yn golygu bod rhagor o ddarpariaethau yn cael eu codi ar wyneb y Ddeddf.

Cwestiwn 13. A allwch chi roi syniad o'r amserlen ar gyfer gwneud yr is-ddeddfwriaeth berthnasol a/neu ei gosod gerbron y Senedd (yn amodol ar basio a deddfu'r Bil)?

Cwestiwn 14. A allwch chi ddarparu gwybodaeth am raglen arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer ailddatgan rheoliadau o dan y Ddeddf (yn amodol ar basio a deddfu'r Bil) a sut olwg fydd ar y cynllun ailddatgan? Er enghraifft, a yw'r Llywodraeth yn ystyried cyflwyno llai o reoliadau ond rhai sy'n hirach?

Codeiddio cyfraith Cymru

Cwestiwn 15. A allwch chi ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y dacsonomeg arfaethedig bresennol ar gyfer Codeiddio Cyfraith Cymru?

**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Mike Hedges AS, Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

10 Hydref 2025

Annwyl Mike

**Biliau Cydgrynhoi Cynllunio**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Medi 2025; ceir fy ymatebion i gwestiynau'r Pwyllgor isod ac yn Atodiadau 1 a 2.

Cyffredinol

**Cwestiwn 1: y dull o gydgrynhoi deddfwriaeth sy'n rhagflaenu datganoli**

1. Mae'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth a gydgrynhoir yn y Bil Cynllunio (Cymru) ("y Bil Cynllunio") yn rhagflaenu datganoli, a'r ffaith nad yw ei thestun yn adlewyrchu datganoli yn llwyr yw un o'r rhesymau pam mae cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth yn ddymunol. Fel yr esbonnir yn y cyflwyniad i Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil Cynllunio (yn Atodiad D1 i'r Memorandwm Esboniadol), mae'r Bil wedi'i ddrafftio i adlewyrchu'r ffordd y mae Deddfau Llywodraeth Cymru a gorchmynion trosglwyddo swyddogaethau a wnaed oddi tanynt (yn ogystal â newidiadau amrywiol eraill yn y gyfraith) wedi effeithio ar ddeddfwriaeth gynllunio bresennol.

**Cwestiwn 2: gwahanu darpariaethau i Gymru oddi wrth ddeddfwriaeth bresennol**

2. Dim ond yr ail brosiect cydgrynhoi y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnal yw hwn ac, felly, mae'n rhy gynnar i ddweud beth sy'n "normal" mewn ymarfer cydgrynhoi. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn bod yr heriau sy'n gysylltiedig â "gwahanu" Cymru oddi wrth Loegr sydd wedi codi yn y prosiect hwn yn unigryw i gyfraith gynllunio. Pan fo'r darpariaethau sy'n cael eu cydgrynhoi yn gymwys i Loegr yn ogystal â Chymru, bu'n rhaid inni ystyried yn ofalus i ba raddau y maent yn berthnasol i Gymru a sut maent yn gymwys mewn perthynas â Chymru, a bu'n rhaid inni sicrhau bod y darpariaethau newydd i Gymru a'r diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth bresennol yn mabwysiadu dull gweithredu cyson nad yw'n creu bylchau nac achosion o orgyffwrdd nad oes eu heisiau. Cododd y materion hyn hefyd wrth gydgrynhoi deddfwriaeth ynglŷn â'r

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

amgylchedd hanesyddol ac rydym yn disgwyl iddynt godi mewn ymarferion cydgrynhoi yn y dyfodol.

**Cwestiwn 3: Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990**

3. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at y posibilrwydd o gydgrynhoi'r ddeddfwriaeth hon yn y dyfodol ac roedd yn fater y gwnaethom ei nodi fel prosiect posibl yn ein rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.

4. Ni chyflwynwyd unrhyw sylwadau i Lywodraeth Cymru yn galw am gydgrynhoi'r maes cyfreithiol hwn. Rydym yn amau bod hyn i'w briodoli'n rhannol i'r ffaith bod y gyfraith eisoes wedi'i hymgorffori'n bennaf yn Neddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 ac yn rhannol am fod nifer yr achosion sy'n gysylltiedig â chydsyniad sylweddau peryglus bob blwyddyn yn gymharol fach o gymharu â meysydd gwaith eraill awdurdodau cynllunio.

5. Mae'r Llywodraeth yn parhau i gael ei llywio gan y pedwar maen prawf a nodir yn *Dyfodol Cyfraith Cymru* wrth ystyried prosiectau ar gyfer cydgrynhoi a chodeiddio. Er mai mater i'r rhaglen nesaf a rhaglenni yn y dyfodol yw prosiectau cydgrynhoi yn y dyfodol, rwy'n parhau i gredu y byddai'n werth cydgrynhoi'r agweddau ar y gyfundrefn sylweddau peryglus sy'n ymwneud â rheolaeth gynllunio. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn ymwybodol y gallai fod meysydd â blaenoriaeth uwch y bydd angen i'r ffocws droi atynt a lle mae diddordeb eisoes ymhlith rhanddeiliaid mewn symleiddio a moderneiddio deddfwriaeth fel rydym wedi'i wneud gyda chyfraith yr amgylchedd hanesyddol a nawr gyda chynllunio gwlad a thref.

**Cwestiynau 4 a 5: Cyfraith heb ei chydgrynhoi**

6. Nid oedd unrhyw feysydd cyfreithiol yr hoffem fod wedi'u cydgrynhoi ond na allem wneud hynny, naill ai oherwydd pryderon ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol neu am resymau eraill.

**Cwestiwn 6: Ymgorffori cyfraith gyffredin**

7. Fel y nodir yng nghanllawiau'r Llywydd ar Reol Sefydlog 26C.2, gall Biliau cydgrynhoi ymgorffori effaith cyfraith achosion sy'n effeithio ar ystyr darpariaeth bresennol (er enghraifft, drwy egluro ei hystyr neu drwy ehangu ei heffaith neu gyfyngu arni mewn ffordd nas nodir ar wyneb y ddarpariaeth).

8. Yn unol â hynny, lle mae cyfraith achosion sefydlog sy'n effeithio ar weithrediad deddfwriaeth o fewn cwmpas yr ymarfer cydgrynhoi, rydym wedi ceisio ymgorffori ei heffaith. Mae gwneud hynny yn sicrhau bod y darpariaethau yn fwy hygyrch ac yn darparu ailddatganiad mwy cyflawn. Dymunoldeb sicrhau bod y gyfraith mor hygyrch a chyflawn â phosibl sydd wedi achosi inni ymgorffori'r gyfraith achosion benodol hon, ac nid awydd i ymgorffori rheolau cyfraith gyffredin ynddo'i hun.

9. Mae'r tabl tarddiadau a Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil Cynllunio (yn Atodiadau B1 a D1 i'r Memorandwm Esboniadol) yn nodi darpariaethau'r Bil sy'n ymgorffori effaith cyfraith achosion. Mae Atodiad 1 i'r llythyr hwn yn rhoi crynodeb o'r gyfraith achosion sydd wedi'i hymgorffori.

**Cwestiwn 7(i): ymgysylltu â Chomisiwn y Gyfraith**

10. Cyfeiriaf y Pwyllgor at yr ymateb cynhwysfawr a roddwyd gan yr Athro Young pan roddodd dystiolaeth ichi ar 29 Medi. Nid oes gennyf unrhyw beth arall i'w ychwanegu, heblaw am gadarnhau bod Comisiwn y Gyfraith, ar wahân, wedi rhoi cyngor imi er mwyn imi allu dod i benderfyniad ynghylch gwneud y datganiadau sy'n ofynnol gan Reol Sefydlog 26C.11.

**Cwestiwn 7(ii): argymhellion sy'n addas ar gyfer diwygio deddfwriaeth**

11. Rhoddodd y Llywodraeth ei Hymateb Terfynol i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar 10 Tachwedd 2020[1]; yn yr ymateb hwnnw gwnaethom nodi'r argymhellion canlynol y byddai angen rhoi sylw iddynt mewn Bil diwygio'r gyfraith ar wahân.

- 5-4
- 8-5
- 8-7
- 8-13(4)
- 8-18
- 8-30
- 10-4
- 10-5
- 10-8
- 10-9
- 10-10
- 10-11
- 13-1A
- 13-1B
- 13-2
- 13-3
- 13-4
- 13-5
- 13-6
- 13-7
- 13-8
- 13-9
- 15-5
- 14-7
- 16-7

Nid yw safbwynt y Llywodraeth ar yr argymhellion hyn wedi newid.

12. Mae'r Llywodraeth bellach o'r farn y dylai'r argymhellion canlynol hefyd gael eu hystyried fel rhan o unrhyw ddiwygiadau i gyfraith gynllunio yn y dyfodol, gan y byddent yn cynnwys newidiadau i bolisi sydd y tu allan i gwmpas cydgrynhoi a/neu y byddai angen eu hystyried ymhellach gyda rhanddeiliaid:

- 7-5
- 8-23(2)
- 11-8
- 12-10
- 12-12(2)
- 12-24
- 12-25
- 14-9
- 14-12
- 14-13
- 15-15
- 15-16
- 16-5
- 16-6
- 17-1
- 17-2

13. Er cyflawnder noder hefyd:

    a. i argymhellion 13-10 a 13-11 gael eu cyflawni drwy Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023;
    b. bod argymhellion 6-2, 16-8, 16-11 ac 16-12 wedi'u gweithredu drwy Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025;
    c. er bod argymhelliad 9-2 bellach yn ddiangen yn sgil deddfu Deddf Seilwaith (Cymru) 2024, bod yr egwyddor sy'n sail iddo wedi'i ddatblygu er mwyn llywio darpariaethau perthnasol y Ddeddf hon.

[1] gweler https://www.llyw.cymru/ymateb-manwl-i-adroddiad-comisiwn-y-gyfraith-ar-gyfraith-cynllunio-yng-nghymru.

14. Er mai mater i'r Llywodraeth nesaf fydd penderfynu a ddylid datblygu'r argymhellion sy'n weddill fel rhan o unrhyw Fil diwygio cyfraith gynllunio yn y dyfodol, bydd y Bil Cynllunio yn gwneud y broses o roi diwygiadau ar waith yn y dyfodol yn llawer symlach am ei fod yn dod â'r holl ddeddfwriaeth bresennol ynghyd mewn un fframwaith dwyieithog cydlynol.

<u>Newidiadau drafftio a wnaed yn y Bil</u>

**Cwestiwn 8: "anomaleddau"**

15. Fel y noda canllawiau'r Llywydd a gyhoeddwyd o dan Reol Sefydlog 26C.3, mae'r broses gydgrynhoi yn "debygol o ddatgelu anghysondebau ac anomaleddau yn y ddeddfwriaeth bresennol." Mae'r canllawiau hynny hefyd yn nodi'n glir bod y Senedd yn caniatáu i wallau ac anomaleddau yn y ddeddfwriaeth (o dan Reol Sefydlog 26C.2(iv)) gael eu cywiro ac fel rydych wedi'i nodi, mae Nodiadau'r Drafftwyr yn Atodiadau D1 a D2 i'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio ble mae hyn wedi digwydd.

*Adran 116(2) o'r Bil Cynllunio*

16. Ystyrir bod ychwanegu pŵer i Weinidogion Cymru awdurdodi mynd ar dir er mwyn penderfynu a ddylid dyroddi hysbysiad stop yn fân newid y mae'n briodol ei wneud er mwyn cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth yn foddhaol. Fel yr esbonnir yn Nodiadau'r Drafftwyr, arweiniodd y newidiadau a wnaed yn 1991 at yr hyn yr ymddengys ei fod yn fwlch anfwriadol ym mhwerau Gweinidogion Cymru. Gallai'r ffaith nad oes unrhyw bŵer i awdurdodi mynd ar dir lesteirio'r broses o arfer pwerau eraill sydd gan Weinidogion Cymru (megis y pwerau i ddyroddi hysbysiad stop ac erlyn am beidio â chydymffurfio).

*Paragraff 43(1)(a) o Atodlen 19 i'r Bil Cynllunio*

17. Mae a wnelo adran 169(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") ag anghydfodau ynghylch pa endid yw'r awdurdod priodol (h.y. y person y gellir cyflwyno hysbysiad malltod iddo). Gall cwmni priffyrdd strategol fod yn awdurdod priodol (gweler adran 169(1) o Ddeddf 1990 a pharagraffau 16 a 18 o Atodlen 13 i'r Ddeddf honno fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Seilwaith 2015, Atodlen 1, paragraff 109). Ymddengys fod cynnwys cyfeiriad at gwmni priffyrdd strategol yn adran 169(2) yn ddiwygiad canlyniadol y dylid bod wedi'i wneud yn Neddf Seilwaith 2015. Mae llenwi'r hyn yr ymddengys ei fod yn fwlch anfwriadol yn sicrhau eglurder ynglŷn â phwy sy'n penderfynu ar faterion sy'n ymwneud â chwmni priffyrdd strategol, gan ei drin yn yr un ffordd ag awdurdodau priffyrdd eraill. Mân newid ydyw y mae'n briodol ei wneud er mwyn cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth yn foddhaol.

*Adran 72(5) o'r Bil Cynllunio*

18. Mae Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 1990 yn darparu ar gyfer amodau sy'n ymwneud â gweithio mwynau a osodir wrth roi caniatâd. Cyn i Ddeddf 1990 gydgrynhoi Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (Mwynau) 1981, cafodd darpariaeth ynghylch amodau o'r fath ei chymhwyso at geisiadau a alwyd i mewn ac apeliadau. Mae adran 79(4) o Ddeddf 1990 yn cymhwyso Rhan 1 o Atodlen 5 at apeliadau i Weinidogion Cymru, ond ni wneir unrhyw ddarpariaeth i gymhwyso Rhan 1 o Atodlen 5 at geisiadau a alwyd i mewn. Ymddengys mai camgymeriad oedd hyn ac mae'n gadael bwlch anfwriadol. Ystyrir bod ei lenwi yn fân newid y mae'n briodol ei wneud er mwyn cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth yn foddhaol.

**Cwestiwn 9: Terminoleg**

19. Mae'r cyflwyniad i Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil Cynllunio (yn Atodiad D1 i'r Memorandwm Esboniadol) yn esbonio'r prif newidiadau i derminoleg a wneir yn y Bil. Mae Atodiad 2 i'r llythyr hwn yn cynnwys y sail resymegol dros y newidiadau a'r rheswm pam yr ystyrir eu bod yn helpu i wella hygyrchedd. Mae hefyd yn nodi pa waith ymgynghori sydd wedi'i wneud. Nid ystyriwyd bod angen ymgynghori nac ymgysylltu ar gyfer yr holl newidiadau am mai'r cyfan a wnânt yw adlewyrchu bwriad ac effaith y darpariaethau yn fwy cywir a defnyddio iaith sy'n gyfarwydd i ymarferwyr a rhanddeiliaid.

20. Pan wnaethom gyhoeddi drafft o'r Bil Cynllunio ym mis Mehefin, gwnaethom hefyd gyhoeddi dogfen yn amlinellu nifer o'r newidiadau arfaethedig i derminoleg a dwyn y ddogfen i sylw rhanddeiliaid. Ni chodwyd unrhyw gwestiynau na phryderon gan randdeiliaid ynghylch y newidiadau a awgrymwyd i derminoleg.

**Cwestiwn 10: “hwylus” a “priodol”**

21. Rhestrir isod ddarpariaethau Deddf 1990 a deddfwriaeth sylfaenol arall sy'n defnyddio naill ai “hwylus” neu “priodol” ac yn cael eu hailddatgan yn y Bil Cynllunio heb ddefnyddio'r naill na'r llall o'r termau hynny.

<u>*Cyfeiriadau at “hwylus”*</u>

| Darpariaeth yn Neddf 1990 | Darpariaeth yn y Bil |
|---|---|
| a 2(1B) | a 8(1) |
| a 61B(8)(a) | Atod 1, para 5(2) |
| a 72(1)(a) | a 67(2) |
| a 96(1) | a 98(3) |
| a 97(1) | a 97(1) |
| a 98(6) | Atod 7, para 2(5) |
| a 100(1) | a 102(1) |
| a 103(1) | Atod 14, para 1(6) |
| a 141(2) | Atod 12, para 6(3) |
| a 171E(1)(b) | a 120(1)(b) |
| a 172(1)(b) | a 128(1) a (2)(a) |
| a 182(1) | a 144(1) |
| a 183(1) | a 145(1) |
| a 185(1) | a 150(1) |
| a 187B(1) | a 153(1) |
| a 214A(1) | a 251(1) |
| a 243(1) a (2) | a 270(1) i (3) |
| a 247(2) | a 283(1) a 288(1) |
| a 247(4) | a 283(5) a 288(3) |
| a 248(2) | a 281(2) |
| a 261(3) | a 296(5) |
| a 275(1) | a 317(1) |
| a 275(3) | a 317(1) |
| a 275(5)(c) a (d) | a 317(5) (c) a (d) |
| a 306(3) | a 395(4) |
| Atod 5, para 4(4) | Atod 3, para 3(4) |
| Atod 9, para 4(1) | Atod 15, para 2(6) |
| Atod 9, para 7(1) | Atod 15, para 6(7) |
| Atod 9, para 11(1) | a 206(2) a (3), Atod 15, para 1(2), (3), 5(2) a (3) |

| Darpariaeth yn Neddf 1990 | Darpariaeth yn y Bil |
|---|---|
| Atod 14, para 6 | Atod 17, para 19 |

| Darpariaeth yn Neddf yr Amgylchedd 1995 | Darpariaeth yn y Bil |
|---|---|
| Atod 14, para 2(1) ("safle mwyngloddio") | Atod 9, para 1(2)(a) |
| Atod 14, para 2(2) | Atod 9, para 1(3) |
| Atod 14, para 3(4) | Atod 9, para 2(3)(c) |

| Darpariaeth yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 | Darpariaeth yn y Bil |
|---|---|
| a 122(3) | a 407(3) |

| Darpariaeth yn Neddf Cynllunio 2008 | Darpariaeth yn y Bil |
|---|---|
| a 223(4) | a 203(3) |

*Cyfeiriadau at "priodol"*

| Darpariaeth yn Neddf 1990 | Darpariaeth yn y Bil |
|---|---|
| a 78(4BB) | a 75(2) |
| a 92(4) | a 94(1)(a) |
| a 195(1DB) | a 161(2) |
| a 296A(3) | a 403(2) |
| a 319B(2) | a 366(3) |
| Atod 14, para 1(4) | Atod 17, para 11(3) |

22. Mae adran 4 o'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) yn ymgorffori'r pwerau a roddir gan adrannau 9(1) a 243(3) o Ddeddf 1990, heb gynnwys y geiriau "angenrheidiol neu hwylus" sy'n ymddangos yn y darpariaethau hynny.

Is-ddeddfwriaeth

**Cwestiwn 11: cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth**

23. Mae cryn ystyriaeth wedi'i rhoi i sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth yn y broses gydgrynhoi, gyda darpariaethau yn cael eu hystyried fesul achos, gan roi sylw i faterion megis y canlynol:

    a. pwysigrwydd y darpariaethau o ran eu harwyddocâd i gyfraith gynllunio a llif y Bil (a fyddai eu cynnwys yn y Bil yn sicrhau cyfundrefn fwy cydlynol neu a fyddai'n tarfu ar hygyrchedd);

    b. yr angen i ymdrin â darpariaethau tebyg mewn ffordd debyg, er mwyn sicrhau cysondeb o ran y ffordd yr ymdrinnir â'r rhaniad rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth;

    c. a oedd is-ddeddfwriaeth yn cynnwys addasiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol y byddai'n well ymdrin â nhw yn y Bil;

    d. a oedd darpariaethau arwyddocaol mewn is-ddeddfwriaeth wedi aros yn ddigyfnewid ers cryn amser.

**Cwestiwn 12: yr effaith ar bwerau gwneud rheoliadau sydd i'w harfer**

*Rhestr o'r is-ddeddfwriaeth bresennol sy'n cael ei chydgrynhoi*

24. Mae'r tabl o gyrchfannau yn Atodiad C1 i'r Memorandwm Esboniadol yn rhestru'r is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei chydgrynhoi (gweler tudalennau 68-72 o'r tabl ar gyfer Lloegr a thudalennau 70-73 o'r tabl ar gyfer Cymru).

*Rhestr o faterion yr ymdrinnir â nhw bellach mewn is-ddeddfwriaeth*

25. Mae Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Bil Cynllunio (yn Atodiad D1 i'r Memorandwm Esboniadol) yn cynnwys manylion darpariaethau sydd yn y Deddfau ar hyn o bryd yr ymdrinnir â nhw (neu y gellid ymdrin â nhw) bellach mewn is-ddeddfwriaeth. Gweler Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer adrannau 63 a 97, paragraff 6 o Atodlen 8, paragraffau 5(6) a (7) a 13 o Atodlen 9, ac adrannau 131(8), 133, 162, 172(3) a 244.

*Asesu newidiadau*

26. Ar y cyfan, mae mwy o ddarpariaeth wedi'i symud o reoliadau i wyneb y Bil, yn unol â'r materion a amlinellir yn ein hymateb i gwestiwn 11. Er enghraifft:

    a. ymdrinnir bellach ag addasiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol a wnaed gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Mwynau) 1995 (O.S. 1995/2863) yn y Bil, a

    b. fel yr esbonnir ym mharagraffau 37 a 38 i Nodiadau'r Drafftwyr, mae darpariaethau ynghylch y dull a'r cyfnod o amser ar gyfer gwneud hawliadau am ddigollediad a geir yn rheoliad 12 o Reoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992 (O.S. 1992/1492) wedi'u hailddatgan yn y Bil (yn ddarostyngedig i bŵer i wneud rheoliadau sy'n diwygio terfynau amser yn adran 391 o'r Bil).

27. Mae nifer bach o ddarpariaethau wedi'u symud o ddeddfwriaeth sylfaenol ac, yn lle hynny, cânt eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth. Er enghraifft:

    a. materion gweithdrefnol y mae'n fwy priodol ymdrin â nhw mewn is-ddeddfwriaeth megis hepgor gofyniad i ymgynghori ag awdurdod trwyddedu safleoedd cyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer safle carafanau a geir ar hyn o bryd yn adran 71(3) a (4) o Ddeddf 1990, a

    b. lle mae Comisiwn y Gyfraith wedi argymell newid fel yn argymhellion 12-14 ac 8-28(2).

**Cwestiwn 13 – Amserlenni ar gyfer is-ddeddfwriaeth**

28. Disgwylir i'r ddeddfwriaeth gychwyn o fewn 18 mis ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Rhagwelir y caiff pecyn o offerynnau statudol ar gyfer Cymru ei lunio a/neu ei osod gerbron y Senedd yn ystod y cyfnod hwn.

29. Fel y nodir ym mharagraff 64 o'r Memorandwm Esboniadol, os caiff y Biliau eu deddfu, bydd y gwaith hwn yn cynnwys paratoi rheoliadau newydd i wneud diwygiadau canlyniadol i'r is-ddeddfwriaeth bresennol. Bydd hyn yn cynnwys dirymu darpariaethau sydd wedi'u cydgrynhoi i mewn i Ddeddf Cynllunio (Cymru) (bryd hynny).

**Cwestiwn 14 – Ailddatgan rheoliadau**

30. Mae rhaglen y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru yn cynnwys prosiect a gyflawnir fesul cam sydd â'r nod o gydgrynhoi is-ddeddfwriaeth cynllunio gwlad a thref allweddol. Fel y nodir ym mharagraff 20(b) o'r rhaglen, rydym yn bwriadu cynnal dadansoddiad llawnach o'r gwaith hwn gan fod y prif waith o ddrafftio'r Biliau cydgrynhoi bellach wedi'i gwblhau.

31. Fel y nodwyd uchod, caiff nifer bach o offerynnau statudol Cymru (gan gynnwys rhai o'r offerynnau hynny y bydd newidiadau a wneir gan y Ddeddf yn effeithio arnynt fwyaf) eu hailddatgan o fewn 18 mis ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Caiff yr amserlenni ar gyfer ailddatgan gweddill y ddeddfwriaeth eu llywio gan b'un a gynigir diwygiadau mawr i offeryn ac i ba raddau y defnyddir y deddfiad gan ymarferwyr. Ar hyn o bryd, ni chynigir y dylid cyflwyno llai o reoliadau hirach, ond caiff hyn ei adolygu'n rheolaidd wrth i'n dadansoddiad gael ei gwblhau ac wrth i raglen gael ei datblygu.

32. Byddwn yn disgwyl i'r Llywodraeth nesaf gynnwys manylion pellach am y gwaith hwn yn y rhaglen nesaf i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.

<u>Codeiddio cyfraith Cymru</u>

**Cwestiwn 15 – Tacsonomeg cyfraith Cymru**

33. Caiff diweddariadau ar raglen y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol nesaf y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

**ATODIAD 1 – NODYN AR GYFRAITH ACHOSION SYDD WEDI'I HYMGORFFORI YN Y BIL CYNLLUNIO (CYMRU)**

**Adrannau 17(6) a 19(7)**
Mae'n ymgorffori *R (Persimmon Homes Ltd) v Cyngor Bro Morgannwg* [2010] EWHC 535 (Gweinyddol) drwy egluro bod y cyfeiriadau at adrannau 60M(6)(a) a 62(5)(a) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 at "current national policies" yn gyfeiriadau at bolisïau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.

**Adran 113(1) (ail res y tabl)**
Mae'n ymgorffori *Van Dyck v yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd* [1993] 1 PLR 124 drwy egluro bod y cyfeiriad yn adran 171B(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 at "change of use of any building to use as a single dwellinghouse" yn gyfeiriad at newid y defnydd o adeilad i'w ddefnyddio fel annedd neu, os oedd adeilad yn cael ei ddefnyddio fel un annedd neu fwy yn flaenorol, i'w ddefnyddio fel nifer gwahanol o anheddau.

**Adran 128(5) a (6)**
Mae'n ymgorffori *Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau v Wyatt Bros (Oxford) Ltd* [2002] PLCR 18 drwy nodi'n glir fod y cyfeiriad yn adran 173(3) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 at hysbysiad gorfodi sy'n pennu camau er mwyn cyflawni "any of the following purposes" yn cynnwys y naill ddiben neu'r llall <u>neu'r ddau ddiben</u> a bennir yn adran 173(4) (er gwaethaf yr "or" ar ôl paragraff (a) o'r is-adran honno).

**Adran 246(3)**
Mae'n ymgorffori *Distinctive Properties (Ascot) Ltd v yr Ysgrifennydd Gwladol* [2015] EWCA Civ 1250 drwy egluro, yn ymarferol, fod y gofyniad yn adran 206(3) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i blannu "the same number of trees" ag a symudwyd ac ati yn golygu, os nad yw union nifer y coed a symudwyd ac ati yn hysbys, mai'r gofyniad yw plannu'r amcangyfrif gorau y gellir yn rhesymol ei wneud o nifer y coed a symudwyd. Yn *Distinctive Properties*, lle y gosododd yr hysbysiad ailblannu coed dan sylw ofyniad i ddefnyddio dwyseddau plannu safonol i gyfrifo nifer y coed i'w plannu yn lle'r coed a symudwyd, dyfarnwyd bod amcangyfrif derbyniol wedi'i wneud o nifer y coed a symudwyd ac ati.

**Adran 263(2)**
Mae'n ymgorffori *Clays Lane Housing Co-operative v Housing Corporation* [2005] 1 WLR 2229 a *Horada v yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol* [2017] 2 All ER 86 drwy ddarparu mai dim ond pan fo achos cymhellol dros wneud hynny y caiff awdurdod lleol gaffael tir yn orfodol at ddibenion cynllunio o dan adran 226(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**Atodlen 12, paragraff 1(3)**
Mae'n ymgorffori *Hudscott Estates (East) Ltd v yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau* (2001) 82 P&CR 8 a *R (Cyngor Bwrdeistref Stafford) v yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol* [2011] EWHC 936 (Gweinyddol) drwy egluro ystyr "unauthorised prospective use of land" yn y darpariaethau yn adran 138 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ynglŷn ag ystyr "reasonably beneficial use".

Dyfarnwyd yn *Hudscott* nad yw'r cyfeiriad at adran 138(2) o Ddeddf 1990 at ddatblygiad <u>ac eithrio unrhyw ddatblygiad a bennir ym mharagraff 1 neu 2 o Atodlen 3</u> i Ddeddf 1990 yn berthnasol i b'un a ellir gwneud defnydd rhesymol fuddiol o dir ai peidio. Felly, mae'r cyfeiriad yn ofer ac nis ailddatgenir (a, sut bynnag, nid ailddatgenir Atodlen 3 i Ddeddf 1990 yn y Bil).

Mae'r dyfarniad yn achos *Stafford* yn nodi mai'r unig ddefnyddiau y gellir eu hystyried wrth benderfynu a oes gan dir ddefnydd rhesymol fuddiol yw'r rhai nad oes angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer neu y tybir bod caniatâd cynllunio wedi'i roi ar eu cyfer. Felly, mae paragraff 1(3) o Atodlen 12 i'r Bil yn darparu bod yn rhaid i ddefnydd arfaethedig o dir gael ei anwybyddu petai'n golygu datblygiad nad yw caniatâd cynllunio wedi'i roi ar ei gyfer. Mae'r cyfeiriad ym mharagraff 1(3) at ddatblygiad nad yw awdurdod cynllunio na Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i roi caniatâd ar ei gyfer, wedi'i gynnwys er mwyn sicrhau cysondeb ag adran 110(3)(c) o'r Bil; mae'r adran honno yn darparu bod ymrwymiad i roi caniatâd yn berthnasol i b'un a ellir gwneud tir yn ddefnyddiadwy ac, felly, na fyddai'n gwneud synnwyr mynnu hefyd fod ymrwymiad o'r fath yn cael ei anwybyddu wrth gymhwyso paragraff 1(3) o Atodlen 12 i'r Bil wrth benderfynu a ellid gwneud defnydd rhesymol fuddiol o dir.

**Atodlen 12, paragraff 1(4)**
Mae'n ymgorffori *Balco Transport Services v yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd (Rhif 2)* [1986] 1 WLR 88 drwy ddarparu nad yw tir yn annefnyddiadwy yn ei gyflwr presennol os achoswyd y cyflwr hwnnw gan dor rheolaeth gynllunio, os dyroddwyd hysbysiad gorfodi, neu os gellid dyroddi hysbysiad gorfodi, er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd i unioni’r tor rheolaeth gynllunio neu unrhyw niwed i amwynder a achoswyd ganddo, ac y byddai'r tir yn ddefnyddiadwy petai'r camau yn cael eu cymryd.

Roedd y dyfarniad yn *Balco* mewn ymateb i baragraff 18 o Gylchlythyr 22/83 y Swyddfa Gymreig, a oedd yn darparu, wrth benderfynu a ddylid cadarnhau hysbysiad prynu, nad oes gan Weinidogion ddiddordeb yng nghyflwr blaenorol tir y mae a wnelo hysbysiad prynu ag ef, *ac eithrio os achoswyd y cyflwr hwnnw gan weithgareddau a gynhaliwyd yn groes i reolaeth gynllunio.* Addasodd y dyfarniad effaith y Cylchlythyr er mwyn nodi'n glir na ddylid cadarnhau hysbysiadau prynu os achoswyd cyflwr y tir gan waith datblygu a wnaed heb ganiatâd cynllunio a bod hysbysiad gorfodi wedi'i ddyroddi, neu os gellid dyroddi hysbysiad gorfodi, i'r perchennog neu'r meddiannydd yn ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd i adfer y tir, ac os gellid gwneud defnydd rhesymol fuddiol o'r tir wedyn (h.y. ni ddylai fod yn bosibl i dirfeddiannwr ddyroddi hysbysiad prynu mewn perthynas â thir sy'n annefnyddiadwy oherwydd gweithredoedd y landlord ei hun a gyflawnwyd yn groes i reolaeth gynllunio, y mae hysbysiad gorfodi wedi cael ei ddyroddi, neu y gallai gael ei ddyroddi, mewn perthynas â nhw).

**Atodlen 12, paragraff 4(1)**
Mae'n ymgorffori *Wain v yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd* (1982) 262 EG 337 a *Cook a Woodham v Cyngor Dinas Caer-wynt* (1994) 69 P&CR 99, sy'n nodi'n glir fod yn rhaid i hysbysiadau prynu a gyflwynir o dan adran 137 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ymwneud â'r holl dir y mae a wnelo'r penderfyniad neu'r gorchymyn cynllunio ag ef (h.y. y penderfyniad neu'r gorchymyn cynllunio sy'n arwain at gyflwyno'r hysbysiad prynu), ac na ddylent ymwneud ag unrhyw dir arall.

**Atodlen 12, paragraff 4(6) a (7)**
Mae'n ymgorffori *White v Cyngor Swydd Henffordd* [2008] 1 WLR 954, sy'n egluro na ellir diwygio hysbysiadau prynu a gyflwynir o dan adran 137 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ond y gellir cyflwyno hysbysiadau pellach yn lle hysbysiadau cynharach.

**Atodlen 12, paragraff 9(3)**
Mae'n ymgorffori elfen arall o'r dyfarniad yn achos *White*, sy'n egluro bod adran 143(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn gymwys os anfonwyd yr hysbysiad prynu at Weinidogion Cymru i'w gadarnhau.

Mae hefyd yn ymgorffori *Sheppard v yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd* [1975] 1 EGLR 133 drwy hepgor y cyfeiriad yn adran 143(2)(c) o Ddeddf 1990 at Weinidogion Cymru yn hysbysu perchennog y tir nad ydynt yn bwriadu cadarnhau'r hysbysiad. Yn lle hynny, mae'r ailddatganiad ym mharagraff 9(3) yn gymwys pan fydd Gweinidogion Cymru wedi penderfynu peidio â chadarnhau hysbysiad prynu.

## ATODIAD 2 – NEWIDIADAU I DERMINOLEG

Noder: mae cyfeiriadau at argymhellion yn gyfeiriadau at argymhellion yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru*, a gyhoeddwyd yn 2018

| Y term neu'r ymadrodd presennol | Y term neu'r ymadrodd arfaethedig | Sail Resymegol | Ymgynghoriad |
|---|---|---|---|
| Person penodedig (neu berson a benodwyd gan Weinidogion Cymru) | Arolygwyr | Mae'n gweithredu argymhelliad 5-11 | Fe'i cynhaliwyd gan Gomisiwn y Gyfraith er mwyn llywio ei adroddiad terfynol (gweler y papur ymgynghori a'r adroddiad terfynol am ei sail resymegol)<br>Amlinellodd ymgynghoriad y Llywodraeth ar reoliadau newydd ynglŷn â chadw coed a choetiroedd[2] y dull gweithredu arfaethedig i gynnwys gorchmynion cadw coetir yn y Bil a rhoi cyfle i randdeiliaid gyflwyno sylwadau. Ni chodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â'r term. |
| Ystyriaethau perthnasol ('material considerations') | Ystyriaethau perthnasol ('relevant considerations') | Mae'n gweithredu argymhelliad 5-2(2) | |
| Gorchymyn cadw coed | Gorchymyn cadw coed<br>Gorchymyn cadw coetir | Mae'n gweithredu argymhelliad 15-3(4) | |
| Awdurdod cynllunio lleol ac Awdurdod cynllunio mwynau | Awdurdod cynllunio | Mae'n gweithredu argymhelliad 5-13 | |
| Awdurdod sylweddau peryglus | Awdurdod cynllunio | Yr awdurdod sylweddau peryglus ar gyfer ardal yng Nghymru fydd yr awdurdod cynllunio bob amser. Felly, mae'r newid arfaethedig yn adlewyrchu'r sefyllfa hon. | Nid ystyrir bod angen ymgysylltu am fod y newid yn adlewyrchu effaith y pŵer yn fwy cywir. |
| Dosbarth unedig ('unified district') (o fwrdd cynllunio ar y cyd) | Ardal gydgynllunio | Mae'n osgoi cyfeiriad anghyfredol at 'dosbarthau' (nad ydynt yn bodoli mwyach yng Nghymru) | Nid ystyrir bod angen ymgysylltu am fod y newid yn adlewyrchu'r trefniadau presennol yn fwy cywir |
| Hysbysiad tramgwydd cynllunio | Hysbysiad ymchwiliad gorfodi | Mae'r newidiadau yn adlewyrchu effaith y darpariaethau yn fwy cywir.<br>Er enghraifft, bydd "hysbysiad cwblhau" yn nodi y bydd caniatâd yn peidio â bod yn weithredol ar ddiwedd cyfnod penodedig, ond ni | Nid ystyrir bod angen ymgysylltu am fod y newidiadau yn adlewyrchu bwriad ac effaith y pwerau yn fwy cywir.<br>Cynhaliwyd digwyddiad i randdeiliaid ar y darpariaethau ynghylch mwynau, ar ôl i'r Bil drafft gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2025, a nododd |
| Hysbysiad cwblhau | Gorchymyn dirwyn i ben | | |
| Gorchymyn atal dros dro<br>Gorchymyn atal dros dro atodol | Gorchymyn diogelu | | |

[2] Cadw coed a choetiroedd: rheoliadau newydd | LLYW.CYMRU

| Y term neu'r ymadrodd presennol | Y term neu'r ymadrodd arfaethedig | Sail Resymegol | Ymgynghoriad |
|---|---|---|---|
| | | all warantu y caiff y datblygiad ei gwblhau.<br><br>Gellir dyroddi “gorchymyn atal dros dro” lle mae gweithrediadau mwynau wedi peidio dros dro. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd gymryd camau er mwyn sicrhau y caiff yr amgylchedd ei ddiogelu nes i'r defnydd ailddechrau. Mae'r gorchymyn yn canolbwyntio ar ddiogelu'r amgylchedd.<br><br>Mae “gorchymyn atal dros dro atodol” yn gwneud darpariaeth bellach i'r perwyl hwnnw neu'n dirymu'r gorchymyn gwreiddiol; nid oes angen enw gwahanol arno. | y newid ac ni chyflwynwyd unrhyw sylwadau. |
| Hysbysiad o dan adran 215 o Ddeddf 1990 | Hysbysiad cynnal a chadw tir | Ar y cyfan, mae'r Bil wedi'i ddrafftio fel bod gan bob math o orchymyn neu hysbysiad enw penodol, sy'n egluro beth mae'n ei wneud, yn hytrach na chyfeirio ato yn ôl rhif yr adran neu'r rheoliad a grëir ganddo. Mae hyn yn gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch – yn arbennig yn ystod y cyfnod yn union ar ôl i Fil cydgrynhoi ddod i rym, pan na fydd rhifau newydd yr adrannau yn hysbys eto. | Nid ystyrir bod angen ymgysylltu am fod y dull gweithredu yn adlewyrchu llawer o'r termau sydd eisoes yn cael eu defnyddio'n ymarferol megis hysbysiad cynnal a chadw tir (a ddefnyddir gan Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) yn ei dogfennau canllaw[3, 4]) neu hysbysiad ailblannu coed a ddefnyddir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru gan gynnwys Nodyn Cygor Technegol 10.[5].<br><br>Mae'r term “gorchymyn dirwyn i ben” wedi hen ymsefydlu, fe'i defnyddir gan ymarferwyr a chyfeirir ato yn *Llawlyfr Rheoli Datblygu* |
| Hysbysiad o dan adran 207 o Ddeddf 1990 | Hysbysiad ailblannu coed | | |
| Hysbysiad o dan adran 330 o Ddeddf 1990 | Hysbysiad gwybodaeth | | |
| Gorchymyn o dan adran 102 o Ddeddf 1990<br><br>Gorchymyn o dan baragraff 1 o Atodlen 9 i Ddeddf 1990 | Gorchymyn terfynu | | |
| Rheoliadau o dan adran 220 o Ddeddf 1990 | Rheoliadau rheoli hysbysebu | | |

[3] Apeliadau cynnal a chadw tir | LLYW.CYMRU
[4] apeliadau-hysysiad-cynnal-tir.pdf
[5] Nodyn cyngor technegol (TAN) 10: gorchmynion cadw coed | LLYW.CYMRU

| Y term neu'r ymadrodd presennol | Y term neu'r ymadrodd arfaethedig | Sail Resymegol | Ymgynghoriad |
|---|---|---|---|
| | | | Llywodraeth Cymru[6] a chanllawiau mwynau ar adolygu caniatadau cynllunio ar gyfer mwynau 1995[7]. |
| Awdurdod priodol (mewn perthynas â thir y Goron) | Awdurdod priodol y Goron | Mân newidiadau a fydd yn gwneud y darpariaethau perthnasol yn fwy hygyrch ac yn sicrhau cysondeb yn y Bil. Mae'r defnydd o derminoleg fwy cyffredin yn adlewyrchu gwaith drafftio modern ac yn symleiddio'r termau yn y Bil. Mae peidio â defnyddio acronymau a nodi enwau yn llawn yn ogystal â symud i ffwrdd o groesgyfeiriadau at adrannau eraill mewn Deddfau yn gwella hygyrchedd. | Am eu bod yn fân-newidiadau, ni chynhaliwyd unrhyw weithgarwch ymgynghori nac ymgysylltu. |
| Eiddo eglwysig | Tir Eglwys Loegr | | |
| 'Former PTO' | 'Former public telecommunications operator' (Cyn-weithredwr telathrebu cyhoeddus) | | |
| Rhandir tanwydd neu ardd gae | Rhandir | | |
| Deiliad trwydded o dan adran 6 o Ddeddf Trydan 1989 | Trwyddedai trydan | | |
| Person sy'n dal trwydded o dan Bennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 | Trwyddedai traffig awyr | | |
| Cloddio a gweithio mwynau | Gweithrediadau mwyngloddio | Mae'r newid i “gweithrediadau mwyngloddio” yn gweithredu argymhelliad 18-5.<br>Mae dwyn ynghyd y darpariaethau ar gyfer mwynau a gwastraff o sawl deddfiad wedi arwain at newidiadau i derminoleg. Roedd gwahanol ymadroddion wedi'u defnyddio i gyfeirio at bethau tebyg a thrwy eu dwyn ynghyd bu'n bosibl inni ddefnyddio terminoleg gryno ag ystyr glir, gan wella hygyrchedd ac, ar yr un pryd, gadw'r effaith gyfreithiol bresennol. | Roedd y newid i weithrediadau mwyngloddio yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd gan Gomisiwn y Gyfraith er mwyn llywio ei adroddiad terfynol.<br>Ymgysylltwyd ag arweinwyr mwynau awdurdodau cynllunio ar gyfer Gogledd a De Cymru a oedd yn cynnwys adolygu newidiadau arfaethedig i ddiffiniadau a therminoleg ar gyfer rhai o'r diffiniadau gan gynnwys gweithrediadau mwyngloddio, datblygu mwynau, gwastraff a |
| Gwaith datblygu sy'n cynnwys cloddio a gweithio mwynau neu ddyddodi gwastraff mwynau | Datblygiad mwynau | | |
| Sbwriel neu ddeunyddiau gwastraff | Gwastraff | | |
| Dyddodi deunydd o weithio mwynau | Dyddodi gwastraff mwynau | | |
| Hen ganiatâd mwyngloddio | Caniatâd mwynau cyn 1948 | | |

[6] Llawlyfr rheoli datblygu | LLYW.CYMRU
[7] minerals-planning-guidance-14.pdf (Saesneg yn unig)

| Y term neu'r ymadrodd presennol | Y term neu'r ymadrodd arfaethedig | Sail Resymegol | Ymgynghoriad |
|---|---|---|---|
| Safle Cam I neu safle Cam II | Safle a ddangosir mewn rhestr a luniwyd o dan baragraff 3 o Atodlen 13 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 | Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd 1995 gyfundrefn lle y bu'n rhaid i safleoedd â chaniatadau mwynau a roddwyd rhwng mis Gorffennaf 1948 a mis Chwefror 1982 gael eu cynnwys mewn rhestr o “safleoedd Cam I” a “safleoedd Cam II”.<br><br>Mae llawer o'r terfynau amser a'r gofynion gweithdrefnol sydd ynghlwm wrth safleoedd Cam I a II wedi mynd heibio ers amser. Felly, nid yw'r broses gategoreiddio yn ateb diben ymarferol mwyach.<br><br>Mae angen cyfeirio rhywfaint at y rhestrau oherwydd y darpariaethau sy'n ymwneud â safleoedd segur a'r adolygiadau cyfnodol o ganiatadau mwynau yn y Bil. | dyddodi gwastraff mwynau. Nid oeddent yn ymwybodol o unrhyw heriau'n gysylltiedig â'r diffiniadau arfaethedig ac roeddent yn fodlon ar y dull gweithredu a fabwysiadwyd o ran y gwaith drafftio.<br><br>Cynhaliwyd digwyddiad i randdeiliaid ar y darpariaethau ynghylch mwynau, ar ôl i'r Bil drafft gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2025, a nododd y newidiadau eraill gan gynnwys y defnydd o ganiatadau mwynau cyn 1948, a'r ffaith nad oedd angen ailddatgan safleoedd Cam I a Cham II mwyach. Ni chyflwynwyd unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig hyn. |

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and** Constitution Committee

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julie James AS
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni

21 Hydref 2025

Annwyl Julie,

Y Biliau Cydgrynhoi Cynllunio

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 10 Hydref 2025 mewn ymateb i'm llythyr dyddiedig 23 Medi 2025 mewn perthynas â'r Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru).

Fel y gwyddoch, cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddar i lywio ei ystyriaeth gychwynnol o'r Biliau.

Gwnaethom ystyried yr ymatebion a ddaeth i law yn ein cyfarfod ar 20 Hydref, a chytunwyd i'w dwyn i'ch sylw cyn i chi ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 3 Tachwedd 2025, pan fyddwn yn disgwyl trafod y materion a godwyd gyda chi. Mae rhai o'r rhai a ymatebodd wedi codi cwestiynau a allai fod yn ddefnyddiol i'w hystyried ymhellach gan y drafftwyr, er enghraifft; rwy'n ymddiried y bydd tynnu eich sylw at gwestiynau o'r fath ar hyn o bryd yn arwain at sesiwn graffu fwy gwybodus ac effeithiol.

Yn gywir,

Mike Hedges
Cadeirydd

**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

28 Hydref 2025

Annwyl Mike,

**Biliau Cydgrynhoi ym maes Cynllunio**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Hydref 2025. O ystyried natur dechnegol nifer o'r pwyntiau a godwyd yn y dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, mae Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol wedi paratoi esboniad rwy'n ei gynnwys fel Atodiad i gyfrannu at drafodaethau'r Pwyllgor.

Rwy'n ymateb yn uniongyrchol i lond llaw o faterion:

1. Mae nifer o ymatebwyr yn y dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a roddwyd i'r Pwyllgor wedi cyfeirio at y ffaith bod y Bil Cynllunio (Cymru), yn y Saesneg, yn defnyddio'r term "relevant considerations" yn hytrach na "material considerations". Pan fynegwyd pryderon gan yr ymatebwyr, pryderu oeddent a fydd yn ddigon clir nad oes unrhyw newid o ran ystyr ac y bydd y gyfraith achosion bresennol ynghylch "material considerations" yn dal yn berthnasol.

   Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y newid hwn yn ei adroddiad ar *Gyfraith Cynllunio yng Nghymru* (argymhelliad 5-2). Roedd paragraffau 5.28-5.32 ym mhapur ymgynghori'r Comisiwn yn nodi bod y ddyletswydd i roi sylw i "material considerations" yn ymwneud â'r fersiwn statudol o'r ddyletswydd gyffredinol yng nghyswllt cyfraith gyhoeddus i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau roi sylw i'r holl "relevant considerations", a bod y llysoedd uchaf wedi datgan ar sawl achlysur mai "relevant (perthnasol yn Gymraeg)" yw ystyr "material" yn y cyd-destun hwn. Roedd y Comisiwn o'r farn bod y term "relevant considerations" yn fwy tebygol o gael ei ddeall yn eang na'r term "material considerations" sy'n swnio'n dechnegol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Derbyniodd y Llywodraeth yr argymhelliad am y rhesymau a roddwyd gan y Comisiwn. Fel y nodwyd ym mharagraff 260 o'r Nodiadau Esboniadol i’r Bil Cynllunio (Cymru), rydym ni o'r farn nad yw defnyddio “relevant considerations” yn golygu newid y gyfraith o gwbl. Dylai hynny fod yn glir, oherwydd mae’r newid o ran term yn adlewyrchu'r ffordd mae'r gyfraith bresennol wedi cael ei dehongli gan y llysoedd. Os daw'r Bil yn ddeddf, gall canllawiau a fydd yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru (fel y nodwyd ym mharagraff 66 y Memorandwm Esboniadol), ynghyd â diweddariadau i'r canllawiau presennol er mwyn adlewyrchu'r Bil, esbonio'r pwynt hwn hefyd.

Yn ogystal â chael ei ddefnyddio yn y Bil Cynllunio (Cymru), mae'r ymadrodd “relevant considerations” eisoes wedi cael ei ddefnyddio yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ac yn Neddf Seilwaith (Cymru) 2024. Ni chodwyd unrhyw bryderon ynghylch hynny, ac rydym ni o'r farn ei bod yn fanteisiol cadw cysondeb rhwng y darnau cysylltiedig hyn o ddeddfwriaeth.

2. Mae rhai ymatebwyr hefyd wedi awgrymu y dylai'r dyletswyddau datblygu cynaliadwy yn adrannau 11 a 51 o'r Bil, sy'n berthnasol i wneud cynlluniau datblygu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio, fod yn berthnasol yn fwy cyffredinol, gan gynnwys i orfodi. Mae adrannau 11 a 51 o'r Bil yn atgynhyrchu cwmpas presennol y ddyletswydd yn adran 2 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, a drafodwyd ac y cytunwyd arni gan y Senedd wrth graffu ar Ddeddf 2015. Byddai ymestyn y ddyletswydd i swyddogaethau eraill yn newid y gyfraith. Mae hefyd swyddogaethau cynllunio y mae'r ddyletswydd yn amlwg yn amherthnasol iddynt (fel pwerau i wneud rheoliadau ynghylch materion gweithdrefnol a swyddogaethau sy'n ymwneud â thystysgrifau cyfreithlondeb a hysbysiadau malltod), felly gallai ei chymhwyso'n gyffredinol i bob swyddogaeth o dan y Bil roi argraff gamarweiniol am ei chwmpas gwirioneddol.

3. Yn olaf, mae nifer o ymatebwyr wedi codi cwestiynau ynghylch effaith yr ymarfer cydgrynhoi ar is-ddeddfwriaethau sydd eisoes yn bodoli. Hoffwn roi rhywfaint o sicrwydd na fydd dod â'r Bil Cynllunio (Cymru) i rym yn newid effaith unrhyw un o'r is-ddeddfwriaethau presennol (ac eithrio yn yr achosion hynny lle mae darpariaethau sy’n rhan o is-ddeddfwriaethau ar hyn o bryd yn cael eu hailddatgan yn y Bil – sydd i gyd wedi'u nodi yn y tablau tarddiad a'r tablau cyrchfan yn ogystal â Nodiadau'r Drafftwyr). Mae hwn yn bwynt arall y gellir rhoi sylw iddo mewn canllawiau os daw'r Bil yn ddeddf.

Mae adran 35 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn ymdrin yn benodol â'r sefyllfa pan fydd deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli yn cael ei diddymu a'i hailddeddfu mewn Deddf gan y Senedd. Mae adran 35(3) yn gwneud darpariaeth, pe gallai is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y ddeddfwriaeth a ddiddymwyd gael ei gwneud hefyd o dan y Ddeddf newydd, ei bod yn parhau i gael effaith fel pe bai wedi cael ei gwneud o dan y Ddeddf newydd. Mae darpariaethau tebyg wedi bod yn berthnasol i brosesau cydgrynhoi cynharach. Er enghraifft, gwnaethpwyd Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971, ond mae iddo bellach yr effaith fel pe bai wedi cael ei wneud o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Os daw'r Bil Cynllunio (Cymru) yn ddeddf, pan ddaw'r Bil i rym bydd y gorchymyn hwnnw'n parhau i gael effaith mewn perthynas â Lloegr fel pe bai wedi'i wneud o dan Ddeddf 1990, ac fel pe bai wedi cael ei wneud o dan y Bil mewn perthynas â Chymru.

Mae adran 35(2) o Ddeddf 2019 hefyd yn sicrhau y bydd unrhyw gyfeiriadau mewn is-ddeddfwriaeth at ddarpariaethau sy'n cael eu cydgrynhoi yn y Bil Cynllunio (Cymru) yn cael eu darllen yn y dyfodol fel cyfeiriadau at ddarpariaethau cyfatebol y Bil. Er bod adran 35(2) yn sicrhau bod is-ddeddfwriaeth yn dal i weithio'n gywir, nid yw'n helpu hygyrchedd y gyfraith yn y cyd-destun hwn. Felly, byddwn yn disgwyl i reoliadau gael eu gwneud o dan adran 4 o'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) a fydd yn diwygio testun cyfeiriadau mewn is-ddeddfwriaeth fel eu bod yn cyfeirio at ddarpariaethau cywir y Bil.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

**ATODIAD WEDI'I BARATOI GAN SWYDDFA'R CWNSLERIAID DEDDFWRIAETHOL**

Sylwer: mae cyfeiriadau at y “Bil Cynllunio” yn cyfeirio at y Bil Cynllunio (Cymru).

***Tai Hanesyddol Cymru / Historic Houses Wales***

<u>Adran 404, y Bil Cynllunio – defnyddio’r term “preserve”</u>

1. Mae'r ymateb yn tynnu sylw at y gair “preserving”, yn y Saesneg, yn adran 404 o’r Bil Cynllunio ac yn awgrymu y gallai fod yn rhy gaeth. Mae adran 404 yn ailddatgan adran 314A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sydd eisoes yn defnyddio'r gair “preserving”. Mewnosodwyd adran 314A yn Neddf 1990 gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, a chodwyd y cwestiwn a ddylid cyfeirio at “conservation” yn hytrach na “preservation” mewn tystiolaeth gan Dai Hanesyddol Cymru a CLA Cymru wrth i'r Senedd ystyried Deddf 2023. Cafodd rhesymau'r Llywodraeth dros gadw'r ieithwedd bresennol eu cofnodi ym mharagraffau 185-195 yn adroddiad y Pwyllgor ar y Bil ar gyfer Deddf 2023. Rheswm arall dros beidio â newid yr ieithwedd yn adran 404 yw y byddai gwneud hynny yn ei gwneud yn anghyson â Deddf 2023.

***Charles Felgate, Geldards LLP***

<u>Adran 408(3), Bil Cynllunio – lleoliad y gofyniad i roi sylw i bolisïau cenedlaethol</u>

2. Mae paragraff 4 yr ymateb yn awgrymu y dylid symud adran 408(3) o'r Bil Cynllunio o adran ddehongli'r Bil i'r darpariaethau ynghylch penderfynu ar geisiadau cynllunio. Fodd bynnag, fel yr esbonnir yn Nodiadau’r Drafftwyr, mae adran 408(3) yn berthnasol i *holl* ddarpariaethau'r Bil sy'n gosod dyletswydd i roi sylw i'r cynllun datblygu ac “unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill”, nid dim ond y rheini sy'n ymwneud â cheisiadau. Hefyd, mae adran 408(3) yn pennu y tu hwnt i amheuaeth y gallai polisïau cynllunio cenedlaethol ac ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg fod yn ystyriaethau perthnasol, felly rydym ni o'r farn ei bod yn briodol ei chynnwys yn yr adran ddehongli.

<u>Adran 7, Bil Cynllunio – awdurdod cynllunio</u>

3. Mae paragraff 5 yr ymateb yn awgrymu y dylai adran 7 o'r Bil, sy'n diffinio “awdurdod cynllunio”, ddangos y gall Gweinidogion Cymru fod yn awdurdod cynllunio at ddibenion y darpariaethau ynghylch ceisiadau ac apelau. Byddai hynny'n anghywir. Mae'r cyfeiriadau at “awdurdod cynllunio” yn y Bil yn ailddatgan cyfeiriadau presennol at awdurdodau cynllunio lleol, awdurdodau cynllunio mwynau ac awdurdodau sylweddau peryglus. Nid ydynt yn cynnwys Gweinidogion Cymru.

<u>Adran 75, Bil Cynllunio – amrywio cais yr apeliwyd yn ei erbyn</u>

4. Mae paragraff 7 yr ymateb yn dadlau o blaid dileu'r darpariaethau sy'n cyfyngu ar amrywio cais yr apeliwyd yn ei erbyn. Rydym yn cytuno y byddai hyn yn newid polisi na ellid ei wneud mewn Bil cydgrynhoi o dan Reol Sefydlog 26C.2.

***CLA Cymru***

Cynnwys darpariaethau ynghylch hysbysiadau malltod (Rhan 13 o'r Bil Cynllunio)

5. Mae paragraffau 8-11 yr ymateb yn mynegi'r farn na ddylid cynnwys y darpariaethau ynghylch hysbysiadau malltod yn y Bil Cynllunio oherwydd eu bod yn rhan o'r gyfraith ar brynu gorfodol. Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylid cynnwys y darpariaethau malltod yn y Bil Cynllunio (argymhelliad 6-5), a derbyniodd y llywodraeth yr argymhelliad mewn egwyddor. Ystyriwyd y cwestiwn yn ofalus wrth baratoi'r Bil Cynllunio ac, at ei gilydd, daethpwyd i'r casgliad ei bod yn briodol ystyried y darpariaethau malltod fel rhan o gyfraith cynllunio a'u cynnwys yn y Bil. Er bod y darpariaethau'n berthnasol i bethau a wneir o dan amrywiol ddarnau eraill o ddeddfwriaeth, mae'r pethau hynny'n ymwneud â'r bwriad i ddatblygu tir, ac mae'r darpariaethau bob amser wedi'u cynnwys yn y Deddfau Cynllunio Gwlad a Thref.

6. Byddai hepgor y darpariaethau malltod o'r Bil Cynllunio yn golygu eu gadael yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 nes y gellid eu cydgrynhoi mewn Bil arall. Felly byddai Deddf 1990 yn dal yn berthnasol i Gymru i ryw raddau, ond mae'r ymagwedd bresennol a ddefnyddir yn y Bil yn golygu na fydd yn berthnasol. Nid ydym o'r farn y byddai diwygio Deddf 1990 fel ei bod yn berthnasol i Loegr yn unig, ac eithrio'r Bennod am falltod a fyddai'n dal yn berthnasol i Gymru a Lloegr, yn help o ran hygyrchedd.

Newid termau, gan gynnwys “completion notice” a “planning contravention notice"

7. Mae paragraffau 14-19 yn mynegi'r farn y bydd y newidiadau i derminoleg yn y Bil yn tanseilio'r amcan hygyrchedd, ac y gallent ddrysu ymarferwyr sy'n gweithio yng Nghymru yn ogystal â Lloegr. Bwriad y termau newydd a ddefnyddir yn y Bil yw rhoi disgrifiadau cywirach neu symlach o'r pethau y maent yn cyfeirio atynt. Mewn llawer o achosion, fel enwau gwahanol orchmynion a hysbysiadau, mae'r Bil yn mabwysiadu termau sydd eisoes yn cael eu defnyddio'n ymarferol. Yn y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni i'r Pwyllgor, dyddiedig 10 Hydref, roedd Atodiad 2 yn nodi'r newidiadau a fu’n destun ymgynghoriad gan Gomisiwn y Gyfraith neu waith ymgysylltu rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid. Pan fu ymgynghori neu ymgysylltu, mae rhanddeiliaid wedi bod o blaid y newidiadau yn gyffredinol.

Adran 43(3), Bil Cynllunio

8. Dywed paragraffau 20 a 21 fod adran 43(3) o'r Bil Cynllunio yn anodd iawn ei dosrannu. Cytunwn fod adran 43(3) yn frawddeg hir, ond mae hynny'n adlewyrchu natur yr hyn a gynigir.

***RTPI Cymru***

9. Mae'r sylwadau sy'n dilyn yn ymwneud â'r pwyntiau bwled ar dudalennau 3-5 yr ymateb.

Adran 6, Bil Cynllunio – gweithrediadau nad ydynt yn ddatblygiad

10. Mae'r ymateb yn awgrymu y dylid symud adran 6(4) o'r Bil Cynllunio i fyny i greu adran 6(3)(c). Ni fyddai hynny'n gweithio gan fod adran 6(3) yn ddarpariaeth o sylwedd, a bod adran 6(4) yn cyfeirio at ddarpariaeth mewn Deddf arall.

11. Mae'r ymateb yn awgrymu y dylai adran 6(3)(a)(ii) egluro a yw'n cyfeirio at ddatblygiad sy'n gofyn am asesiad o'r effaith amgylcheddol (EIA). Mae'n wir mai pwrpas y cyfeiriad at waith "a allai gael effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd" yw sicrhau nad yw gwaith sy'n rhwym wrth drefn yr asesiad o'r effaith amgylcheddol yn cael ei eithrio rhag bod yn ddatblygiad. Fodd bynnag, nid yw adran 6(3)(a) ei hun yn ymwneud ag asesiadau o'r effaith amgylcheddol, felly nid ydym yn credu y byddai'n ddefnyddiol ychwanegu cyfeiriad atynt. Byddai gwneud hynny'n golygu defnyddio termau a ddiffinnir yn y ddeddfwriaeth ar gyfer asesiad o'r effaith amgylcheddol, a chyfeirio at y diffiniadau o'r termau yn y ddeddfwriaeth honno. Ond mae'r diffiniadau yn y ddeddfwriaeth ar gyfer asesiad o'r effaith amgylcheddol yn cynnwys deunydd nad yw'n berthnasol yn y cyd-destun hwn, ac nid oes angen ymwneud â nhw er mwyn deall effaith adran 6(3)(a). Yn hytrach, gellid sôn yn y canllawiau am y cysylltiad â threfn yr asesiad o'r effaith amgylcheddol.

Parciau Cenedlaethol a chynlluniau datblygu lleol ar y cyd

12. Mae'r ymateb yn awgrymu na all awdurdod Parc Cenedlaethol fod yn rhan o gynllun datblygu lleol ar y cyd. Nid yw hynny'n gywir. Mae adran 9 o'r Bil Cynllunio yn cyfyngu ar y pŵer i sefydlu byrddau cydgynllunio mewn perthynas â Pharciau Cenedlaethol, ond mae adrannau 36 a 37 yn ymdrin â chynlluniau datblygu lleol ar y cyd. O dan adran 36, gall awdurdod Parc Cenedlaethol gytuno ag awdurdod cynllunio arall i baratoi cynllun datblygu lleol ar y cyd, ond ni ellir rhoi cyfarwyddyd iddo wneud hynny.

Adran 10(2), Bil Cynllunio – gwrthdaro rhwng polisïau cynllun datblygu

13. Mae'r ymateb yn awgrymu egluro bod adran 10(2) o'r Bil Cynllunio, wrth gyfeirio at y cynllun diwethaf i gael ei fabwysiadu neu ei gymeradwyo, yn cyfeirio at Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru. Nid yw hynny'n gywir. Mae'r cyfeiriad yn adran 10(2) at gynllun yn cael ei fabwysiadu neu ei gymeradwyo yn cyfeirio at gynllun datblygu lleol neu strategol yn cael ei fabwysiadu drwy benderfyniad yr awdurdod a'i paratôdd o dan adran 24, neu'n cael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(5) neu 29(5). Mae'r cyfeiriad at gyhoeddi cynllun yn cyfeirio at Weinidogion Cymru yn cyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol o dan adran 14(6).

Adran 24(2), Bil Cynllunio – mabwysiadu cynllun

14. Mae'r ymateb yn awgrymu bod angen diwygio adran 24(2) o'r Bil Cynllunio i gynnwys cynlluniau datblygu strategol. Fodd bynnag, mae adran 24(2) eisoes yn berthnasol i'r cynlluniau hynny (gweler y diffiniad o "gynllun" yn adran 20), a'r "awdurdod" y mae'n cyfeirio ato yw'r awdurdod sy'n gwneud cynllun, a grybwyllir yn adran 24(1). Hynny yw, y cyd-bwyllgor corfforedig yn achos cynllun datblygu strategol (gweler y diffiniad o "awdurdod sy'n gwneud cynllun" yn adran 20).

Adran 52, Bil Cynllunio – ymgynghoriad cyn ymgeisio

15. Mae'r ymateb yn awgrymu y dylid diwygio adran 52 er mwyn osgoi'r argraff ei bod yn berthnasol i bob cais. Mae eisoes yn amlwg nad ydyw. Mae adran 52(1) yn datgan mai dim ond i geisiadau arfaethedig am ganiatâd ar gyfer datblygiad "o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau" y mae'r adran yn berthnasol. Pennir y disgrifiad hwnnw yn erthygl 2B o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, a fydd yn parhau i gael effaith fel pe bai wedi cael ei gwneud o dan adran 52 o'r Bil os daw'n ddeddf.

16. Mae'r ymateb hefyd yn dweud y dylai adran 52(8)(d) egluro at ba ymgyngoreion y mae'n cyfeirio. Nid ydym ni o'r farn bod angen gwneud hynny. Mae adran 52(5) eisoes yn galw am reoliadau i osod dyletswydd i ymgynghori a phennu'r personau y mae'n rhaid ymgynghori â nhw, ac mae adran 52(7) yn dweud yn glir bod adran 52(8) yn berthnasol i ymgynghoriad o dan adran 52 yn unig.

Adran 86, Bil Cynllunio – cyfuno ceisiadau

17. Mae'r ymateb yn awgrymu bod adran 86 yn ddarpariaeth newydd nad yw'n briodol ar gyfer Bil cydgrynhoi. Fodd bynnag, nid yw adran 86 yn ddarpariaeth newydd: mae'n ailddatgan adran 332 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gyda mân newidiadau drafftio.

Adran 113, Bil Cynllunio – terfynau amser ar gyfer camau gorfodi

18. Mae'r ymateb yn awgrymu, er eglurder, y dylid diwygio rhes olaf y tabl yn adran 113 i ddweud bod yr achosion o dor rheolaeth gynllunio y mae'n cyfeirio atynt yn cynnwys unrhyw newid arall o ran defnydd ac unrhyw dor amod. Fodd bynnag, mae'r geiriad yn y fan hon yr un fath â'r geiriad yn adran 171B(3) o Ddeddf 1990, ac mae'r diffiniad o "dor rheolaeth gynllunio" yn adran 112 o'r Bil (ailddatgan adran 171A) eisoes yn dangos yn glir beth sydd wedi'i gynnwys. Hefyd, byddai'r diwygiad a gynigiwyd yn newid y gyfraith mewn perthynas â newidiadau sylweddol o ran defnydd nad ydynt yn ddatblygiad yn rhinwedd adran 6 o'r Bil neu nad oes angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer yn rhinwedd adran 43.

19. Mae'r ymateb hefyd yn gofyn a ddylid codeiddio'r gyfraith achosion ar gyfer achosion cuddiedig o dor rheolaeth gynllunio. Nid ydym ni o'r farn y dylid gwneud hynny. Ystyriodd Comisiwn y Gyfraith y mater hwn, ac argymhellodd y dylid rhoi sylw iddo mewn canllawiau yn hytrach na thrwy godeiddio'r gyfraith achosion yn y Bil: gweler argymhelliad 12-3, a dderbyniwyd gan y Llywodraeth.

Adrannau 120(5) a 123(3), Bil Cynllunio – hysbysiadau stop dros dro

20. Mae'r ymateb yn awgrymu bod gwrthdaro rhwng adrannau 120(5) a 123(3). Nid ydym yn deall pam yr awgrymir hynny, ac rydym ni'n fodlon nad oes gwrthdaro.

Ystyr “diogelwch y cyhoedd” yn adran 231(1)(b), Bil Cynllunio

21. Mae'r ymateb yn awgrymu y dylai'r Bil ddatgan bod “diogelwch y cyhoedd” yn adran 231(1)(b) yn cynnwys diogelwch ar y priffyrdd. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw reswm pam na fyddai'r cyfeiriad cyffredinol at “ddiogelwch y cyhoedd” yn cynnwys diogelwch pobl ar briffordd, ac nid ydym o’r farn y byddai'n ddefnyddiol sôn yn benodol am yr agwedd hon ar ddiogelwch y cyhoedd.

Adran 126(4), Bil Cynllunio – hysbysiadau tor amod

22. Mae'r ymateb yn awgrymu codi lefel y ddirwy am beidio â chydymffurfio â hysbysiad tor amod (fel yr argymhellodd Comisiwn y Gyfraith yn argymhelliad 12-25). Rydym ni o'r farn y byddai cynyddu'r ddirwy yn newid o bwys mewn polisi na ellid ei wneud mewn Bil cydgrynhoi o dan Reol Sefydlog 26C.2.

Adrannau 165-171, Bil Cynllunio – rhwymedigaethau cynllunio a'r ardoll seilwaith cymunedol

23. Mae'r ymateb yn gofyn a yw'r cyfyngiad cronni wedi cael ei ddileu. Rydym yn deall bod hyn yn cyfeirio at reoliad 123(3) o Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010, sydd wedi cael ei ddirymu yn Lloegr ond sy'n dal yn berthnasol yng Nghymru. Mae Pennod 2 o Ran 6 o'r Bil Cynllunio yn ailddatgan y pwerau y gwnaed Rheoliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol oddi tanynt, ond nid yw'n effeithio ar y Rheoliadau eu hunain, a fydd yn dal i gael yr un effaith ag y maent yn awr ar ôl i'r Bil ddod i rym. (Mae dau eithriad: mae rheoliadau 4 a 122 wedi'u hailddatgan yn y Bil, felly ni fydd eu hangen mwyach.) Felly bydd rheoliad 123(3) yn dal yn berthnasol i Gymru oni bai fod Gweinidogion Cymru yn ei ddirymu, felly bydd unrhyw newid yn fater i reoliadau yn hytrach na'r Bil.

Diffiniad o'r term “occupied (a feddiennir)”

24. Mae'r ymateb yn awgrymu diwygio adran 408 i gynnwys diffiniad o’r term “occupied (a feddiennir)”. Fodd bynnag, nid ydym yn ymwybodol o achosion lle mae ystyr “occupied” mewn deddfwriaeth gynllunio wedi achosi problemau ymarferol. Mae'r llysoedd wedi ystyried ystyr “occupy (meddiannu)” ac “occupier (meddiannydd)” yn y darpariaethau gorfodi o dro i dro, ond maent wedi penderfynu bod a yw person yn feddiannydd yn gwestiwn ffeithiol ac yn gwestiwn o raddau i'w benderfynu yn amgylchiadau pob achos (see *Stevens v Bromley LBC* [1972] Ch 400; *Scarborough BC v Adams* (1983) 147 JP 449; *International Traders Ferry Ltd v Adur DC* [2004] 2 PLR 106). O'r herwydd, nid yw'r gyfraith achosion yn amlinellu prawf na diffiniad manylach y gellid ei godeiddio mewn deddfwriaeth. Nid yw ymateb RTPI Cymru ychwaith yn awgrymu pa ddiffiniad y dylid ei fabwysiadu na pha faterion y dylai roi sylw iddynt.

***Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog / Bannau Brycheiniog National Park Authority***

Mater 1: Newid effaith Adran 4A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

25. Mae'r ymateb yn honni bod y Bil Cynllunio yn newid effaith adran 4A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ac yn creu ansicrwydd ynghylch rôl awdurdod Parc Cenedlaethol fel awdurdod cynllunio. Nid ydym yn cytuno ei fod yn gwneud unrhyw un o'r pethau hynny.

26. Mae Adran 7 o'r Bil yn datgan yn glir mai awdurdod Parc Cenedlaethol yw'r awdurdod cynllunio ar gyfer y Parc Cenedlaethol hwnnw. Mae'r drafft yn dilyn y dull o ddiffinio awdurdod cynllunio lleol sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio yn adran 78(3) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, yn hytrach na'r dull yn adran 4A o Ddeddf 1990.

27. Mae'r Bil yn hepgor y rhan fwyaf o adran 4A o Ddeddf 1990 oherwydd ei bod yn ddiangen yng Nghymru. Yn y rhan fwyaf o Loegr, ceir dau awdurdod cynllunio lleol (awdurdod cynllunio sirol ac awdurdod cynllunio dosbarth) ac awdurdod cynllunio mwynau (sef yr awdurdod cynllunio sirol). Rydym ni o'r farn bod adran 4A yn amodi mai awdurdod Parc Cenedlaethol yw'r unig awdurdod cynllunio lleol ar gyfer y Parc hwnnw, a'i fod yn cyflawni swyddogaeth awdurdod cynllunio o unrhyw ddisgrifiad er mwyn dangos yn glir ei fod yn cymryd lle'r holl awdurdodau eraill hynny. O dan y Bil Cynllunio, dim ond un awdurdod cynllunio (y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol fel arfer) y gall ardal yng Nghymru ei gael, felly mae'r dull a ddefnyddir yn adran 4A yn ddiangen. Nid oes angen dweud mwy na'r hyn a ddywedir yn adran 7 o'r Bil.

28. Nid ydym yn deall pam mae'r ymateb yn cyfeirio at swyddogaeth cyd-bwyllgor corfforedig o baratoi cynllun datblygu strategol o dan Ran 6 o Ddeddf 2004. Mae adran 4A o Ddeddf 1990 yn ymwneud â swyddogaethau awdurdodau cynllunio o dan y Deddfau cynllunio. Nid yw cyd-bwyllgor corfforedig yn "awdurdod cynllunio" oherwydd ni chyfeirir ato fel awdurdod cynllunio yn unrhyw le yn y ddeddfwriaeth bresennol[1]; ac mae'n endid corfforaethol ar wahân yn hytrach nag yn gyd-bwyllgor ar gyfer yr awdurdodau cynllunio yn ei ardal. Nid yw Deddf 2004 yn un o'r "Deddfau cynllunio" gan nad yw wedi cael ei chynnwys yn y diffiniad o'r Deddfau cynllunio yn adran 336(1) o Ddeddf 1990. Felly, nid yw adran 4A o Ddeddf 1990 yn berthnasol i gyd-bwyllgorau corfforedig nac i swyddogaethau o dan Ddeddf 2004. Yn hytrach, mae Rhan 6 o Ddeddf 2004 yn nodi pa awdurdodau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Rhan honno, ac yn benodol yn rhoi swyddogaeth paratoi cynllun datblygu strategol i gyd-bwyllgor corfforedig yn unig. Mae Rhan 2 o'r Bil Cynllunio yn cadw at y safbwynt hwnnw.

---

[1] Mae adrannau 60L a 60N o Ddeddf 2004 yn cymhwyso'r darpariaethau gweithdrefnol ynghylch arolygon awdurdodau cynllunio lleol a chynlluniau datblygu lleol i arolygon cyd-bwyllgorau corfforedig a chynlluniau datblygu strategol. Er mwyn gwneud i'r darpariaethau hynny weithio'n gywir ar gyfer arolygon cyd-bwyllgorau corfforedig a chynlluniau datblygu strategol, mae adrannau 60L(3)(a) a 60N(4)(a) yn trin cyfeiriadau at awdurdodau cynllunio lleol fel pe baent yn gyfeiriadau at gyd-bwyllgorau corfforedig. Nid yw hynny'n golygu bod cyd-bwyllgor corfforedig yn awdurdod cynllunio lleol at unrhyw ddiben. Mae Penodau 3- 5 o Ran 2 o'r Bil Cynllunio yn defnyddio dull drafftio gwahanol nad yw'n dibynnu ar gymhwyso darpariaethau ynghylch awdurdodau cynllunio lleol i gyd-bwyllgorau corfforedig.

Mater 2: Hepgor Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017

29. Mae safbwynt Llywodraeth Cymru ar gynnwys y Rheoliadau Cynefinoedd yn y broses cydgrynhoi wedi'i amlinellu yn y dyfyniad sydd wedi'i gynnwys yn yr ymateb.

Mater 3: Ansicrwydd ynghylch pryd y daw cynlluniau datblygu lleol i ben

30. Mae'r ymateb yn honni bod ansicrwydd ar hyn o bryd ynghylch pryd y daw cynlluniau datblygu lleol i ben, sy’n parhau gyda’r Bil Cynllunio. Mae’n bosibl ei fod hefyd yn awgrymu y gallai'r Bil achosi i gynlluniau ddod i ben yn gynharach nag y byddent fel arall. Nid ydym yn cytuno bod unrhyw ansicrwydd nac y byddai'r Bil yn newid unrhyw beth.

31. Cafodd adran 62 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ei diwygio gan adran 12 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, a ddaeth i rym ar 4 Ionawr 2016. Mewnosododd adran 62(3B) newydd a oedd yn mynnu bod cynlluniau datblygu lleol yn pennu'r cyfnodau y byddent mewn grym. Nid oedd yn ôl-berthnasol i gynlluniau datblygu lleol a oedd eisoes wedi cael eu mabwysiadu, nac yn mynnu eu bod yn cael eu diwygio. Mewnosododd hefyd adran 62(9), sy'n gwneud darpariaeth i effaith cynlluniau datblygu lleol ddod i ben ar ôl diwedd y cyfnod a bennir o dan is-adran (3B). Nid yw'n berthnasol i unrhyw gyfnodau a oedd wedi eu pennu mewn cynlluniau datblygu lleol a fabwysiadwyd cyn i adran 62(3B) ddod i rym ar 4 Ionawr 2016, oherwydd nad oedd y cyfnodau hynny wedi eu pennu o dan is-adran (3B).

32. Mae adran 19(5) a (9) o'r Bil Cynllunio yn ailddatgan adran 62(3B) a (9) o Ddeddf 2004 yn union yr un fath fwy neu lai. Yn benodol, mae adran 19(9) yn gwneud darpariaeth i effaith cynllun ddod i ben ar ôl diwedd “y cyfnod a bennir o dan is-adran (5)”. Bydd y cyfeiriad at y cyfnod “a bennir o dan is-adran (5)” yn cynnwys cyfnod a bennwyd o dan adran 62(3B) pan oedd mewn grym, ond ni fydd yn cynnwys unrhyw gyfnod a oedd wedi cael ei bennu mewn cynllun a fabwysiadwyd cyn i adran 62(3B) ddod i rym. Bydd adran 35(2) a (4) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn sicrhau bod cyfnodau a bennwyd o dan adran 62(3B) yn dal i gael effaith fel pe baent wedi'u pennu o dan adran 19(5) o'r Bil Cynllunio, ac yn fwy cyffredinol bod cynlluniau datblygu lleol sydd eisoes yn bodoli yn dal i gael yr un effaith ag o’r blaen ar ôl i'r Bil Cynllunio ddod i rym, felly ni fydd y sefyllfa'n newid. Mae paragraff 2 o Atodlen 5 i'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) yn dweud yn glir bod y darpariaethau trosiannol ac arbed yn yr Atodlen honno yn berthnasol hefyd i adran 35 o Ddeddf 2019, ac nad ydynt yn cyfyngu ar weithredu'r adran honno.

***Sara Hanrahan, Blake Morgan LLP***

Deddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023

33. Mae bron pob un o'r newidiadau i ddeddfwriaeth gynllunio a wnaed gan Ddeddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023 yn berthnasol i Loegr yn unig, felly nid ydynt yn cael eu hailddatgan yn y Bil Cynllunio ond maent yn effeithio ar y diwygiadau y mae angen i'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) eu gwneud i'r ddeddfwriaeth bresennol.

34. Mae rhai darpariaethau yn y Bil Cynllunio yn ailddatgan darpariaethau sydd i'w mewnosod yn Neddf 1990 gan Ddeddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023 ond sydd heb ddod i rym eto. Mae'r darpariaethau hynny yn y Bil Cynllunio i'w hanwybyddu nes daw'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023 i rym: gweler paragraffau 9, 13 a 22 o Atodlen 5 i'r Bil Darpariaethau Canlyniadol.

Y Bil Cynllunio a Seilwaith

35. Rydym wedi ystyried y Bil Cynllunio a Seilwaith wrth ddrafftio ein Biliau. Cyflwyno diwygiadau i ddeddfwriaeth am seilwaith sydd heb eu cynnwys yn ein proses cydgrynhoi wna'r Bil hwnnw'n bennaf, a phan fydd yn diwygio'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei chydgrynhoi, dim ond i Loegr mae'r gwelliannau'n berthnasol. Mae'r Bil Cynllunio a Seilwaith yn effeithio'n bennaf ar y diwygiadau canlyniadol y mae angen i ni eu gwneud i ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli, a byddwn yn pwyso a mesur a oes angen newid unrhyw rai o'r diwygiadau hynny os caiff y Bil Cynllunio a Seilwaith ei basio.

Achos *Hillside*

36. Roedd penderfyniad y Goruchaf Lys yn achos *Hillside Parks Ltd v Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri* [2022] UKSC 30 yn ymwneud â chwmpas yr egwyddor bod caniatâd cynllunio yn rhoi'r gorau i awdurdodi datblygiad os daw'n gorfforol amhosibl cyflawni'r datblygiad hwnnw oherwydd bod caniatâd cynllunio sy'n gwrthdaro, ac sy'n ymwneud â'r un safle, yn cael ei roi ar waith. Bwriad unrhyw ddiwygiad mewn perthynas â'r mater hwn fyddai newid y gyfraith, felly ni fyddai o fewn cwmpas y broses cydgrynhoi o dan Reol Sefydlog 26C.2.

Diwygiadau cynllunio ar lefel y DU yn y dyfodol

37. Ni all y Bil Cynllunio ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth a allai gael eu cynnwys mewn Biliau a fydd yn cael eu cyflwyno yn Senedd y DU yn y dyfodol. Mae'n debygol y byddai unrhyw Fil cynllunio ar lefel y DU yn y dyfodol yn berthnasol i Loegr yn unig. Pe rhoddid caniatâd i'r Bil wneud newidiadau sy'n berthnasol i Gymru, byddai angen iddo wneud hynny drwy ddiwygio'r Bil Cynllunio.